

WIDENER LIBRARY



HX CXU6 2

VI
ATTRAVERS
O'DDIERIE

5074.17.30



Harvard College Library

FROM

..... Mrs. Jane Sink

..... and

..... Mr. William Thomas

To Mrs. Thomas
From Ann Daves

Describe by
name of ~~the~~
house the same house
of wife you dyed in
above last happy days

Amos Davis

The gift of a Friend

May 5 - 1861



Yours very sincerely
Mary A. Edmond.

YR ATHRAWES O DDIFRIF:

• SEF,

LLOFFION O HANES BYWYD A MARWOLAETH

MRS. EDMUNDS, BANGOR,

YN NGHYDA

DETHOLIAD O'I HYSGRIFENIADAU.

YN DAIR RHAN.

Y RHAN GYNTAF WEDI EI CHASGLU GAN EI BRAWD,
J. W. JONES, LLUNDAIN.

YR AIL RAN GAN EI PHRIOD, J. EDMUNDS.
Y DRYDEDD RAN YN CYNWYS EI PHRYDYDDIAETH.

YN NGHYDA RHAGDRAETH,

GAN Y

PARCH. LEWIS EDWARDS, M.A., BALA.

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD, DROS Y CYHOEDDWYR, GAN G. PARRY,
HEOL Y BONT.

E. JONES, 124, ALDERSGATE STREET, LONDON.

1859.

Cell 5074-17-30



Mrs. Jane Sink
and
Mr. William Thomas.

CYNWYSIAD.

Tudal.

Rhagdraeth, gan y Parch. L. Edwards, M.A., Bala . . . vii

RHAN GYNTAF.

PENNOD I.	
Sylwadau Arweiniol	1
PENNOD II.	
Ei Hanes Boreuol	3
PENNOD III.	
Ei Phrofiad Crefyddol, &c.	10
PENNOD IV.	
Parhad o'r unrhyw	17
PENNOD V.	
Ei Hymgyflwyniad i Grefydd	23
PENNOD VI.	
Ei Phrofiad Crefyddol, &c.	32
PENNOD VII.	
Profiadau a Myfyrdodau Achlysurol	35

R H A N A I L .

	Tudal.
Sylwadau Arweiniol 41
PENNOD I.	
Gwrthddrych y Cofiant 43
PENNOD II.	
Ei Nodweddiad fel Athrawes 50
PENNOD III.	
Ei Syniadau am Addysg y Rhyw Fenywaidd 53
PENNOD IV.	
Y Traethodau 57
PENNOD V.	
Ei Chystudd 66
PENNOD VI.	
Ei Phrofiad Crefyddol 69
PENNOD VII.	
Ei Llafur Crefyddol 74
PENNOD VIII.	
Cydwybodolrwydd Crefyddol 76
PENNOD IX.	
Hunan-ymholiad 78
PENNOD X.	
Ei Hymroddiad i Fyw yn Grefyddol 81
PENNOD XI.	
Angeu yn y Teulu 83
PENNOD XII.	
Cymdeithas â'r Byd Anweledig 90
PENNOD XIII.	
Darfod â'r Pethau a Welir 92
PENNOD XIV.	
Toriad y Wawr 95
PENNOD XV.	
Awydd bod yn Ddefnyddiol 97

	Tudal.
PENNOD XVI.	
Sierwydd Gobaith	101
PENNOD XVII.	
Awydd Myned Trwodd	104
PENNOD XVIII.	
Y Ffarwel Olaf	106

RHAN DRYDYDD.

POETRY.

Death	112
Farewell	113
A Fragment	”
Remember Me	114
Hymn	”
Myfyrdodau ar Farwolaeth Mrs. D. Charles, Caerfyrddin	”
In Remembrance of Ellen	”
Lines on Isaiah lxvi. 2.	115
The Love of God	116
“And when He beheld the City, He wept over it”	”
To my Brother on his Birthday	117
On the Influence of the Holy Spirit	”
The Close of the Year	118
“Oh that I had the wings of a dove,” &c.	119
Forget me Not	”
Sonnet	”
To J—— A——	120
To E. H.	121
To ——	”
To ——	”
A Fragment	122

	Tudal.
To E. W. on his Exile	122
The Evening Hour	”
All beneath the Skies is Vanity	123
Lines witten in a Churchyard	”
On the grave of the Rev. Thomas Jones	124
Heaven	”
To ———	”
The Vanity of Human Life	125
Lines written in Mydrim Churchyard	”
On receiving a Memorial, &c.	126
To my Brother on his Birthday	”
Invocation to Sleep	127
An Epistle to a Friend	”
Cambrian Scenery	128
Lines written on the Death of Mrs. Davies	129
Sonnet	”
Lines written at the Grave of a Pious Young Lady	130
To a Friend in Distress	”
Stanzas on Coldness of Heart	”
Translation of “Fy Nghyfaill”	”
The Christian's Happy Lot	133
Enw Crist	”
My Bible	”
Llinellau Galarnadol ar Farwolaeth Mrs. Edmunds, gan IsIwyn	135

RHAGDRAETH.

GAN Y PARCH. LEWIS EDWARDS, M.A., BALA.

MEGIS mai trugareddau cyffredin Rhagluniaeth yw y rhai mwyaf anhebgorol, felly, er cymaint o awydd a ddangosir yn yr oes hon i ymgyrhaedd at rywbeth gwreiddiol, efallai, wedi'r cwbl, mai y gwirioneddau mwyaf agos atom, y rhai sydd mor amlwg i bawb fel mai prin yr ystyrid hwy gan lawer yn werth eu cofnodi, yw y rhai mwyaf pwysig ynddynt eu hunain, a'r rhai sydd yn cael yr effaith ddyfnaf ar y meddwl. Dyma y gwirioneddau sydd mor angenrheidiol i ddyn fel gwrthddrychau ei fyfyrddod ag yw yr awyr bur er cynaliaeth ei gorff: ac, fel yr elfen hono mewn natur, y maent yn cyrhaeddyd at bawb na fyddont yn claddu eu hunain o'u gwirfodd mewn gorchwylion daearol. Y mae hyn i'w weled wrth ymddyddan â gwahanol ddsbarthiadau o wrandawyr o barth y pregethau a draddodir yn eu clywedigaeth; oblegid er y gall rhai fod yn fwyaf parod i ganmawl rhyw olygiad newydd, neu ryw ddywediad barddonol, er hyny os gofynir i'r gwrandawyr cyffredin pa air sydd wedi aros fwyaf yn eu myfyrddod, ac wedi gadael yr argraff ddyfnaf ar eu teimlad, ond odid na cheir ei fod yn hen wirionedd cyffredin. Wrth ddywedyd hyn ni amcenir am ddadleu o blaid segurdd a diffwrthydra: oblegid nid heb lafur y gellir cadw hen wirioneddau o hyd yn newydd, mwy nag y gellir cadw yr awyr o'n hamgylch yn bur i anadlu ynddi heb ofal gwastadol; ac nid oes dim yn fwy anhawdd na dangos pwysigrwydd yr hyn sydd amlwg, a thynu sylw at yr hyn sydd o'r blaen yn berffaith hysbys.

Un o'r gwirioneddau cyffredin hyn yw cyflymdra amser, a breuolder oes dyn. Nid oes yma ddim newydd; ac y mae yn anhawdd dweyd dim arno nad yw wedi ei ddweyd o'r blaen gan drigolion y cynfyd. Yr ydym wedi cynefino ag ef i'r fath raddau fel yr ydym yn gadael iddo fyned heibio heb edrych

arno : ac er hyny, y mae yn un o'r ystyriaethau mwyaf difrifol all fod ; a phe caffai ein sylw arosol yn ei symlrwydd noeth, nid fel delw yn unig i grogi arni wisg addurniadol, ond fel gwirionedd yn meddu bywyd a nerth, byddai yn sicr o gynyrchu effeithiau daionus yn ein meddyliau. Pa beth bynag sydd amheus, dyma un peth nas gellir ei wadu ; a pha beth bynag sydd amherthynasol, dyma un peth sydd yn dwyn cysylltiad agos â phawb o honom, ger bron yr hwn y mae holl oesoedd y byd wedi gorfod ymostwng, ac yn teimlo eu hunain yn ei asael yn fwy diddym na dail y coed pan ddygir hwy ymaith gan y llifiriant. Y mae dynion erbyn hyn bron meddwl fod holl ddeddfau natur dan eu hawdurdod, ac y gallant gymeryd awenau y greadigaeth i'w dwylaw eu hunain ; ac eto nid oes neb o honynt wedi llwyddo i arafu rhediad amser am un fynydd, nac i atal eu hunain rhag cael eu cario ymaith ganddo. Ymaith i rywle : ond i ba le ? dyna y gofyniad mawr. Pa le y mae ein hen gyfeillion, y rhai fu yn cyd-deithio â ni trwy ran o'r anialwch ? Collasom rai o honynt yma, a rhai acw, ac yn awr pa le y maent ? Ni fu dynion serchocach na rhai o honynt erioed yn rhodio y ddaear ; ni fu calonau mwy didwyll erioed yn neb o hil Adda : ac a ydynt yn awr wedi darfod bod ? Nac ydynt : y mae rheswm ac ysgrythyr yn dweyd, Nac ydynt. Yn awr y maent yn dechreu deall pa beth yw bywyd. Y maent yn bod eto mewn gwlad nas gallant fyth ddymuno ei gwell. Ond yma, gan eu cyfeillion a adawsant ar ol, nid oes bellach ond y cof am danynt ; ac y mae y cof hwnw yn cael ei guddio o'r golwg yn raddol gan lwch y byd. Mae yr hyn a ddarllenir am ddinasoedd mawrion, megis Ninife a Babilon, yn cymeryd lle o hyd yn hanes pob dyn yn bersonol. Pwy all ddweyd y nifer o ddywediadau difyr, o ymddygiadau caredig, ac o edrychiadau serchoglawn, sydd wedi eu claddu yn ei gof ? Ond nid ydynt wedi eu difodi er eu bod wedi eu claddu ; ac wrth gloddio ychydig i'r amser a aeth heibio, y mae rhai o honynt yn dyfod i'r golwg bob dydd, darn o golofn yma, a rhyw gerfiad gwych draw : ac odid nad oes gan bob dyn amgueddfa fechan yn rhyw gongl i'w galon, lle y mae yn trysori yr adgofion mwyaf gwerthfawr yn ofalus, gan ymweled â hwy yn fynych, a chymdeithasu trwyddynt â rhai sydd yn awr yn ysbryoedd wedi eu perffeithio.

Daeth yr ystyriaethau hyn i fy meddwl gyda grym adnewyddol pan ofynwyd i mi ysgrifenu ychydig sylwadau fel Rhagdraeth i'r Cofiant sydd yn canlyn. Y mae ychwaneg o rai blynyddoedd na'r bedwaredd ran o ganrif er pan ddaethym yn gydnabyddus â Mrs. Edmunds, y pryd hwnw Miss Jones, Caerfyrddin. Trefnodd Rhagluniaeth i mi dreulio blwyddyn yr amser hwnw yn nhy Mr. Lloyd, Pentowyn, gerllaw Meurim, yn y sir hono ; ac am ysbaid wedi hyny bum yn llafurio

fel cenadwr cartrefol mewn tref fechan Seisnigaidd yn yr un sir, o'r enw Lacharn; lle nad yw yn enwog hyd y gwn i am ddim, oddieithr mai yno y bu fyw Mrs. Bevan, yr hon a wnaeth gymaint o les trwy sefydlu ysgolion dyddiol yn holl siroedd Cymru, mewn cyd-weithrediad â'r Parch. Griffith Jones, Llanddowror; ac mai yno hefyd y cododd James Williams, y cenadwr ffyddlawn yn Llydaw; ac mai gerllaw yno y ganwyd Charles o'r Bala, a Charles o Gaerfyrddin. Dyddiau dedwydd oedd y rhai hyny, yn enwedig pan fyddai James Williams a minau yn cyd-gerdded o Lacharn i Pentowyn, i ymweled â Mr. Lloyd, neu pan fyddai yr hen bererinion hawddgar John Morgan o Meudrim, neu Samuel Anthony o Gydwelli, yn talu ymweliad i ni yn Lacharn. Nid oeddwn y pryd hwnw ond bachgenyn dibrofiad a diwybod: er hyny yr oedd ynof ryw syched anniwall am wybodaeth, yr hyn oedd yn tueddu amryw frodyr duwiol, hen a ieuainc, i edrych arnaf gyda mesur mawr o ddrwgdybiaeth. Ond nid am danynt hwy, nac am danaf fy hun, yr oeddwn yn bwriadu son; ond am y rhai oedd yn mysg Methodistaidd y cyfnod hwnw yn bleidgar i addysg, ac yn garedig i bregethwyr ieuainc ymofyngar am wybodaeth, pa mor ddifedr bynag y gallai y cyfryw bregethwyr ymddangos. Ychydig y mae pobl mewn oed yn feddwl fel y mae eu geiriau yn effeithio ar yr ieuainc, fel y mae un ymadrodd tirion yn byw yn y cof pan fyddont hwy eu hunain wedi myned i ffordd yr holl ddaear. Y mae dynion hynaws i'w cael, a rhai yn hynod felly, yn mhob gwlad: o'r hyn lleiaf dyna fel y mae profiad wedi fy nysgu i feddwl am ddynolryw. Ond yr un y derbyniais fwyaf o garedigrwydd oddiwrtho yn Sir Gaerfyrddin oedd y rhagddywededig Mr. Lloyd; a fy nyben penaf yn cyfeirio at hyn ydyw, er mwyn cael cyffe i wneyd coffa parchus am un o rai rhagorol y ddaear. Ni fu erioed gyfaill mwy cywir, na christion mwy dirodres a diragrith. Yr oedd yn un o'r rhai mwyaf doniol, a mwyaf siriol, mewn ymddyddan, ac ar yr un pryd yn un o'r rhai mwyaf rhydd oddiwrth bob ymgais i ddyrchafu ei hun trwy ddarostwng eraill. Yr oedd yn ddiwygiwr trwyadl, nid mewn gair yn unig, ond mewn gweithred a gwirionedd; a'i arwyddair bob amser oedd, "Ymlaen." Bu yn ddiakon am luaws o flynyddoedd yn Meudrim; ac ni fu neb yn fwy ffyddlawn gydag achos Crist yn ei holl ganghenau.

Yn nesaf ato ef, galleid enwi dau neu dri o frodyr eraill yn yr un Sir; ac yn eu plith mae yn hyfrydwch genyf gael achlysur i wneyd crybwylliad am Dad yr "Athrawes o Ddifrif," yr hon y ceir hanes ei bywyd yn y tudalennau a ganlyn. Yr oedd Mr. Jones mewn rhai pethau yn gwahaniaethu cymaint ag oedd bosibl oddiwrth Mr. Lloyd: ac eto yr oedd ganddo yntau ei ragoriaethau. Dyn hynaws, tawel ydoedd: ni chlywid

ei lef yn yr heol: ond yr oedd ei ddylanwad dystaw yn llanw pob lle y dygwyddai fod ynddo, ac yn cyrhaedd at bawb o fewn cylch yr eglwys y perthynai iddi. Dirgelwech hynod ydyw hwn, y gallu mawr sydd gan rai dynion dystaw. Er hyny nid mewn dystawrwydd ynddo ei hun y mae y gallu: ond yn yr argraff fod yno egwyddor uchel a synwyr cryf yn rhywle o'r golwg. Felly am dano yntau; ni fuasai yn cael y lle oedd iddo yn meddyliau pawb a'i hadwaenent oni b'ai eu bod yn argyhoeddedig ei fod yn ddyn cyflawn, ac yn grefyddwr cywir. Yr oedd pwysau yn ei gymeriad, yr hyn nis gellir ei ddweyd am bawb sydd ar ryw gyfrifon yn ddynion mawr. Y maent, efallai, yn fawr mewn gwybodaeth, neu mewn parodrwydd i siarad: ond y maent er hyny yn ysgeifn; ac o ganlyniad nid oes ond ychydig o argraff yn dilyn yr hyn a ddywedant. Nid yw eu mawredd, wedi'r cwbl, ond mawredd mwg, yn codi yn golofn i entrych awyr, ond yn cael ei chwalu yn fuan gan y gwynt. Pell iawn oedd efe oddiwrth fod yn debyg i hyn. Yr oedd yn ddyn gwybodus; ond yr oedd eraill yn yr un dref yn fwy gwybodus. Yr oedd yn ddyn doniol; ac os yw yn addas son am ddawn gweddi, yr oedd efe yn meddu y ddawn hono i raddau mwy na'r cyffredin; ond yr oedd eraill mor ddoniol ag yntau, ac yn fwy hyawdl i draethu eu syniadau ar bob achlysur. Ac eto nid oedd yn dyn anghyhoedd yn cael gwrandawriad mwy parchus oddiwrth bawb; a diammheu fod hyn yn tarddu yn benaf oddiwrth bwysau ei gymeriad.

Yr oedd efe mewn modd arbenig yn byw yn grefyddol gartref, ac yn gofalu am ddwyn ei blant i fynu yn ofn yr Arglwydd; ac nis gellir olrhain yr achosion o ffyddlondeb a defnyddioldeb yr "Athrawes o Ddifrif," heb gymeryd golwg ar yr addysg foreuol, a'r amgylchiadau teuluaidd, a fu yn foddion i ffurfio nodweddiad ei bywyd. Yr oedd hi yn cadw gorchymyn ei thad, ac nid ymadawodd â chyfraith ei mam; ac o'r ffynonell hon yr oedd ei gweithgarwch a'i llwyddiant yn tarddu. Ar agwedd y teulu yn yr hwn y dygir un i fynu, yn fwy nag ar ddim arall, y mae gweddill yr oes yn ymddibynu; oddiyma y mae da a drwg y byd i fesur mawr yn tarddu: a'r diwygiad mwyaf effeithiol yn mhob gwlad fyddai diwygiad teuluaidd. Yn nghanol yr holl ymdrech i sefydlu ysgolion cyhoeddus, yr hyn yw un o arwyddion mwyaf gobeithiol y dyddiau yr ydym yn byw ynddynt, dichon fod perygl rhag i ni golli golwg ar bwysfawrogrwydd yr addysg deuluaidd: ac er mor angenrheidiol yw dyfalwech i ddilyn cyfarfodydd crefyddol, ni ddylai hyn fod yn rheswm dros esgeuluso crefydd gartref. Yn y teulu y mae dysgu geirwiredd; yn y teulu y mae dysgu gonestrwydd; yn y teulu y mae dysgu diwydrwydd; yn y teulu y mae dysgu glanweithdra; yn y teulu y mae gwreiddio y bobl ieuaine mewn egwyddorion crefyddol. Y

mae rhai yn tybied mai un achos o'r gwahaniaeth moesol sydd rhwng y wlad hon ag amryw o wledydd y Cyfandir ydyw, fod yr hinsawdd yn Mrydain yn gorfodi y preswylwyr i dreulio yr amser yn eu cartrefi, pan na fyddont gyda'u gorchwylion, yr hyn sydd yn peri iddynt roddi pris ar, ac amcanu at, wir gysur teuluaidd, neu fel y dywed y Saeson, *comfort*, yr hwn air nis gellir ei gyfieithu i ieithoedd y Cyfandir, tra y maent hwy, gan degwch yr hin, yn cael eu denu allan yn barhaus, yr hyn mewn amser sydd yn effeithio ar eu cymeriad i'w gwneyd yn bobl ansefydlog ac anfoesol. Fel hyn y mae achosion bychain mewn ymddangosiad yn cynyrchu effeithiau mawrion. Ac os yw yr Ysgotiaid, fel y myn llawer i ni gredu, ac fel y mae yn debyg eu bod ar rai ystyriaethau, yn rhagori ar y lleill o drigolion y deyrnas hon, y mae yn anhawdd gweled pa gyfrif i'w roddi am hyny, heblaw eu parch neillduol i'r Sabboth, a'r hen arfer dda sydd yn ffyn yu eu plith o dreulio hwyr y dydd hwnw gartref, pob teulu wrtho ei hun, i ymddyddan am y pregethau, ac i holi eu gilydd yn nghatecism y Gymanfa, gan ddiweddu y cwbl trwy gyd-ddarllen rhan o air Duw, a chyd-ganu, a chyd-weddio. Hwyrach mai annoeth fyddai ceisio myned mor bell â hyn yn Nghymru; oblegid nid mewn un dydd y mae newid arfer gwlad; a phe diddymid y cyfarfodydd crefyddol cyhoeddus ar nos Sabbothau yn ein mysg ni, y mae lle i ofni y treulid yr oriau hyny gan luaws o'n gwrandawyr mewn dull gwaeth nag anfuddiol. Ond ar yr un pryd y mae genym achos i ystyried ai nid yw crefydd y capel i raddau gormodol yn llyncu crefydd y teulu, fel y mae y llywodraeth gyffredinol mewn rhai ymerodraethau yn trawsfeddiannu pob awdurdod iddi ei hun. Nid dyben llywodraeth wladol a ddylai fod i ormesu ar feddiannau a hawliau teuluoedd; ond yn hytrach i'w hamddiffyn: ac felly y mae crefydd gyhoeddus yn achlysuro effeithiau annymunol, os yw yn rhwystro crefydd deuluaidd, yn lle ei meithrin a'i chryfhau. Y canlyniad yn y naill amgylchiad fel y llall fydd fod pob grym ac egni meddwl yn darfod, a'r bobl o'r diwedd yn myned i ddysgwyl wrth eu llywodraethwyr i wneuthur drostynt yr hyn a ddylent hwy ei wneuthur drostynt eu hunain.

A oes sail i gredu fod egwyddorion yr oruchwyliaeth batriarchaidd erioed wedi eu diddymu? Y mae hyn yn dra amnheus: oblegyd nid yw Duw yn arfer dinystrio yr egwyddorion y mae efe ei hun wedi eu planu; ond yn hytrach eu dwyn yn raddol trwy wahanol oruchwyliaethau i berffeithrwydd; "Yn gyntaf yr eginyn, ar ol hyny y dywyseu, yna yr yd yn llawn yn y dywysen." Pa fodd bynag, y mae yn sicr fod yr un awdurdod yn perthyn i rieni yn yr oes hon ag yn yr oes batriarchaidd; ac y dylai pob penteulu fod yn frenin yn ei deulu. Nid oes gan un ymerawdwr awdurdod mor gyflawn

ar ei ddeiliaid ag sydd gan rieni ar eu plant. Y mae pob tad a mam, hyd yn nod y rhai tlotaf a'r rhai mwyaf anwybodus, yn frenin a brenines yn eu teulu trwy hawl ddwyfol. Ond i'r dyben i lenwi y swydd hon yn iawn, y mae yn angenrheidiol i bob penteulu fod hefyd yn brophwyd. Nid yw hyn yn cynwys mai trwy ddysgu yn unig y mae iddo lywodraethu; oblegid y mae y plant i ufuddhau am fod y tad neu y fam yn gorchymyn, er iddynt fod ar y pryd yn analluog i weled y rheswm am hyny. Ond y mae o'r pwys mwyaf i'r rhieni gofio fod y llywodraeth hon wedi ei hymddiried iddynt er mwyn lles y plant, ac er mwyn eu dwyn i fynu i fod yn lles i eraill. Ond nid hyn ychwaith yw y cwbl; oblegid y mae Un anfeidrol uwch na'r tad a'r fam yn bod, yr hwn sydd yn gofyn teyrnged feunyddiol o addoliad oddiwrthynt: ac am hyny dylai allor fod yn mhob teulu; ac y mae y penteulu i fod yn offeiriad i gyflwyno diolchgarwch a deisyfiadau i Dduw ar ran y teulu.

Y mae rhai cannoedd o deuluoedd yn ateb i'r desgrifiad hwn wedi bod, ac yn bod y dyddiau hyn, yn Nghymru: ac un o honynt oedd y teulu yr ydym yn awr yn son am dono. Yr oedd y tad a'r fam o gyffelyb feddwl, yn ymdrechgar i feithrin eu plant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd; a gellir dweyd am danynt, fel y dywedir am Zacharias ac Elisabeth, "Yr oeddynt ill dau yn gyfiawn ger bron Duw, yn rhodio yn holl orcnymynion a deddfau yr Arglwydd, yn ddiargyhoedd." Yr oedd yn hawdd gweled mai crefydd oedd prif bwnc eu bywyd. Yr oeddynt, fel y byddai fy nghyfaill doniol a duwiol, y diweddar Lewis Jones, yn mynych anog aelodau eglwysig, yn byw i grefydda, ac nid yn crefydda wrth fyw. Ond nid oeddynt yn cymeryd trafferth i ddangos eu crefyddolrwydd, yr hyn sydd yn fwy adgas na dim; oblegid y mae yn fwy hyfryd cymdeithasu â phublicanod a phechaduriaid nag â'r Phariseaid. Nid oedd neb yn cael lle i ddywedyd yn ei feddwl wrth ymddyddan â hwynt, "Y mae y rhai hyn yn awr yn rhagrithio; y maent yn dangos eu hunain y peth nid ydynt; y mae eu proffes yn anghyson â'u gweithredoedd." Nid rhyfedd, gan hyny, fod ganddynt ddylanwad mawr yn y teulu: oblegid y mae plant yn alluog, a hyny yn foreuach nag y meddylid, i barchu cysondeb a diragrithrwydd yn mywyd eu rhieni; ac o'r ochr arall, nid oes dim yn dirymu llywodraeth deuluaidd yn fwy na'r cyfryw anghysondeb yn y penteulu ag a baro i'r plant feddwl ei fod yn Pharisead diegwyddor. Y mae parch i rieni yn flodeuyn o natur mor anorchfygol yn meddyliau eu plant, fel y gall fyw mewn llawer math o hinsawdd: ond y mae un hinsawdd yn ei ladd, a hwnw ydyw Phariseaeth. Gall fyw a thyfu yn iachus ac yn gryf er fod y rhieni yn dlodion, neu yn fethiantus, ac er iddynt fod yn dra diffygiol mewn gwybodaeth a synwyr: ond y mae

yn anhawdd iawn parchu y dyn hwnw na'i grefydd, yr hwn y mae ei fywyd yn peri i'w deulu feddwl o angenrheidrwydd ei fod yn ddyn twyllodrus. Ni ddygwyddodd y brofedigaeth hou, na dim yn debyg, i ran Mrs. Edmunds; oblegid cafodd ei dwyn i fynu dan ofal rhieni y rhai yr oedd yn hawdd i bawb eu parchu.

Yn y teulu caredig hwn yr oedd croesaw cynhes bob amser i weinidogion yr efengyl; ac i minnau yn eu plith, am fy mod, os caniateir i mi fenthyca yr ymadrodd arferedig, "yn rhyw enw o bregethwr." Yn sicr, un o rinweddau penaf y Methodistiaid yw eu lletygarwch diragrith a dirodres, yr hwn sydd wedi ei feithrin ganddynt hwyrach yn fwy na chan un corff arall o bobl, fel canlyniad naturiol y drefn deithiol o bregethu: ac nid wyf yn gwybod fod neb yn ein plith yn dymuno i hyn gael ei golli; oblegid er fod rhai yn barnu yn gydwytodol y dylai pob eglwys fod dan ofal rhyw weinidog, y maent yn llawn mor awyddus i gynnal anrhydedd ac effeithiolrwydd y pregethu teithiol. Un o'r manteision cydfynedol â'r drefn hon yw y duedd sydd ynddi i gadw undeb a brawdgarwch rhyngom a'n gilydd, ac i ddylanwadu yn ddaionus ar deuluoedd. Pa bryd bynag y galwai pregethwr yn nhŷ Mr. Jones, byddai y tad a'r fam yn ei dderbyn gyda gwên serchoglawn, a'r plant yn ymgasglu o'i amgylch i'w holi yn ddiarbed: a'r fath oedd hynawsedd a sirioldeb pawb fel y byddai y gŵr dieithr yn teimlo ei hun yn fuan megis yn un o'r teulu. Pwnc y rhieni yn benaf fyddai ensawdd crefydd yn y lle yr oedd y pregethwr yn cartrefu, neu mewn manau eraill lle yr oedd wedi bod yn ddiweddar: ond byddai holiadau y bobl ieuainc yn dwyn perthynas gan mwyaf â phersonau, yn enwedig y personau hyny a gyfrifid ganddynt hwy yn fawr fel pregethwyr: ond nid â phersonau yn unig; gan y byddai ganddynt yn fynych ryw fater dyrys dan sylw, yr hwn oedd wedi bod yn destun ymdrafodaeth yn yr Ysgol Sabbothol, neu ryw ddarn anhawdd yn ngwaith rhyw awdwr, yn Gymraeg neu yn Saesoneg.

Yr oedd Mrs. Edmunds o'i hieuenctid yn hoff o ddarllen: ac nid rhyw gyfansoddiadau gwagsaw a ddarllenid ganddi, ond llyfrau sylweddol, y rhai oedd yn tueddu i oleuo y deall ac i buro y galon. Dichon ei bod yn rhagori ar y cyffredin mewn cyneddfau naturiol: ond yr achos penaf o'i llwyddiant oedd ei diwydrwydd a'i dyfal-barhad. Gorchwyl anfuiddiol fyddai holi i ba raddau yr oedd hi, o ran cyfansoddiad ei meddwl, yn cyfranogi o'r athrylith wreiddiol oedd yn y wraig ryfedd hono, Anne Griffiths; neu o'r teimlad seraffaidd oedd yn y ferch ieuanc hynod hono, yr hon sydd yn adnabyddus trwy Gymru, ac a fydd felly, dan yr enw, "Fy Chwaer." Ni fnaesent hwy yn dyfod i feddiant o'r lle uchel oeddynt wedi ei

gyrhaedd, oddieithr trwy lafur : ac felly daeth hithau yn deilwng o gael ei rhestru yn yr un dosbarth trwy ddarllen y llyfrau goreu, a myfyrio arnynt ; ac uwchlaw'r cwbl, trwy gymdeithasu â Duw yn ei Air. Yr oedd ganddi feddwl penderfynol i fyned ymlaen trwy rwystrau, yr hyn a'i galluogodd i ddefnyddio pob cyfleusdra i ymofyn am wybodaeth, a'r hyn hefyd a'i cadwodd rhag ymollwng i lwfrdra gormodol pan ddaeth cyfnewidiadau a siomedigaethau i'w chyfarfod. Yn ngwyneb troion digon adfydus, dangosodd ei bod wedi cael allan y gelfyddyd nefol i orchfygu amgylchiadau, yn lle cymeryd ei gorchfygu ganddynt. Ond gan fod ei hanes i'w gael yn gyflawn yn ei Chofiant, afreidiol fyddai gwneuthur crybwylliad pellach am dani yn y lle hwn. Ei gweithredodd fel y dangosir hwy yn y tudalenau canlynol a ddangosant pa fath un ydoedd, yn well nag unrhyw eiriau a allaf fi eu defnyddio : a gobeithiaf y bydd darllen am danynt yn foddion i godi awydd mewn llawer o ferched Cymru am fod yn debyg iddi. Efallai, gan hyny, mai y peth goreu a ellid ei wneuthur yma fyddai cymeryd yr achlysur presennol i gynyg ychydig sylwadau cyffredinol ar rai o'r ffyrdd y ddihon i ferched ieuaine fod yn ddefnyddiol fel hithau, ynghyd a'r addysg fwyaf angenrheidiol tuag at eu paratoi.

Pa beth yw yr achos fod cyn lleied nifer o ferched Cymru yn ymdrechu i gymhwyso eu hunain, fel y gwnaeth Mrs. Edmunds, i fod yn Athrawesau yn yr Ysgolion Brytanaidd ? Ac nid yn yr Ysgolion Brytanaidd yn unig y gallent fod yn wasanaethgar ; ond hefyd fel Athrawesau teuluaid, naill ai trwy gael lle mewn teuluoedd cyfrifol i addysgu y plant gartref, neu dderbyn plant i'w teuluoedd eu hunain. Pa le y mae'r bai, na fyddai hyn yn fwy cyffredin ? Nid ar ferched Cymru ; oblegid pe gwelent ryw sail i gredu y byddai eu gwasanaeth yn dderbyniol, mae yn ddiau na fyddent yn ol o ateb i'r alwad : ond tra na fyddo neb yn galw, mae yn anhawdd iddynt hwythau ateb. Ond pa beth yw yr achos o hyn eto ? Paham na fyddai lle iddynt, a galwad arnynt, i wneuthur eu hunain yn fwy defnyddiol fel Athrawesau ? Y mae yn rhaid dweyd y gwir, neu beidio dweyd dim : a'r gwir ydyw, fod hyn yn tarddu i fesur helaeth o deimlad gwasaid y Cymry. Yr ydym wedi myned i gredu nad oes dim yn rhinweddol nac yn glodfawr os na fydd wedi dyfod o ganol Lloegr : pan mewn gwirionedd nad oes dim yn ein gwneyd yn is na'r Saeson, oddieithr ein gwaith ni ein hunain yn credu ein bod yn is. Sonir llawer am yr angenrheidrwydd o ddyysgu Saesneg da, ac am bwysfawrogrwydd yr acen Seisnigaidd : ond o bawb sydd yn ceisio parhau Saesneg, nid oes neb yn siarad yn fwy angrammadegol, nac yn acenu yn fwy gwrthun, na'r bobl gyffredin yn Lloegr ; a dywedir mai y rhai mwyaf anobeithiol

o honynt oll yw y rhai sydd wedi eu geni a'u magu yn Llundain. Pan fyddwn ni, y Cymry yn cyfarfod ag ambell Sais haner-ddysgedig o un o drefn Lloegr, byddwn yn teimlo fod ein geiriau yn dyfod allan yn hynod Gymreigaidd mewn cymhariaeth i'r dull main a masw y bydd efe yn eu seinio; ond pan gawn gyfle i wrandaw ar y dynion uwchaf yn senedd Brydain, byddwn yn cael nad oes ond ychydig iawn o wahan-iaeth yn y pwnc hwn rhyngddynt hwy a ninau. Y mae meibion a merched wedi eu dwyn i fynu mewn ysgolion da o'u mebyd yn siarad yn lled gyffelyb i'w gilydd yn Lloegr a Chymru; ond y mae gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt a'r Saeson annysgedig, neu haner-ddysgedig. Ymaith gan hyny a'r hen dyb ffol am y fantais o anfon ein plant i Loegr, neu o gael Athrawon ac Athrawesau o Loegr i'w dysgu yn Nghymru.

Ond achos neillduol o'r diffyg cefnogaeth i Athrawesau yw golwg ry gyfyng ar addysg y rhyw fenywaidd. Y mae yn angenrheidiol i ferched yn gystal a meibion wybod rhywbeth heblaw darllen ac ysgrifenu: a dylai fod darpariaeth yn mhob ysgol a fwriedir er lles y bobl i roddi addysg i'r merched yn ngorchwylion cyffredin y teulu. Pe cedwid y dyben hwn mewn golwg, byddai galwad am Athrawes yn mhob un o'r Ysgolion Brytanaidd. Y mae y cynllun yn cynwys o angenrheidrwydd fod yr Athrawes ei hun yn fedrus mewn gwniad-waith, mewn coginiaeth, ac yn mhob cangen arall o drefnidiaeth teuluaid; ac hefyd fod y plant yn cael aros dan ei gofal am fwy o amser nag y maent yn gyffredin. Er hyny y mae yn amheus a ydyw hyn yn cyfarfod â holl angen y wlad; ac y mae lle i feddwl, pa mor effeithiol bynag y gwneir yr Ysgolion Brytanaidd, y bydd ysgolion o natur uwch yn angenrheidiol. Yn ol y drefn bresennol, y mae ffermwyr a masnachwyr cyfrifol yn gorfod anfon y merched i *boarding schools* drudfawr, yr hyn sydd dda yn ei le priodol, sef i'r rhai sydd a modd ganddynt i fyw yn foneddigesau rhagllaw; ond yn effeithio yn ddrwg ar eraill yn fynych, gan ei fod yn eu hanaddasu i'r sefyllfa y mae Rhagluniaeth wedi eu gosod ynddi. Yn awr, oni fyddai yn ddymunol pe codid ysgolion yn Nghymru wedi eu bwriadu yn benodol i ferched ffermwyr a masnachwyr, i'w haddysgu yn y pethau fydd yn fuddiol iddynt fel merched ffermwyr, ac fel merched masnachwyr? Cynygir y gofyniad hwn i ystyriaeth; ond ni ddysgwylir iddo ddwyn firwyth am rai blynyddoedd, gan fod y Cymru mor hynod bwyllog yn eu symudiadau gyda phob achos, oddieithr iddo fod yn destyn cymhwys i greu cynhyrriad mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Ond y mae yr amser yn sicr o ddyfod pan fydd merched ffermwyr a masnachwyr yn rhy gall i wastraffu eu hamser i dddysgu yr hyn ni wna iddynt ddim lles, pan ddeuant i deimlo mai y pethau mwyaf cyffredin yw y pethau mwyaf

pwysig, pan ddeallant fod cadw tŷ yn lanwaith a threfnus yn fwy o glod iddynt na medru chwareu y *piano*, neu gamseinio iaith y Ffrancod, a phan na fyddant yn foddllawn heb wybodaeth ymarferol yn mhob rhan o drefnidiaeth teuluaidd, a hono yn seiliedig ar wybodaeth egwyddorol. Y teulu, mae'n ddiâu yw y lle goreu i gyrhaedd y wybodaeth hon yn ymarferol; ond er mwyn deall yr egwyddorion yn drwyadl, mae yn ymddangos fod angen am ysgolion penodol i'r perwyl. Nid yr ysgol heb y teulu; ac nid y teulu heb yr ysgol. A'm dymuniad ar ran fy ngwlad ydyw, ar fod ei theluoedd a'i hysgolion yn cydweithredu yn hyn, ac yn mhob gorchwyl arall perthynol iddynt, fel y byddo ei merched i'w hadnabod am eu rhagoriaeth yn mhob rhinwedd a daioni.

COFIANT, &c.

Y RHAN GYNTAF.

PEN. I.

SYLWADAU ARWEINIOL.

“Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna a'th holl egni.”—SOLOMON.

Pwnc mawr tuag at wneyd bywyd yn ddefnyddiol ydyw ei ddechreu gydag amcan penodol. Y mae cael un dyben felly i gyrchu ato yn nghanol gwa-hanol bethau fyddo yn tynu y sylw, ac yn dwyn y meddwl ar eu hol, yn tueddu i roddi cryfder ac egni mwy yn y bywyd hwnw nag a fyddai yn bosibl pe ei rhenid yn ei amcan.

Nid yn anfynych y ceir dynion yn dechreu yn dda ar yrfa bywyd, ac yn ymosod gyda llawer o egni ar ryw orchwyl, ond erbyn cyfarfod âg ychydig o rwystrau, neu fyned dan ddyllanwad teimlad mwy ymroddgar at ryw orchwyl arall, yn rhoddi y cyntaf i fyny, ac felly, o ddiffyg ymroddiad parhaus gydag un peth, yn syrthio yn fyr o gyraedd enwogrwydd mewn dim.

Y mae yn wir, nad ellir dan bob amgylchiadau deimlo yr un awydd at, ac ymlyniad wrth, yr amcan a ddewisir; eto, y mae y meddwl ymroddgar yn tueddu o hyd at yr un cyfarfod; gwelir y morwr dan

lawer gwynt croes yn gorfod troi pen y llestr i amryw gyfeiriadau; nid o herwydd fod ei amcan i ymgyraedd atynt, ond oblegyd mai felly o dan yr amgylchiadau presenol y gellir yn oreu gyraedd ei amcan dechreuol. Caniateir fod rhwystrau mynych yn cyfodi i ddyrysu amcanion y doethaf; ond yn lle llwfrhau a rhoddi heibio o'u herwydd, y mae y synwryol yn hwylio ei ffordd mor agos ag y gall, gan ddysgwyl y bydd yr amgylchiadau anfanteisiol, naill ai yn cilio o'r ffordd, neu yn cael eu gorchfygu.

Wrth olrhain ychydig o hanes un o'r dosparth defnyddiol a ymroddai yn ewyllysgar gydag achos addysg yn Nghymru, fe'n tueddir i briodoli y llwyddiant a ganlynodd ei llafur, i'r dull gwirfoddol a thrwyadl yr ymroddodd gyda'r gwaith hwn. Yr oedd tuedd a chyfeiriad ei meddwl pan yn bur ieuanc at lenyddiaeth; ac mor fuan ag y daeth i-wybod sefyllfa ei chyd-genedl, ac i deimlo drostynt, gorphwysodd yr achos yn bwysig ar ei meddwl, ac amcanodd unwaith ac eilwaith i godi chwaeth at addysg yn y cymydogaethau lle y bu yn aros, ac yn y cylchoedd y daeth i gyfarfyddiad a hwy: ond yma cyfarfu a rhwystrau lawer; nid oedd nemawr o neb yn gwerthfawrogi ei llafur. Ond er hyny parhaodd wrth y gwaith nes y daeth teimlad cryfach a gwell o blaid achos addysg yn y dywysogaeth.

Tueddodd amgylchiadau yn mhen ychydig amser i gefnogi ei llafur; er bod difaterwch yn meddyliau y werin yn nghylch yr angenrheidrwydd am addysg, a'u bod i raddau helaeth yn ddyeithr i werth y rhagorfraint eu hunain; ac felly yn ymdawelu gyda golwg ar gael moddion i'w chyflwyno i ereill: eto, yr oedd yr Ysgolion Sabbothol wedi tynu y llên oddiar feddyliau llawer am werth Addysg Ysgrythyrol, er yr ymfoddlonai y lluaws yn dawel mewn anwybodaeth am egwyddorion dysgeidiaeth gyffredinol, nes i'r ysgogiad diweddar a achoswyd i

raddau gan hanesion anngwywir am ansawdd dysgeidiaeth yn Nghymru godi sylw at addysg y bobl; a thrwy ymdrechion diflino cyfeillion addysg yn y dywysogaeth, y mae yn anhawdd erbyn hyn cael pentref na chymydogoeth lle nad oes Ysgolion da a gwerthfawr wedi eu sefydlu. Y mae "llawer yn cynniweirio, a gwybodaeth yn amlhau."

PEN. II.

EI HANES BOREUOL.

"I thank the goodness and the grace
Which on my birth have smiled;
And made me in this Christian land
A happy English child."—WATTS.

YN nbref Caerfyrddin, yn y flwyddyn 1812, priododd Willam Jones, mab i amaethwr o bentref Llangendeirn, yr hwn oedd hefyd yn flaenor cymeradwy gyda y Trefnyddion Calfnaid yno, âg unig ferch i oriadurwr cyfrifol o'r dref uchod, yr hwn oedd wedi bod yn aelod crefyddol gydag enwad y Bedyddwyr, ond wedi hyny a ymunodd âg achos y Trefnyddion yn y dref.

Ganwyd iddynt yn y flwyddyn ganlynol, sef ar y 25ain o Ebrill, ferch a alwyd Mary, yn ol enw ei mam. Am fod y rhieni eill dau yn grefyddol, ac yn teimlo yn ddwys y rhwymedigaethau newyddion oedd arnynt, cafodd fanteision helaeth i ddyfod i adnabyddiaeth o werth crefydd, mewn cynghorion yn gystal âg esiampl. Yr oedd yr addysg deulaidd a gafodd ar yr aelwyd gartref, yn neillduol ar y Sabbothau, wedi gadael argraff ddwys ar ei meddwl; a gwelid yr effaith ddaionus o hyny yn y sobrwydd a'r difrifoldeb a ddangosai pan ddarllenid

rhanau o'r Beibl, ac wrth blygu yn feunyddiol o gylch yr allor deuluaidd. Un o'r pethau mwyaf dymunol ganddi oedd gwrandio yr ymddyddanion crefyddol a glywai pan y câi y fraint o aros yn nghymdeithas y gweinidogion a alwent yn achlysurol gyda ei rhieni; tra y byddai y lleill o'r plant yn ymddifyru mewn chwareu, eisteddai hi fel Mair gynt i wrando geiriau Duw; yr ydoedd ei dirnadaeth mor gyflym a threiddgar fel yr ymddifyrai mewn cyfeillachau a gorchwylion y byddai ereill o'r un oedran yn eu hystyried yn faich.

Teimlir yn fynych hyd yn nod gan rieni crefyddol anhawsder mawr i nesu at, ac ymddyddan yn gyfrinachol â'u plant am bethau mawrion crefydd; y mae hyn yn codi naill ai oddiar fawredd a phwys y gwirioneddau eu hunain, neu oddiar ofn nad ydyw y meddwl plentynaidd yn alluog i'w dirnad. Efallai bod medrusrwydd mawr yn angenrheidiol at gyfranau addysg i blant, ac nad oes ond ychydig yn meddu arno. Ond pa un bynag am hyny, y mae y diffyg o hyn yn rhy gyffredin mewn teuluoedd yn Nghymru, ac yn achosi bod llawer plentyn gobeithiol dan argyhoeddiad yn aros yn hir yn esgoreddfa y plant.

Hysbysai gwrthddrych y cofiant hwn ei bod yn teimlo rhwymau dirfawr i gydnabod yr Arglwydd am y gofal a'r pryder a amlygid gan ei rhieni yn ei hachos, a'r cyfleuserau mynych a gymerent i ymddyddan â hi am y pethau a berthynent i'w heddwch. Yr oedd argraffiadau dwysion wedi eu gadael ar ei meddwl am amser cyn eu hamlygu mewn profes gyhoeddus; a chadwai gofnodiad cyson o'i theimladau crefyddol am tua dwy flynedd cyn ei derbyn yn gyflawn aelod, a chael y rhagorffaint o wneyd côf am angeu ei Cheidwad.

Bu cyfarfodydd neillduol a gynelid yn wythnosol yn y capel, yn Nghaerfyrddin, i'r dyben o addysgu had yr eglwys, yn foddion arbenig i gynyddu ei gwybodaeth a'i phrofiad o wirioneddau y Beibl:

nid anmhriodol, efallai, fyddai coffhau yn y lle hwn am rai o'r athrawon duwiol a ffyddlawn a gymerasant arnynt arolygiaeth y gwaith hwn o "borthi y mŷnod gerllaw pebyll y bugeiliaid."

Disgynodd y gorchwyl pwysig yn y lle cyntaf ar yr hen weinidog doeth a ffyddlawn, y diweddar Barchedig Thomas Jones, awdwr esboniadau gwerthfawr ar ranau o'r Ysgrythyrau, ac adnabyddus felly trwy y dywysogaeth; yr hwn a fu yn llafurio am flynyddau i borthi y rhai bychain hyn â gwybodaeth ac â deall, gan eu dysgu i wybod yr Ysgrythyr lân—eu holi mewn pynciau athrawiaethol—a'u cyfarwyddo i roi gwerth mawr ar ordinhadau crefydd, a bod yn ddyfal yn yr ymarferiad â hwynt, gan ymgais am brofiad o bethau ysbrydol trwy yr ymarferiad â moddion gras. Cofus iawn oedd ganddi trwy ei hoes ei ofyniadau cynwysfawr ar y deg gorchymyn a gweddi yr Arglwydd, yn nghyda'i ddeisyfiadau taerion ar ran gwrthddrychau ei ofal; a phan y lluddiwyd iddo gan afiechyd fyned i'r cyfarfod, y fath oedd ei serch at y plant fel yr anfonodd am danynt i ddyfod i ymweled âg ef i'w dŷ yn ei glefyd diweddaf, yr hyn a adawodd argraff ddwfn ar feddyliau y rhai a gafodd y fraint o'i gyfarfod.

Wedi colli y duwinydd enwog hwn, syrthiodd gofalon yr ieuengctyd ar ŵr arall o ysbryd addfwyn a chalon gynnes, y diweddar Barchedig Thomas Evans, yr hwn a arweiniodd y praidd bychan hwn am dymhor maith: ymaflodd yn y gorchwyl yn galonog; llywyddai y cyfarfodydd yn ddoeth a diwyd, a chyfranai addysg grefyddol yn fanwl, ac mewn mwyneidd-dra doethineb, yr hyn a enillodd galonau y plant i'w garu yn gynhes. Wele, yn canlyn, lythyr a dderbyniodd y drancedig oddiwrtho pan wedi ei symud gan amgylchiadau yn rhagluniaeth y Brenin mawr i ardal arall, ychydig o ffordd o Gaerfyrddin.

“ Fy anwyl Gyfeillion ieuaine,

Wrth edrych dros eich gwaith heddyw llanwyd fy meddwl yn

1. A llawenydd, wrth gofio am yr amser hyfryd a dreuliasom yn nghymdeithas ein gilydd i lafurio ar y meusydd breision hyn.

2. A thristwch ac â galar, wrth feddwl nad yw yn debyg y cawn gyd-fwynhau yr un breintiau byth mwy yr ochr hyn. Er hyny, os cawn gymhorth y Nef i aros a myfyrio yn syml ar y gwirioneddau am Grist, ni gawn ein cymhwyso a'n haddasu i gydgyfarfod yn y wlad lle mae bod yn rhydd oddi wrth bob tristwch a gofid, a bod yn dragywyddol debyg iddo. Am hyny, na ddigalonwch, ac na laesed eich dwylaw; ond ewch rhagoch gyda'ch gilydd, a byddwch yn fwy ymdrechgar nag erioed, oblegyd y mae elw o'r llafur hwn.

Wyf, anwyl gyfeillion ieuaine, eich diffuant ewyllsiwr da, a'ch diweddar athraw,

THOMAS EVANS.”

“ Bwthyn Rhagluniaeth,

Llanstephan, Tach. 29, 1836.”

Dylid hefyd goffâu yn barchus am lafur Mr. G. Harris, blaenor parchus yn yr un lle, yr hwn, ar symudiad Mr. Evans, a ymroddodd yn ddiwyd yn yr un maes o lafur.

Oni fyddai ymdrech i addysgu ieuencid yr eglwysi ar eu pen eu hunain, yn foddion i enill dylanwad mwy arnynt, ac i barotoi eu meddyliau yn well i dderbyn addysgiadau dyfnach wedi dyfod i oedran addfedach? Y mae yn ddiâu fod dawn neillduol yn angenrheidiol tuag at hyfforddi y dosbarth hwn o deulu yr Arglwydd, ond nid oes dim gwaith angenrheidiol ei wneyd i'w esgeuluso o ddiffyg gweithwyr cyfaddas, canys Duw ysbrydion pob cnawd sydd yn gorchymyn, “Hyfforddia blentyn yn mhenei ffordd;” a diau y gall efe godi offerynau addas i'r gwaith, ac na chaiff y diffyg byth fod o'i du ef.

Cylch arall y bu ein Hathrawes yn mwynhau llawer o hyfrydwch ynddo, a'r hwn a barhaodd i weini llawenydd iddi hyd ddiwedd ei hoes oedd yr Ysgol Sabbothol. Yr ydoedd fel y soniwyd, wedi

dyfod i fedru darllen pan yn bur ieuanc; medrai ddarllen y Testament Newydd cyn bod yn bedair mlwydd oed, eithr nid oedd hyny ond agoriad drws i lafur newydd; chwiliai yn fanwl i ystyr yr adnodau a ddarllenai; holai ei hathrawon yn ddiffino yn eu cylch, ac ni orphwysai nes cael boddlonrwydd i'w meddwl trwy esboniad a fyddai yn ymddangos iddi yn eglurhad hollol ar y pwnc.

Yr oedd ei synwyr yn gyflym a threiddgar, ei chof yn gryf ac yn dal yn dda yr hyn a gyflwynid iddo, a thrwy ymarferiad dyfal o hono, daeth mor fedrus i gofio, fel mai pur anfynych y methai a rhoddi yr awdurdod benodol am bob syniad ac eglurhad oedd ganddi.

Hynod oedd ei chynefindra âg adnodau y Beibl; yr oedd *concordance* lled gywir a manwl ganddi yn ei chof, ac yn barod at wasanaeth pawb a ofynai y benod a'r adnod ar unrhyw achlysur. Mynych y ceisid ganddi droi at ffaith, neu hanes ysgrythyrol, ac anfynych, os byth, y methai a'u cael ar unwaith.

Erbyn iddi gyrhaedd oedran priodol, rhoddwyd hi yn athrawes ar ddosbarth o blant bychain, y rhai a fuont yn wrthdrychau ei gofal pryderus a ffyddlawn; a'r cyfryw oedd ei hymlyniad wrth y gwaith, fel mai anhawdd iawn oedd ei hatal hyd yn nod gan afiechyd rhag myned atynt. Gweddïai hefyd yn daer drostynt, ac yr oedd yn amlwg na bu ei llafur gyda hwynt yn ofer.

Pan fu farw ei thad, dewiswyd hi yn unfrydol gan y dosbarth fu dan ei ofal i fod yn athrawes arnynt. Yr oedd yn gynwysedig o ferched wedi cyrhaedd cyflawn oedran a synwyr, ac er nad oedd hi ond ieuanc mewn cymhariaeth, syrthiodd serch a meddwl pawb arni fel un cymhwys i'w dysgu.

Yn agos i dref Caerfyrddin, mewn cymydogoeth lled dlawd, ond pur boblog, yr oedd ei thad, gydag ychydig o grefyddwyr ereill, wedi llwyddo i gasglu yn nghyd nifer luosog o blant a fyddent yn arferol o

chwareu ar ddydd yr Arglwydd yn y maesydd, ac ar hyd yr heolydd; ac nid hawdd oedd dwyn y crwydriaid hyn dan reolaeth addysg. Ond trwy ddyfal-barhad, fe sefydlwyd Ysgol Sabbothol yn yr ardal, yr hon a gynelid am flynyddau ar brydnawn Sabbothau; ac i'r pentref hwn y cyrchai hithau yn gyson bob prydawn Sabboth, er ei fod yn llafur lled fawr i un o gyfansoddiad gwanaidd, yn enwedig ar dywydd gwlyb. Yr oedd hefyd wrth hyn yn amddifadu ei hun o'r bregeth gartref, ond yr oedd ei hunan-les yn ail beth yn ei golwg. Yr oedd ei llaw wedi ymaflyd yn y gwaith hwn, ac yr ydoedd yn ei wneyd a'i holl egni; a mawr oedd y cariad a ddangosid gan y dosbarth ati am ei llafur a'i ffyddlondeb.

Yn mhlith ereill o wrthddrychau ei gofal yn y lle hwn, yr oedd gwraig weddw mewn gwth o oedran, yn tynu at ddeng mlwydd a thriugain, heb erioed ddysgu hyd yn nod yr egwyddor; ond nid oedd yr hen ddysgybles wedi syrthio i anobaith, na'r fugeiles ieuanc yn meddwl am lwfrhau. A thrwy ddyfalwch y naill, a diwydrwydd di-ildio y llall, daeth yr hen wraig i fedru darllen, a dysgu penodau cyfain ar ei chof cyn ei marw, ac ni cheir gwybod helaethrwydd ei llafur yn y cylch hwn hyd adgyfodiad y rhai cyfiawn.

Tua y flwyddyn 1827, daeth amgylchiad lled alarus ac annysgwyliadwy a hi i ystyriaeth fwy pwysig o werth crefydd, a'r angenrheidrwydd am fod yn barod i gyfarfod angau. Bu farw dwy ferch ieuanc, y rhai oeddynt gyfeillesau iddi, yn mlodau eu dyddiau; a'r rhai hyn yn ganwyll llygaid eu rhieni, y rhai oeddynt mewn sefyllfa uchel yn y byd. Ond nid oedd eu hoedran tyner, na'u hamgylchiadau, yn gallu troi saeth farwol angeu draw. Buont feriw o'r darfodedigaeth, a pharodd hyn i'w cyfeilles ieuanc deimlo fod angeu yn nes ati hithau nag o'r blaen. Coffai am danynt mewn

llynellau Saesonaeg, y rhai a gyflwynir i sylw fel
ffrwyth cynar ei hawen pan nad oedd ond dwy ar
bymtheg oed.

ON THE LAMENTED DEATH OF A FRIEND, MISS C. S., AND
OF HER SISTER, WHO DIED A FEW MONTHS AFTER.

Placed in a garden, near the house of God,
A lily and a rose, twin flowers, shed
Their sweet perfume; the rose looked fresh and smiled,
The lily seemed to droop its modest head,
And soon it withered. Then one Sabbath day
There came a friend, and took the rose away;
It drooped and hung its head beneath his hand,
And was transplanted to its native land.
The lily lower hung its modest head,
To see her sister gone, and was afraid
She should be left *alone*, to fade and die;
But this same friend, came yet another day,
Completed all her joy, by taking her away:
Parents and friends, grieve not for these bright flowers,
For now they blossom in immortal bowers!

O'r adeg hon cychwynodd ar y gwaith o gadw
dyddlyfr yn cynwys cofnodiad o'i theimladau cre-
fyddol, y rhai a'i dygant gerbron y dârllenydd mewn
modd mwy desgrifiadol na dim geiriau trwy ba rai
y medrai y sawl a'i hadwaenant oreu ei darlunio.
Fel arweiniad at hyn, rhoddwn yma lythyr o'i heiddo
at hen athrawes iddi, yr hwn sydd yn dangos naww
grefyddol ei hysbryd ar y pryd.

“Anwyl Miss L.—.,

Llawer o ddiolch i chwi am y cynghor caredig a
gynwysai eich llythyr. Hyderaf y caf les oddi wrtho, yn
gystal ag oddi wrth y moddion o ras â'r rhai y'm breintiwyd
mor fawr. Gan fy mod oddi cartref, nis gallaswn ei ateb mor
fuan ag y dymunaswn. Y Sabboth diweddfaf, cyrhaeddais
ddwy ar bymtheg oed; y mae yn alarus genyf feddwl yn
fynych mor lleied yw fy nghynydd mewn gras, ac yn ngwyb-
odaeth ein Harglwydd Iesu Grist, yr hyn sydd well na'r holl
ddysgeidiaeth a fedd y byd hwn; y mae hon yn wag a chyf-
newidiol, ond y ddoethineb sydd oddi uchod yn dragywyddol.
Nid rhaid i chwi ofni fy mlino â'ch llythyron rhagorol; byddai

yn dda genyf eu cael yn fwy mynych; y mae yn hyfryd genyf eich bod yn gallu fy nghofio I weithiau yn mhlith cynifer o gyfeillion.

Y mae ein Hysgol Sabbothol yn myned rhagddi fel arferol, a dymuna yr athrawon eu cofio atoch yn benodol.

Yr eiddoch, &c.,

M. A. JONES."

PEN. III.

EI PHROFIAD CREFYDDOL, &c.

(*Allan o'i Dyddlyfr.*)

"Yr ydwyf yn ymddyddan â'm calon: fy ysbryd sydd yn chwilio yn ddyfal. Hyn a ysgrifeni'r genedlaeth a ddel."—
SALMAU.

Y MAE cadw cofnodau dyddiol o ansawdd-grefyddol y meddwl yn hen arferiad gan lawer o'r dynion mwyaf duwiolfrydig, mewn oesoedd hen a diweddar; ond yr hyn sydd yn gwneyd y cofnodau hyn yn fwy hynod na chyffredin yw, eu bod wedi eu hysgrifenu gan eneth ieuanc dwy ar bymtheg oed, a hyny am gryn amser cyn gwneyd proffes gyhoeddus o'i hymlyniad wrth grefydd; ac, yn ol pob tebygolrwydd, ar yr adeg y bu yn myned drwodd o farwolaeth i fywyd. Dichon fod yr arferiad yn foddion i gadw rheolaeth ar yr ysbryd, i ddwyn y galon dan arholiad, a chyfeirio yr edifeiriol at allu dwyfol am ymwared oddiwrth lygredigaeth y meddwl, ac felly, yn debyg o effeithio yn ddaionus ar yr ymarweddiad; a gall fod ei gyhoeddi yn foddion i gynyrchu profiad ysbrydol mewn ereill. Gyda yr amcan hwnw yr ydys wedi anturio ar ddetholiad o'r dyddlyfr am ran o'r flwyddyn 1831—32.

Ebrill 11. Meddyliais yn fynych am ysgrifenu dydd-lyfr; ac mor fynych wed'yn, ofnais mai balchder yn unig oedd yn fy nghymhell. Pa fodd bynag,

yr wyf wedi dechreu, ac yr wyf yn gobeithio trwy ras Duw, y caf fy nghynorthwyo i ymgadw yn gyson yn y cyfryw agwedd o ran fy meddwl, fel nad rhaid i mi ysgoi y ddyledswydd; canys felly yr ystyriaf hi.

Nis gallaf adael i dymhor mor ddifrifol a hwn fyned heibio, heb ei arfer i'r dyben goreu. Anwyl Miss S.!* y mae wedi myned erbyn hyn i ymuno a'i chwaer yn y nefoedd! Y maent wedi ein gadael am byth! ny ni a awn atynt hwy, ond ni ddychwelant hwy atom ni. O! am fod mor barod i'r nef ag yr oeddent hwy! Par i mi, O Arglwydd, fyw yma er dy glod; arwain fi a'th gyngor, ac wedi hyny cymer fi i ogoniant. Amen ac Amen.

Ebrill 14. Wrth glywed beunydd am rwygiadau angeu, yr wyf yn cael fy nghymell gyda'r bardd Saesonaeg i weddio:—

“Midst changing scenes and dying friends,
Be Thou my all in all.”

Fe ddaw fy nhro inau, yr wyf yn nesu nes nes at fyd yr ysbrydoedd, lle y byddaf yn anfarwol. Wrth feddwl am hyny, yr wyf yn dychrynu rhagof fy hun, ac yn fy ngholli fy hun yn hollol yn y rhagolgyiad. Nid yw y byd hwn ond mynedfa i un arall; nid yw fy nghorff ond yn unig yn breswylfod i'r enaid. Pan dderfydd fy amser yma, caf roi heibio y tŷ o glai, ac ehed fy ysbryd gerbron Duw ei wneuthurwr. Mor briodol y dywed Young:—

“How poor! how rich! how abject! how august!
How complicate! how wonderful is man;
How passing wonder He who made him so.”

(Mor dlawd, cyfoethog, isel, ac mor fawr,
Mor ddyrus, mor ryfeddol ydyw dyn!
Mwy na rhyfeddol Ef a'i gwnaeth y fath.)

* Gweler y llinellau Saesonaeg, tudal. 8.

Ebrill 17. Y mae amser wedi'm dwyn i derfyn un diwrnod drachefn, ac ychydig yn ychwaneg o ddyddiau a'm dygant at derfyn fy einioes yn y byd hwn, ond

Tu hwnt i derfyn amser, tu draw i angau du,
Mae gwlad nad ydyw bywyd yn anadl frau i mi.

Erbyn y tragwyddoldeb hwn, y mae, yn ddiau, yn ddyledswydd arnaf ymbarotoi; ond O Arglwydd, mor lleied o'm hamser wyf yn dreulio yn y ddarpariaeth yma; wrth fy ymddygiadau gellid meddwl fod y byd hwn i barhau byth. Bydded i'th lan Ysbryd fy argyhoeddi. O mor oer ydyw fy ngweddïau, y maent yn ychwanegu swm fy meïau! Edrych i lawr o'r nefoedd arnaf, a dysg i mi weddio o'r galon, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur."

Ebrill 23. Wyf wedi bod oddi cartref trwy yr wythnos ddiweddaf, ac heb gael cyfle i ysgrifenu dros yr holl amser; yn awr, wedi dychwelyd adref, hyderaf y caf hamdden i ymddidoli o ran fy meddwl, i gau y byd allan, a galw fy ysbryd adref; yr wyf yn teimlo fod hyn yn tueddu i ddwyn fy mryd yn fwy ar bethau ysbrydol a dwyfol, o leiaf, mi obeithiaf felly. Yr wyf erbyn hyn ar gychwyn fy neunaw mlwydd, ac y mae yn alarus genyf feddwl gynifer o'm blynyddau wyf wedi eu gwastraffu. O! am fyw y gweddill, os caf hefyd i'w ogoniant Ef a roes i mi iechyd a phob cysur a fwynhaf. Yr wyf yn ofni yn fynych rhag i mi dwyllo fy hun, ond meddyliaf y gallaf ddywedyd am grefydd, "Ei ffyrdd hi sydd ffyrdd hyfrydwch, a'i holl lwybrau hi ydynt heddwch."

Sabbath, y 24ain. Yr wyf yn diolch i Dduw am Sabbath yn ychwaneg, un dydd o orphwysfa i'r enaid, un cyfleustra adnewyddol i wrando y gair sydd yn abl i'm gwneuthur yn ddoeth i iachawdwr-iaeth. Yr wyf heddyw wedi clywed am erchylldra

fy mhechodau : rho fod dy Ysbryd yn agoryd fy llygaid i'w canfod yn eu goleuni priodol. Clywais hefyd am un " a fedr fy nghadw yn ddigwyp, a'm gosod ger bron ei ogoniant Ef yn ddifêus mewn gorfoledd." O Arglwydd, caer fi ynddo Ef, heb fy nghyfiawnder fy hun, ond wedi fy ngwisgo yn mantell y cyfiawnder a weithiwyd gan fy Ngwar-edwr ei hun.

Ebrill 25,—

" Fy enaid, cyfod gyda 'r haul,
Yn ffordd dyledswydd rhêd heb ffael ;
Ymysgwyd o bob syrthni sâl,
A'th aberth boreu 'n brydlawn tâl."

Y mae genyf ddyledswydd arbenig i'w thalu y boreu hwn i'r Bod mawr a'm cadwodd, ac a'm hamddiffynodd o'm genedigaeth hyd yn hyn, ac sydd, am ddeunaw mlynedd, wedi cyd-ddwyn a'm pechodau a'm hanwireddau. O Arglwydd ! yr wyf yn diolch i ti nad ydwyf yn uffern, yn lle bod yn ngwlad trugaredd, lle y caf ofyn am faddeuant. O ! dryllia fy nghalon gareg fel y teimlwyf fwy o gariad atat, ac at dy air ; ac ysgrifener fy adduned hon yn y nef. Yr wyf yn dyfod atat trwy haeddiant dy anwyl Fab, i fod yn eiddo i ti byth ; ac na âd i mi yn dragywydd dy anghofio, O Arglwydd !

Ebrill 30. Mor felus ydyw ymddidoli oddiwrth derfysg a dadwrdd y dref ; y pethau hyny sydd yn cyfansoddi dedwyddwch llawer un, ond ni ddymunwn i fod o'u nifer. O ! mor wag yw holl bleserau y byd ; yr ydym yn eu herlyn, ond heb byth eu goddiweddyd. Pan y tybiom am foment eu bod yn ein dwylaw, y mynyd nesaf yr ydym wedi eu colli, neu yn eu cael yn gysgodau disylwedd. Nid yw doethineb y byd hwn, ond ynfydrwydd mewn gwirionedd ; pe bâi genym holl bleserau a rhialtwch y byd yn ein meddiant pan y deuwn i farw, ni fyddent yn ddim i ni ; ië, mwy na hyny, byddent

fel cynifer o ddrain i ni ar wely angeu. Gall fod y weddi, "Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn," yn weddi dyn annuwiol, ond bydded i mi fyw *bywyd* yr uniawn, fel y byddo fy niwedd fel yr eiddo yntau.

Mai 5. Y mae mis ar ol mis yn treiglo ymaith bron yn ddisylw, ac y mae lle i ofni heb iawn ddefnyddiad. Mor ddiolchgar y dylwn fod i'r Duw hwnw sydd wedi cyd-ddwyn ag un mor anystyriol ac anniolchgar. Y mae yr holl greadigaeth yn gwenu—yr adar, y coed, a'r blodau, yn eu hiaith yn ymdrechu dangos eu diolchgarwch i'w Creawdwr, pa faint mwy y dylwn I, sydd wedi derbyn cymaint yn ychwaneg, ac wedi fy mreintio a phob cysur a ddichon y byd gyfranu? "Pa beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi? Phiol iachawdwriaeth a gymeraf, ac ar enw yr Arglwydd y galwaf." Dymunwn gyda'r bardd Saesonaeg, ddywedyd,

"I'll praise my Maker while I've breath,
And when my voice is lost in death,
Praise shall employ my nobler powers;
My days of praise shall ne'er be past
While youth and health and being last,
Or immortality endures."

Mi a lefaf arno o hyn allan, "Fy nhad, ti yw tywysog fy ieuencyd." Y mae ar yr ieuainc angen am un i'w tywys, ac yr wyt wedi dywedyd yn dy air dy fod yn barod i fod yn dywysog i mi; am hyny, O Dduw! tywys fi yn ddiberygl trwy y byd sydd yn llawn o faglau a themtasiynau, nes dyfod i'r wlad lle nad oes na phechod na phoen.

Mai 6. "Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwyllaw ef." Mor fawr, mor annychymygawl fawr, y rhaid ei fod Ef sydd yn cynal cynifer o fyd-oedd, a'u galwodd hwynt yn y dechreuad o ddim,

ac sydd yn eu dal o hyd. Pe byddai iddo dynu yn ol ei law gynaliol, syrthiai y greadigaeth äang i ddiddymdra fel ar y dechreu. O! na fydded i ni golli golwg ar ei ddaioni tuag atom mewn pethau tymhorol, ond uwchlaw y cwbl, bydded i ni ymdrechu ag ef am fendith ysbrydol a'n gwna yn ddedwydd pan droir yr haul yn dywyllwch, a'r lleuad yn waed, a'r ser ni roddant eu llewyrch. Pan ddel y diwrnod mawr ac ofnadwy hwnw, O am fodd i lefain, "Dacw y Duw y gobeithiasom ynddo, efe a'n ceidw."

Mai 11. O Arglwydd! nis gwn pa beth i'w ddywedyd ger bron dy orseddfainc; y mae yn bosibl i mi ofyn rhyw beth na ddylwn, ond hyn a wn, y mae arnaf eisiau calon i'th garu yn fwy nag a wnes erioed. 'Rwy'n ofni nad wyf wedi dy garu uwchlaw pawb a phobpeth arall. "O cherwch fi," medd Crist, "cedwch fy ngorchymynion; ac o châr neb fi, efe a geidw fy ngair i." O! am galon i'th garu yn iawn; yr ydwyt oll yn hawddgar; ond y mae rhyw beth yn fy atal i'th weled felly. O! rhwyga y llen sydd yn aros ar fy nghalon wrth ddarllen dy air; par fod fy myfyrdod ynddo ddydd a nos, a bydded i'th Ysbryd Santaidd fy nysgu a'm cyfarwyddo yn y ddoethineb sydd oddi uchod, a'm gwneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth.

Mai 14,—

"The Christian on his rock
Smiles at the world's alarms;
He leans upon his Saviour's breast,
And rests upon his arms.

Unruffled, he surveys
The world's perplexing maze;
He lifts his thoughts above the skies,
And fixes there his gaze."

O! na fedrwn gadw fy meddyliau yn rhydd oddi wrth gynhyrfiadau y byd; na fedrwn eu cadw yn

gyson ar y pethau sydd uchod, ond y mae fy ymfyniadau yn barhaus yn nghylch y byd hwn, pa beth a fwytaf? pa beth a yfaf? ac â pha beth yr ymddilladaf? Arglwydd, dysg i mi lafurio, nid am y bwyd a dderfydd, eithr am y bwyd a bery i fywyd tragwyddol. Cuddier fi yn mantell cyfiawnder dy Fab, fel nad ymddangoso gwarth fy noethder.

“A rhag ar f’ enaid gwan
Gael cysgod bai yn bod,
Cymeraf wisg fy Ngheidwad, gan’
Fy nghuddio o’m pen i’m troed.”

Mai 18. Yr wyf newydd glywed am farwolaeth A. R. Yr oedd wedi bod ar drancedigaeth er’s dyddiau, ond neithiwr hi aeth yn breswlydd tragwyddolgyd; collir aml ochenaïd ar ei hol, a hyny yw y cwbl a allwn wneyd; ond, pa le y mae yn awr? Y mae wedi dechreu byw byth mewn un o ddau gyflwr—mewn tragwyddol ddedwyddwch neu wae, tra yr wyf fi yn ysgrifenu y geiriau hyn. O Arglwydd! bydded i minau gymeryd rhybudd, ac ymbarotoi erbyn y byd hwnw, fel pan ddeuaf i farw y gallaf ddywedyd, “Mi a wn i bwy y credais.”

“How loved, how valued once avails thee not,
Of whom descended, or by whom begot;
A heap of dust alone remains of thee,
’Tis all thou art, and all the proud shall be.”

Iâ, y ffurf brydfertthaf, er maint y dylanwad a enillodd, sydd heddyw yn oer a dideimlad, ac ar fyr a fydd yn ymgymysgu a’r llwch; onid oes yma wers i’r balch a’r uchelfrydig? Cadwer fi yn ostyngedig, a phan y byddwyf yn cael fy nhueddu i ymddyrchafu, ystyriaf yr hyn a fyddaf cyn hir—telpyn o ludw. Hi glywodd hithau y gloch yn rhybuddio marwolaeth llawer eraill, yr wyf finau yn ei chlywed yn canu ar ei hol hithau, a chyn bo

hir, fe glyw rhyw un fy mod inau wedi myn'd; ac fe allai y bydd rhyw gyfaill yn colli deigrwyn o serch, ond ni fyddaf fi yn gwybod oddiwrth hyny; pa le y bydd fy ysbryd, fydd y gofyniad pwysfawr. O! am fod yn barod i gyfarfod â Duw.

PEN. IV.

EI PHROFIAD CREFYDDOL, &c.

“Heb fod yn wrandawr anghofus.”—IAGO.

YN y dyddiau hyn, pan y mae pregethu yr efengyl wedi dyfod yn beth mor gyffredin, a moddion ereill i enill gwybodaeth wedi ychwanegu mor fawr, y mae perygl dirfawr rhag y bydd yr ymarferiad â'r rhai hyn yn cymeryd lle crediniaeth ffyddiog yn Nghrist, a phrofiad personol o ddylanwad yr efengyl ar y meddwl a'r galon. Nid oedd dim yn fwy pwysig ar feddwl Mrs. Edmunds, pan yn ieuanc, na'r angenrheidrwydd am grefydd bersonol, a byddai gwrandaw yr efengyl yn ei harwain yn barhaus i hunan-ymholiad mewn perthynas i'w chyflwr, a'r effeithiau oedd yn canlyn yr ymarferiad a moddion gras. Pe byddai hyn yn dyfod yn fwy cyffredinol yn mhlith ieuenctyd Cymru, yn enwedig y rhai sydd yn “enwi enw Crist,” byddai adnewyddiad buan ar yr eglwysi, deuai y gwirioneddau a wrandawid yn destynau gweddi at Dduw, yr hon a gai wrandawriad sicr.

Mai 24. Wedi cael y fath wledd a chlywed cynifer o'th weision, mor lleied o adeiladaeth a dderbyniais! Yr oeddwn yn eu gwrandao gyda hyfrydwch mawr, ond O! mor ychydig wyf wedi ddal; nid cynt yr wyf wedi gadael dy dŷ nad wyf

wedi anghofio y cwbl a glywais, ac y mae fy meddwl yn cael ei lenwi â'r byd a'i drafferthion. O! na bai fy enaid "fel un wedi ei ddiddyfnu." Yr wyf yn ofni mai nid crefydd y galon sydd genyf, onide, nis gallwn feddwl cymaint am y byd. Bydded i mi gofio

"Fod y byd yn myned heibio,
A'i bleserau o bob rhyw;
Tan y nef ni thal ei garu
Wrthdrrych arall ond fy Nuw."

Mai 26. Clywais gan Miss Ll., o hanes mynyddau olaf yr anwyl Miss S. Gallwn ddywedyd, "ei diwedd oedd tangnefedd." Cefais hefyd rai syniadau o'i heiddo, sydd erbyn hyn yn fwy gwerthfawr i'w pherthynasau a'i chyfeillion nag erioed, ac yn enwedig i'w rhieni; o herwydd dangosant lawer o linellau ei chymeriad, y rhai ni welid tra y bu byw. Yr wyf finau hefyd yn meddwl am yr hyfrydwch a deimlir gan fy rhieni inau wrth ddarllen y geiriau hyn; pan y byddaf fi yn malurio yn y llwch, hwy a welant fod gan eu merch rai meddyliau heblaw yn nghylch y byd, er bod y rhai hyn yn rhy luosog; ond gobeithiaf fy mod yn gwir dristâu wrth weled cymaint o'm hamser yn cael ei dreulio i ddilyn y cysgod ofer o bleser sydd o hyd yn dianc o'm gafael.

Mai 30. Cefais y fraint ddoe o esgyn i dŷ yr Arglwydd, i wrando ei air yn cael ei gyhoeddi trwy enau ei weision. Y testyn oedd, "Caru y mae efe y bobl: dy holl saint ydynt yn dy law," &c. O! y fath ymostyngiad ynddo Ef, yr hwn sydd goruwch pawb, Jehofah ein Creawdwr, sylwi ar waith ei ddwyllaw. O na fedrwn ei garu yn ol uwchlaw pawb a phob peth, a chysegro fy holl fywyd iddo; hyny, mi feddyliwn, ydyw ewyllys fy nghalon, ond y mae fy meddyliau mor dueddol i ddrwg, fel pan ewyllsiwyf wneuthur da ni fedraf arno. Cynorth-

wya fi, O Dduw! dal fi â'th law hollalluog, yna byddaf ddyogel oddiwrth holl beryglon y byd. Dysg fi i roi fy serch ar bethau sydd uchod, ac i fod fel dyeithrddyn a phererin yn y byd.

Mehefin 1. Goleuni, bywyd, a dedwyddwch ydyw Duw. Pa nesaf y byddom ato, mwyaf a welwn o ddrwg a llygredigaeth ein calonau ein hunain. Yn ei oleuni Ef y canfyddwn ein dallineb a'n tywyllwch ein hunain. Efe yw ffynon bywyd yn dymhorol ac yn ysbrydol. Efe a gyfranodd fywyd naturiol i ni; O! am dderbyn y bywyd ysbrydol hwnw, heb yr hwn y mae yn anmhosibl i mi fod yn ddedwydd. Pa agosaf fyddaf ato Ef, mwyaf o ddedwyddwch a gaf ei brofi. Yr wyf yn gweled beunydd nad oes gwir ddedwyddwch i'w fwynhau mewn un man arall. Y mae yr ystyr-aethau hyn yn fy arwain yn naturiol i weddio, "O Arglwydd, tyn fi yn nes atat; bydded i mi geisio dedwyddwch parhaus ynot ti, ac ynot ti yn unig."

Mehefin 8. Clywais bregeth neithiwr ar y fraint o fod yn blentyn i Dduw, ac ar gariad Duw yn mabwysiadu pechaduriaid i fod yn blant iddo ei hun. Y testyn oedd, "Gwelwch, pa fath gariad a roddes y Tad arnom fel y'n gelwid yn feibion i Dduw." Os wyf yn un o blant Duw, mi ddylwn, o angenrheidrwydd, ei garu; ond yr wyf yn ofni fy mod yn ddifffygiol iawn yn hyn. "O cherwch fi," medd Crist, "cedwch fy ngorchymynion." O! am gymorth i'w gwrando a'u gwneuthur hwynt. Os ydym yn caru Duw, yr ydym hefyd yn caru y brodyr sydd yn dwyn ei ddelw; nis gallaf benderfynu y pwnc, 'does genyf ond gweddio, O Arglwydd! os nad wyf yn un o honynt hyd yma, na âd fi yn eiddo Satan, ond mabwysiaada fi yn un o'th deulu dy hun.

Mehefin 10. Darllenais bregeth ragorol ar y testyn, "Syniad yr ysbryd, bywyd a thangnefedd

yw." Nis gallwn gyrhaeddyd y gradd hwn mewn crefydd, heb fod yn dyfalbarhau mewn gweddi a myfyrdodau; rhaid i ni fwrw allan y byd o'n calonau a'n meddyliau; rhaid hefyd darllen y gair sydd yn dangos i ni y ffordd i'r nefoedd. Y mae hyn yn anhawdd iawn i'r rhai sydd yn nghanol dwndwr a therfysg y byd, ond nid yw yn anhosibl, gyda chymorth Duw, i roddi y dwylaw i fasnach a'r galon i Dduw; yna y cawn lawenydd a thangnefedd—

"Tangnefedd pur i dreulio 'n hoes i ben,
A bythol fwyniant y tu draw i'r llên."

Mehefin 13. Y mae dydd ar ol dydd yn prysuro ymaith, ac eto yn fy nghael yn ngwlad trugaredd. O! y fath fendith yw nad wyf yn y lle poenus hwnw. Pa fodd y dylwn ryfeddu ac addoli y Bod hwnw sydd wedi ymddwyn mor ymarhous, a bod mor helaeth ei drugaredd tuag ataf. Bydded i deimlad o'i ddaioni gynhesu fy nghalon oer a dideimlad, fel y byddo fy ngenau yn ei foli â gwefusau llafar; canys y mae yn anfeidrol deilwng o hyny. Hyn ddylai fod yn bwnc blaenaf o flaen fy meddwl, gogoneddu Awdwr fy mod. Nis gall y byd roddi mi i gysur, pe bawn yn feddianol arno. Nid yw y byd ond chwareufwrdd i Dduw ddangos ei drugaredd i'w greaduriaid syrthiedig. O! mor anniolchgar y rhaid bod y rhai hyny sydd yn gwneuthur eilundduw o'r hyn a roes Duw iddynt er mwyn ei glod a'i ogoniant ei hun; yr wyf yn rhy dueddol i addoli pob peth ond Efe. O Arglwydd, yr hwn yn unig ydwyf deilwng o'm hamser, fy anadl, a'm meddyliau, cynorthwya fi i'w cyflwyno i ti; i roddi fy nghalon yn llwyr at dy waith; dangos i mi dy ogoniant, O Arglwydd, fel y byddo i mi ymwadu a phob peth a'th ddilyn di, gan gymeryd i fyny y groes bob awr, i'e, bob mynyd. Os gweli yn dy

anfeidrol ddoethineb yn angenrheidiol i mi gael fy nghystuddio, nac atal hynny oddiwrthyf; canys y mae croesau yn dy law di yn fendithion o'r mwyaf. Y cwbl a geisiaf ydyw, cael bod yn dy law; na chymer y breichiau tragwyddol oddi tan fy enaid, ond

“ Brenin breninoedd, cadw fi
O dan d' adenydd dwyfol di.”

Mehefin 15. Bûm yn y cyfarfod eglwysig neithiwr, a chefais y mwynhad o weled un afradlon yn dychwelyd. Pa olwg a ddichon fod mor hyfryd i bobl Dduw a gweled hen wrthgiliwr yn cydnabod ei grwydriadau, ac yn gweled mai gwell yw cadw drws yn nhŷ Dduw na thrigo yn mhebyll annuwioldeb; i.e., y mae mwy o lawenydd ger bron angelion Duwam un pechadur a edifarhao, nag am namyn un pum' ugain o'r rhai cyfiawn, y rhai nid rhaid iddynt wrth edifeirwch. O planer ef yn nhŷ yr Arglwydd mor sier, fel na ddichon i holl ystormydd na thymhestloedd y byd ei ddiwreiddio. Mor hyfryd ydyw meddwl fod angelion Duw yn ein plith; canys “i'r hyn bethau y chwenychant edrych.” Na âd i mi, O Arglwydd, fyned allan o'th dŷ byth, na chlwyfo mynwes dy bobl; ond bod yn agos atat, a byw yn dy gymdeithas, ac ynâ mi fyddaf yn ddyogel.

Mehefin 20. Nis gwn pa beth yw teimlad y rhai sydd yn amddifad o foddion gras, ond o'm rhan I, os collaf hwynt am un neu ddwy o nosweithiau o'r wythnos, yr wyf yn sier o deimlo yn fwy anystyriol a daearol fy ysbryd, ac yn fwy diofal yn nghylch fy nyledswyddau; er, yr wyf yn cyfaddef, fy mod wedi llesâu rhy ychydig trwy foddion gras, ond yr wyf yn teimlo plaser mawr ynddynt, a hyderaf, ryw radd o adeiladaeth; pe bai y ffrwyth yn gyfatebol, byddwn yn fwy sanct-

aidd a duwioľfrydig. Yr ydym i gael Cymanfa yn mhen pythefnos. Yr wyf yn ofni ei chael heb gyfarfod â Duw, ac yr wyf yn arswydo iddi fyned heibio heb i mi gael bod yn gyfranog o'i ras ef, yr hwn y caf glywed cymaint am dano. Caniatäed' yr Arglwydd i mi gael "gwrando fel y byddo byw fy enaid."

Mehefin 22. O! am gael bod yn ddifrifol mewn gweddi am lwyddiant eglwys Dduw, ac am dywalltiad o'r Ysbryd Glân yn y Gymanfa ddyfodol. Y mae cyflwr y dref yn galw yn uchel am fwy o ymroddiad a thaerineb mewn gweddi. Gall Paul blanu, ac Apolos ddyfrhau, ond Duw yn unig sydd yn medru rhoddi y cynydd. Rhodded yr Arglwydd lewyrch ei wyneb i'w weision, fel y byddont yn traddodi y gair mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glân. Y mae yn bosibl, er hyny, na chaf ei gweled, ond gallaf weddio dros y rhai a glywant; a gwnaed Duw fi yn barod, os bydd iddo weled yn dda fy nghymeryd cyn hyny.

Mehefin 26. Teimlais, ddoe, fy nghyfrifoldeb fel athrawes yn fwy nag erioed. Y mae yn ystyr-iaeth ddifrifol iawn y gofynir gwaed eneidiau ar ein dwylaw yn nydd y farn. Nid oes genyf ddoethineb na deall cyfaddas i'r fath orchwyl, ond y mae yn dda genyf feddwl fod Duw yn medru fy helpio a pheri lwyddiant ar fy ymdrechiau i osod yn meddyliau y plant y gwirioneddau pwysig am eu cyflwr wrth natur, a'r drefn o gadwedigaeth trwy Grist Iesu. Yr wyf yn ymwybodol mai ychydig a wn fy hun o'r gwirioneddau achubol hyn; ond ceisiaf weddio yn daer ar Dduw, ar iddo ddychwelyd fy enaid, a rhoddi i mi adnabyddiaeth o hño ef ei hun, a'm dysgu i "gadw fy nghalon yn dra diesgeulus, oblegid allan o honi y mae bywyd yn dyfod."

P E N . V .

EI HYMGYFLWYNIAD I GREFYDD.

“ I saw my Saviour on the tree
 In agony and blood;
 He fixed his languid eyes on me,
 As near the cross I stood.”—ANON.

Y MAE yn anhawdd rhoddi cyfrif, yn hollol, am yr oediad sydd weithiau yn bod i gymeryd crefydd i fyny, a'i harddel yn gyhoeddus, gan y rhai sydd wedi cael eu dwyn i fyny o'u mebyd yn nhŷ yr Arglwydd. Nid ydyw y pwnc yn dyfod dan eu sylw, fe allai, gyda chymaint o arbenigrwydd ag ydyw yn amgylchiad y rhai sydd yn mhell oddi wrth grefydd. Y mae yr argyhoeddiadau yn y blaenaf yn fwy dystaw a graddol, ac felly, yn cymeryd mwy o amser i ddyfod i addfedrwydd. Wrth ystyried ansawdd grefyddol meddwl fy chwaer, y mae yn edrych yn beth hynod ei bod wedi aros cyhyd fel Ephraim; ond y mae yn debyg fod canlyniadau profes arwynebol wedi ei dychrynu rhag cymeryd y cam pwysig yn gynt.

Gorph. 1. Yr oedd yn Sabboth cymundeb ddoe, teimlais yn fawr wrth weled ereill yn cofio dyoddefaint y Gwardwr, a rhai wedi newydd ymuno â'r eglwys, ac heb feddianu y rhagorfreintiau a gefais i, ac eto yr wyf fi ar ol. Yr wyf yn ofni gofyn am gael y friant, er cymaint wyf yn ei dymuno; oblegid fy mod yn byw yn rhy agos at y byd i gynnal cymdeithas â Duw. O! am gael fy niddyfnu fwy-fwy o'r byd—dyfod allan o'u canol ac ymddidoli. O Arglwydd, santeiddia fi mewn gair a gweithred i fod yn llestr santaidd i ti, i dy wasan-aethu di, a thi yn unig, tra yr wyf yma ar y ddaear.

Bydded i mi fod yn ddyfal mewn gweddi, ac mewn darllen a myfyrio, fel y byddo fy nghalon yn cael ei dyrchafu i'r nef, yn mhell goruwch pob daearol serch. Hyn yw fy holl ddeisyfiad; O Arglwydd, clyw fi, er mwyn dy enw. Amen.

Gorph. 8. Wele Gymanfa arall wedi myned heibio am byth; llawer o'r rhai a welsant yr un o'r blaen, ni chawsant weled hon, a diau y bydd llawer a welent hon wedi myned ar hyd ffordd na ddychwelant cyn y daw Cymanfa eto, a hwyrach myfi yn eu plith. Ond y pwnc ydyw, a ydwyf wedi gwneyd yn fawr o honi? A ydwyf wedi derbyn bendith ynddi? A wyf yn barod i gyfarfod â Duw? A yw "gras yn teyrnasu [*yn fy nghalon I*] trwy gyfiawnder i fywyd tragwyddol?" A oes modd genyf ei gyfarfod Ef "pan y daw gyda'r cymylau, ac y caiff pob llygad ei weled." "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu." A yw yn teyrnasu *ynof fi*? A ydyw fy nghalon i yn ei groesawi fel fy Mrenin? A ydyw wedi gwneuthur heddwch i mi trwy waed ei groes ef? A ydwyf yn ymroddi i "gofio fy Nghreawdwr yn nyddiau fy ieuenctyd?" Pan "ymddangoso Crist ein bywyd ni," a gaf fi ymddangos gydag ef mewn gogoniant? A fyddaf fi yn un o'r cymdeithion gogoneddus a ddeuant gydag ef? Ac yn ddiweddaf, a wyf yn gwrando ar ei leferydd ef? Y mae yn llefaru wrthyf; nid yw yr holl bregethau a glywais ond llais yr Arglwydd ataf. "Heddyw os gwrandewch ar ei leferydd ef." O am gymorth i wrando ar ei nefol lais, i fod yn barod erbyn ei ddyfodiad. Arglwydd, dyro i mi ffydd i gredu yn Mab Duw, cyn fy myned ac na byddwyf mwy. Argraffed Ysbryd Duw y gwirioneddau hyn ar fy meddwl, fel na byddwyf yn eu hannghofio. Cefais bleser dirfawr wrth eu gwrando, a gobeithiaf beth llesâd er fy neffro o'm cysgadrwydd; ond O! mor fuan y byddaf yn eu hannghofio. Dyro i mi ffydd, O Arglwydd, i'th adnabod, ac i gredu ynot ti, canys hyn yw y

bywyd tragywyddol, a dim llai na hyn ni thycia i mi.

Rhoddes Duw i mi bob bendith dymhorol; cefais fy mreintio â rhieni a chyfeillion crefyddol; a dymunaf fod yn ddiolchgar iddo ef am danynt; y mae hyn yn fendith y mae llawer yn amddifad o honi, ac nid dim ynof fi oedd yn haeddu hyn. Ond O Arglwydd, nid yw hyn ychwaith yn ddigon; dyro i mi y bywyd ysbrydol a thragywyddol; rho i mi fel Enoch gynt, gael rhodio gyda Duw, hyn sydd yn eisiau arnaf. Caniatâ hyny er mwyn dy anwyl Fab. Amen.

Gorph. 11. "Arglwydd, dysg i ni weddio," ydoedd gweddi y dysgyblion gynt. Gymaint o eisiau yr un peth sydd arnaf fi. Y mae yn hawdd llefaru geiriau ger bron Duw, ond peth arall hollol ydyw gweddio o'r galon. Mor anhawdd ydyw cael y meddwl yn rhydd oddiwrth amgylchiadau daearol, ac heb hyn y mae yn anmhosibl gweddio yn iawn. Y mae y llinellau canlynol yn ddesgrifiad rhy gywir o'm gweddïau yn fynych:—

"My words fly up, my thoughts remain below;
Words without thoughts, can ne'er to heaven go."

Y mae eisiau calon newydd arnaf; calon i ymdrechu â Duw mewn gweddi, fel Hannah, i dywallt y galon ger bron yr Arglwydd. Dyna y gweddïau sydd yn cael gwrandawriad; nid ydyw Duw yn atal dim daioni oddiwrth y rhai hyny sydd yn galw arno o'r galon; yr wyf yn ofni nad ydwyf yn ddigon mynych gyda hyn, canys y mae efe o hyd yn agos at y rhai oll a alwant arno.

Gorph. 18. Yr wyf yn meddwl yn fynych am y gair hwnw, "Gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw." Mor bell yn ol ydwyf gyda hyn, ac eto y mae pob peth fyddo yn fyr o hyny yn eilun-addoliaeth yn nghyfrif Duw. Balchder a hunanoldeb

sydd yn llanw fy nghalon, nis gallaf wneuthur dim nad ydynt hwy yn uchaf yn fy meddwl. Pan fyddwyf yn ceisio darllen dy air, yr wyf yn teimlo cysgadrwydd mawr ar fy ysbryd; O! na fywhait fi drachefn; yr wyf yn farw mewn camweddau a phechodau, ac nis gallaf wneuthur dim o honof fy hun. O! deued dy ysbryd sanctaidd i gymeryd meddiant o'm calon, a'i chadw fel teml i ti dy hun. O! fel y mae wedi ei halogi gan bob meddwl ansanct-aidd; ond y mae yn gysur genyf feddwl y gelli di ei glanhau. Yr wyt yn gofyn, "Fy mab, moes i mi dy galon." Cymer hi, O Arglwydd, yr wyf yn atolwg arnat.

Gorph. 23. Y mae Duw wedi dyrchafu ei Fab yn "dywysog ac yn iachawdwr,"—yn dywysog i lywodraethu yn fy nghalon, ac yn iachawdwr i'm gwaredu o dan lywodraeth fy mhechodau,—“i roddi edifeirwch i Israel, a maddeuant pechodau.” Y mae yn rhoddi y chwerw o flaen y melys, yna ceir y melys yn felusach. Ond y mae mwy o felusder yn nghwpan edifeirwch nag yn yr holl bleserau a ddichon y byd ei gyfranu.

Gorph. 27,—

“Iesu, a'i gwir fod marwol ddyd
A ch'wilydd arddel d'enw cun?”

A ydyw yn bosibl fod creadur fel dyn yn cywilyddio arddel ei Grëwr, yr hwn a roddes fôd iddo, ac sydd yn rhoddi iddo fywyd ac anadl a phob peth oll; ac a allai mewn moment ei daflu i uffern? Eto, y mae dyn wedi myned mor anniolchgar ag i ddirmygu ei Greawdwr, hyd yn nod pan y cynygia iddo fywyd tragywyddol; y mae yn rhy falch i dderbyn hyny yn rhodd oddiwrtho, ac y mae yn tybied y gall efe ei hun wneuthur rhywbeth tuag at ei bwrcasu. Yr wyf yn ofni fy mod yn ymddybynu yn ormodol ar fy nghyfiawnder fy hun, er nad

yw yn ddim ond bratiau budron, na fydd yn un dyogelwch rhag ei ddigofaint ef. O Arglwydd, dwg fi at dy draed yn bechadur, i gywilyddio o'm holl gyflawniadau, y rhai nid ydynt ond pechodau. O! gwisger fi yn nghyfiawnder dy Fab; y bywyd wyf yn ei fyw yn y cnawd, bydded i mi ei fyw trwy ffydd Mab Duw; na âd i mi grwydro o lwybrau dy orchymynion, ond bydded "fy ewyllys yn nghyfraith yr Arglwydd, ac yn myfyrio ynddi ddydd a nos."

Gorph. 29. Yr wyf yn gweled gwahaniaeth dirfawr rhwng crefydd mewn hanes, a chrefydd mewn profiad. Hyderaf na âd yr Arglwydd i mi aros yn dawel gyda'r gyntaf, ond y caf brofiad tufewinol o'r llall, sef y grefydd a ddengys ar bob amgylchiadau ei bod oddi uchod. Yr wyf am gael crefydd y galon i ddarostwng y nwydau afreolus sydd yn llechu o'm mewn.

Gorph. 30. 'Rwy'n ofni fod fy nghalon fel y tir dreiniog yn y ddameg, oblegid nas gallaf wel'd ond ychydig ffrwyth. Y mae arnaf ofn fod y drain yn codi i fyny ac yn tagu y gair. Yr wyf weithiau yn tybied fod Duw yn rhoddi yr had ynof; ond O! mor fuan wedy'n y mae'r byd yn llenwi fy nghalon. O Arglwydd, cymer fy nghalon, canys tydi yn unig a fedri ei chadw; dyro i mi galon hawddgar a da, i dderbyn yr had, ac i ddwyn ffrwyth i fywyd tragwyddol.

Awst. 8. Mwynhad o gymdeithas â Duw ydyw y cwbl sydd eisiau arnaf yn y fuchedd hon a'r un ddyfodol, ac am bob angenrheidiau ereill yr wyf yn credu y gallaf eu gadael i'w drefniad Ef, i wneyd â mi fel y gwelo yn oreu o ran pethau y byd hwn. Ond dyro i mi dy bresenoldeb yma; rho i mi fwynhad o'th gymdeithas; bydded fy mwyd a'm diod i wneuthur dy ewyllys; dyro i mi nerth a phenderfyniad i dyngu llw o ffyddlondeb i ti, ac i'th wasan-aethu yn gyflawn tra byddwyf yn y byd.

Awst. 10. Yr ydwyf wedi penderfynu gofyn am

undeb cyflawn â phobl Dduw, ac yn gobeithio gallu byw yn nes ato nag erioed. Yr wyf yn meddwl y gallaf ddywedyd fy mod yn caru cynteddau yr Arglwydd yn fwy na dim arall, a "dewiswn gadw drws yn nhŷ fy Nuw o flaen trigo yn mhebyll annuwioldeb." O am breswyllo yn ei dŷ ef byth!

Awst 15. Mor belled ydwyf oddiwrth Dduw; crwydrais oddi ar ei ol, ac aethum ar ol dychymygion fy nghalon dwyllodrus fy hun. Iesu! galw yn ol ddafad grwydredig; bydded i mi edrych ar Grist a'i groes. Y mae profedigaethau y byd yn fwy nag y gallaf eu gwrthsefyll. Ymddiriedais i'm nerth fy hun, a'r Arglwydd a'm gadawodd i mi fy hun. O y fath felldith ydyw calon wrthgiledig! I ba le y trôaf am gysur neu gynaliaeth, os ydwyt ti, O Arglwydd, wedi fy ngadael. O y fath eiriau gwerthfawr ydyw y rhai hyn, "Meddyginiaethaf eu hymchweliad hwynt; caraf hwynt yn rhad, canys trodd fy nig oddiwrtho." A fedri di byth garu un mor druenus? O na fedrwn inau dy garu uwchlaw pob peth arall. Nerthâ fi i fyfyrion arnat, ac ar dy gariad tra y'm gadewir yma; a phan y byddwyf yn marw, derbyn fi i'th dragywyddol deyrnas.

Awst 18,—

"Jesus let thy pitying eye
Call back a wandering sheep;
False to thee, like Peter, I
Would fain like Peter weep.

"Let me be by grace restored,
On me be all long suffering shown;
Turn and look upon me Lord,
And break my heart of stone."

Yr wyf wedi meddwl fod y penill uchod yn addas i'm sefyllfa; yr wyf yn barod i ymbellhau oddiwrth Dduw. Bydd drugarog wrthyf, bechadur truenus.

Medi 30. Yr wyf wedi bod, er ys tro bellach, yn ansefydlog o ran fy nghorff a'm meddwl. O!

na fedrwn ddyfod adref i feddwl am fater fy enaid anfarwol. Rhaid i mi yn fuan ganu yn iach i bob peth dan haul. Nid wyf yn gweled ond rhy ychydig o'm cyflwr wrth natur; O Arglwydd! agor fy llygaid, fel y gwelwyf fy sefyllfa golledig ac andwyol, yna byddaf yn fwy parod i redeg atat am noddfa wrth ganfod y perygl yr wyf ynddo. Y mae dynion yn marw yn bur ddisymwth y dyddiau hyn. Pe byddai i mi gael fy nhori ymaith, beth fyddai fy sefyllfa? A ydwyf yn barod? Os wyf, bydd y cyfnewidiad yn un i'w ddymuno; canys yna

“ Ni fyddai 'r bedd ond teg orphwysfa i
Y sawl gadd brofi cariad Crist a'i hedd;
Pe geidw eu llwch, cânt wel'd ei wyneb cu,
A chodi i'w drag'wyddol lys, o'r bedd.”

Yr wyf yn meddwl y gallaf ddywedyd fy mod yn chwenych bod yn un o'th blant. Yr wyt wedi dywedyd, “Pwy bynag a ddél ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim.” Dyro gymorth i mi ddyfod atat, fel yr ydwyf. O! tydi yr hwn wyt yn hoff genyt drugaredd, cymer drugaredd arnaf, un o'r distadlaf o'th greaduriaid.

Hydref 6. Y mae yn rhy wir fod holl “fwriad meddylfryd calon dyn yn unig yn ddrygionus bob amser.” Y mae yn angenrheidiol newid y galon cyn y bydd cyfnewidiad yn y myfyrdodau. Dyma ddrych, gan hyny, yn yr hwn y gallaf farnu am danaf fy hun. Pa le y mae fy myfyrdodau? A ydyw fy serchiadau ar bethau y ddaear? Os felly, yr wyf hyd yma yn annuwiol, yn meddiant Satan, yn blentyn digofaint; canys pa le bynag y byddo ein trysor, yno y bydd ein calon hefyd. Y mae genyf achos i ofni yn fawr ar y pwnc. Lle bydd gwir gyfnewidiad, fe fydd yno hefyd gyfnewidiad tymher. Os nad ydyw crefydd wedi effeithio ar y dymher,

gallaf fod yn sicr nad ydyw wedi gwneyd dim i'r galon. Ti, Arglwydd, a wyddost, fod fy nhymer yn wrthnysig, fy ysbryd yn falch ac uchelfrydig. Yr wyf yn gwybod nad oes neb a fedr eu cyfnewid, ond tydi; O! sancteiddia fi; "crea ynof galon lan, ac adnewyddda ysbryd uniawn o'm mewn." Brysiau, Arglwydd, i'm gwared o gaethiwed fy nwydan drygionus fy hun.

"Pan ddenir fi o'r ffordd
Gan elyn is y rhod,
Yn fuan dwg fi 'n ol
Yn agos at dy droed."

Hydref 19. Y mae angeu yn brysur yn tori i lawr bob oedran. Y mae Mrs. H. wedi ein gadael. O! na chymerem rybudd, a cheisio bod yn barod i gyfarfod â Duw. Y mae yn ddiarnheul ei bod hi wedi dianc ar bob gofidiau daearol, ac wedi cyrhaedd adref. O na bawn inau felly! Arglwydd! gwna fi yn barod erbyn dy ddyfodiad; ac yna

"Os cyfyd tymhestloedd o seithblyg daranau,
I ysgwyd y ddaear oddiar ei phegynau;
Câf lechu yn dawel tu hwnt i bob dychryn,
Can's Iesu fy lloches fydd barod i'm derbyn."

Sabbath, y 23ain,—9 o'r gloch yr hwyr. Wyf newydd ddychwelyd o wrando geiriau y bywyd, ond y maent eisioes wedi dianc arnaf—"yr adar a ddaethant ac a'u cipiasant."

"O na allwn rodio er ei glod,
Ac iddo bellach fyw,
A phob anadliad fyn'd i maes
I ganmol gras fy Nuw."

Tach. 2. Teimlaf fel pe byddai cael cymdeithas â Duw yn annichonadwy. Yr wyf wedi crwydro a myned yn mhell oddi wrthyt. O! Iesu, Fugail

Israel, tyred a galw fi o wlad fy nghaethiwed; tydi yn unig a fedr fy ngalw. O Waredwr tirion a thrugarog! cymer drugaredd arnaf, a meddyginiaetha fy ymchweliad, a derbyn fi nid i grwydro byth mwy.

Rhag. 1. Hwn ydyw y mis diweddaf o'r flwyddyn, ac efallai y diweddaf o'm heinioes; ond gallaf godi Ebenezer, a dywedyd, "Hyd yma y cynorthwyodd yr Arglwydd fyfi." Nid wyf yn teimlo yn ddigon diolchgar am yr holl fendithion wyf yn fwynhau. O gwna fi yn fwy felly! Bum yn darllen y boreu heddyw am Saul, y fath gymeriad gobeithiol ydoedd ar y cyntaf; ond O! fath gwymp a gafodd pan y gadawodd Ysbryd yr Arglwydd ef: "ac yr oedd drwg ysbryd oddiwrth yr Arglwydd yn ei ffino." Yr wyf yn ofni fy mod yn fynyich yn tristâu yr Ysbryd, ac wedi rhoddi achos cyfiawn iddo fy ngadael. Maddeu i mi, O Arglwydd, a gwna fi yn fwy ufudd i ti.

Rhag. 20. Y byd a llygredigaeth fy nghalon ydyw y cynorthwywyr cadarnaf a fedd Satan, heb-dynt nis gall wneuthur ond ychydig neu ddim; ond gyda'r rhai hyn, oni bydd i fraich yr Hollalluog gynal y pechadur, bydd yn sicr o gael ei orchfygu. Na âd i mi ymddiried i'm nerth fy hun, canys nid ydyw ond gwendid; eithr bydded i mi gymeryd ataf "holl arfogaeth Duw, fel y gallwyf ddiffoddi picellau tanllyd y fall."

Rhag. 31. Yn mhen ychydig oriau fe fydd yr hen flwyddyn, ei gofidiau, a'i horiau a gam-dreuliyd, wedi myned heibio a'u hannghofio genym ni; ond rhaid rhoi cyfrif manwl o'r rhai hyn eto yn nydd y farn. Duw a'u dwg o'n blaen eilwaith. A ydyw y flwyddyn hon yn fy ngadael yr un fath ag oeddwn? Neu, a ydwyf wedi cael cyfnewidiad natur? Arglwydd, "crea ynof galon lân," fel y byddo i mi dreulio yr un ddyfodol, os caf ei gweled hefyd, yn nes atat ti, ac yn mhellach oddiwrth y byd, na'r

ddiweddaf. Y mae fy nghwch bychan yn ysgafn iawn i ymdaro â thônau geirwon a thwyllodrus y byd, ond os byddi di gyda mi, gallaf gyda'r prydydd ddywedyd,—

“ Mi wenaf ar y storm
A Christ ar fwrdd y llong.”

PEN. VI.

EI PHROFIAD CREFYDDOL, &c.

(*Parhad ei Dyddlyfr.*)

Ion. 2, 1832. Yr wyf wedi dechreu blwyddyn newydd, ond 'rwy'n ofni mai gyda'r hen galon; ofnwyf nad yw fy nghalon yn uniawn gerbron Duw: ond yr wyf eto ar dir trugaredd. O fendith an-mhrisiadwy! Pa sawl un o'm cyd-greaduriaid, ie, o'm cyfeillion, a symudwyd gan angeu y flwyddyn ddiweddf, ac eto, wele fi yn arbedol. Mawrhau a wnelwyf hirymaros yr Anfeidrol, am beidio fy nghori i lawr fel ffigysbren ddiffwrwyth, ond fy ngadael am flwyddyn arall. Fe allai mai hon fydd y ddiweddf o'm heinioes. “Dysger fi felly i gyfrif fy nyddiau, fel y dygwyl fy nghalon i ddoethineb” trwy Grist. Amen.

Chwef. 21. Y mae barnau Duw yn cerdded y ddaear, ac eto mor ychydig sydd yn eu holrain i'w gwir achosion. Onid ydyw yn rhy-debyg arnom ni ag ydoedd ar y Sodomiaid gynt, a'r cenedloedd ereill, y rhai a ddinystriodd Duw â'i farnedig-aethau? Ein gwaedd ninau a ddychafodd i'w glustiau, ac nis gall ymatal yn hir. Y mae ei gyfiawnder yn galw am gosbedigaeth arnom, ond hwyrfyddig yw efe i lid, a llawn o drugaredd,—

“The wheels of an avenging God,
Groan heavily along the distant road.”

Nid ydyw yn hoff ganddo daro. O! am blygu ger ei fron, ac ymostwng yn y llwch, gan geisio ganddo droi ymaith ei lid oddiwrthym. Yr ydym yn cydnabod, O Arglwydd, nad ydym yn haeddu dim oddiar dy law,—ein pechodau a alwant am ddialedd; ond er mwyn yr hwn a ddyoddefodd ar y croesbren poenus, trugarha wrthym.

Manrth 21. Diwrnod ympryd a gweddi. Yr oeddym yn ymostwng o ran ein cyrff, ond y mae lle i ofni nad ydyw ein heneidiau wedi ymostwng. Nid ar y golwg allanol yr edrychi di, O Arglwydd; ond yr enaid a'r ysbryd cystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi.

Ebrill 22,—

“Religion! what treasures untold,
Reside in that heavenly word;
More precious than silver and gold,
And all that this world can afford.”

Ië, nid oes ond crefydd yn unig yn alluog i'n cyfarwyddo trwy y byd gofidus hwn, i'n cysuro dan ein trallodion a'n cystuddiau, ac i esmwythau gwely y Cristion wrth farw. Pan y mae yr enaid yn ymdrechu ar gyffiniau dau fyd, ac yn wynebu glyn cysgod angeu, y mae crefydd yn rhoi ei llewyrch dysglaer a nefol, ac yn gwneuthur y ffordd yn eglur o'i flaen. Pa beth yn y byd hwn sydd deilwng o'i gydmaru â'r fendith hon? Nid oes dim; canys “duwioldeb sydd fuddiol i bob peth, a chanddi addewid o'r bywyd sydd yr awr hon, ac o'r hwn a fydd.” Arglwydd, dyro i mi y trysor hwn fel fy rhan, ac aed y byd fel yr elo. Os caf Dduw yn gyfaill, ni bydd arnaf eisieu dim daioni; caf hyfrydwch na ddichon y byd ei roddi na'i

ddwyn ymaith. Ti a ddywedaist wrthyf, “dewis-wch iwch’ heddyw pwy a wasanaethwch;” minau a atebaf, “y Duw hwn yw ein Duw ni, byth ac yn dragywydd, efe a’n tywys ni hyd angeu.”

Ebrill 25. Y mae Duw yn ei drugaredd wedi gweled yn dda roddi i mi fywyd ac iechyd i weled un dydd genedigaeth drachefn. O! am gysegru fy hun o’r newydd iddo ef. Yr wyf yn ofni i mi yn fynych dori fy adduned er y diweddaf; ond y mae Duw yn drugarog wedi fy arbed i weled un yn rhagor. Y mae y dyddiau hyn fel uchelfeydd yn nhaith bywyd, lle y dylem aros ac edrych yn ol ar y llwybr a gerddasom, a gofyn cyfarwyddyd Duw am yr ychydig amser sydd yn ngweddill. Ar-glwydd! ti a wyddost mor anffrwythlon y treuliais yr amser a aeth heibio. Dysg fi i brynu pob mynvd o’r hamser i’th ogoneddu di. Na âd i mi feddwl am ddim ond pa fodd i wasanaethu fy Nghbrawdwr, a llesâu fy nghyd-greaduriaid yn ol mesur y talentau a roddaist i mi. Bydded i mi ymdebygoli i’r siampl berffaith a roddodd Efe, yr hwn a aeth oddiamgylch gan wneuthur daioni, a bendithio hyd yn nod ei elynion. Na âd i mi gymeryd neb yn gynllun ond Efe; a dyro i mi gymorth i roddi fy hun iddo, enaid a chorff, i ymostwng i’w arweiniad dwyfol, gan wybod y bydd i bob peth gyd-weithio er daioni i’r rhai sydd yn caru Duw. Yr wyf yn dychrynu wrth feddwl y fath gyfrif manwl a raid ei roddi ger bron brawdle Crist, a beth os ceir fi ar law aswy y Barnwr yn y diwedd? Ond yr wyf yn pwyso ar yr addewid raslawn “deuwch ataf fi bawb a’r sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythaf arnoch;”—caf esmwythad tragywyddol gydag ef. Amen.

Nid yw yn debygol iddi gadw i fyny yr arferiad o gofnodi ei theimladau mor gyson a manwl ar ol y cyfnod uchod; ond ceir mewn llawer o lyfrau, ac ar ddarnau o bapyr, sylwadau byrion ar amryw

bynciau, a gweddiâu dwysion am waredigaeth o dan lywodraeth pechod, y rhai sydd yn profi agosrwydd ei chymdeithas â'r nefoedd, a'r cysur a dderbynai wrth rodde ei bryd ar y pethau sydd uchod. Dyma guddiad cryfder y Cristion, ei allu i dynu nerth Hollalluog o'i blaid, ac felly cael bod yn fwy na choncwerwr ar alluoedd y tywyllwch.

PEN. VII.

PROFIADAU A MYFYRDODAU ACHLYSUROL.

“Tra yr oeddwn yn myfyrio, enynodd tan, a mi a leferais a'm tafod.”—SALMAU.

O Y FATH feddyliau culion yr wyf yn letya am Dduw! Yr wyf yn rhy barod i osod terfyn i Sanct yr Israel; ac er darllen am ei ryfeddodau i'w bobl gynt, yr wyf yn methu ymddiried fy hunan i'w law oruchel.

“O anghrediniaeth mawr dy rym,
Ti roddaist i mi glwy';
Ond yn dy wyneb credu wnaif,
Fod doniau 'r nef yn fwy.”

Am hyny, ymddiried ynddo, O fy enaid!

Yn y cyfarfod eglwysig neithiwr yr oedd merch ieuanc yn cloffi rhwng dau feddwl, pa un a ymadawai â gwrthdrych daearol ei serch, neu a'r grefydd hòno sydd yn ein codi uwchlaw pethau y ddaear. Yr oedd yn fwy tebyg i Orpah nag i Ruth. Wylai,—ond yr wyf yn ofni y dychwelai at ei hen gyfeillion; dyma, gan hyny, wers i minau i fyfyrio arni. Dymunwn weddiò, Arglwydd, na âd i'm crefydd byth gael ei dwyn mor isel ag i ganiatâu amheü-

aeth; na âd i'm serchiadau byth gael eu darostwng mor fawr fel ag i ddewis gwrthddrych daearol o flaen un nefol; ond dyro i mi benderfyniad meddwl i ymgadw rhag pob temtasiwn o'r natur yma. Cadw fi hyd y diwedd yn dy law; canys yn dy law yn unig y byddaf ddyogel, a thywys di y rhai sydd yn petruso; amlyga dy hun iddynt fel yn anfeidrol ragori ar bob serch anianol; dangos iddynt fydra amser ac annigonolrwydd pob peth arall ond dy hunan i roddi iddynt gysur sylweddol.

Paham y'th ddarostyngir, fy enaid? Gobeithia yn Nuw, yr Hwn yw nerth fy nghalon, ac sydd iachawdwriaeth i mi. Paham y digalonaf yn wyneb tywyllwch neu amheun sydd yn aros ar y dyfodol; os wyf wedi ymddiried fy achos tragwyddol i ddwylaw Gwardwr hollalluog, oni allaf gymeryd ei air am bethau tymhorol? Os wyf wedi gorchymyn fy hun i'w ddwylaw am amser a thragywyddoldeb, i ba beth y petrusaf yn nghylch y dyfodol? Na; mi fwriaf fy maich ar yr Arglwydd, yr hwn sydd yn alluog i'w gynal, ac ymdawelaf i'w ewyllys oruchel, gan adael iddo ddethol fy etifeddiaeth i mi. Bydded i mi ddylyn lle bynag y byddo efe yn arwain, a pheidio ymresymu, ond dysgu ufuddhau.

“Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyf adawaf ehwaith.” Pa eiriau cryfach a ddewisai cyfaill anwyl i ddangos ei anwyldeb a'i serch er mwyn enill ein hymddiried, na'r rhai a roddir yma, y rhai sydd wedi eu llefaru gan y Jehofah mawr ei hun; ac eto y mae y Cristion, weithiau, mor hollol ymddifad o ffydd, ag i anghofio, ni feiddiwn ddywedyd i anghredu, y geiriau cysurlawn hyn. Arglwydd, na âd i mi amheu dy ffyddlondeb un amser!

Nid wyf erioed yn cofio treulio dydd genedigol,

hyd yn nod yn mlynnyddoedd mebyd, heb deimlad difrifol a thrymaidd; y syniad o'm cyfrifoldeb i Dduw am yr amser a roddwyd i mi ar y ddaear sydd wedi ei blethu a'm hadgofion boreuaf; ond erbyn heddyw, y mae yn dyfod gyda grym ychwanegol. Bydded i mi deimlo yr alwad yn ddwys, canys llais cydwybod yn ddiau ydyw. O! am "brynu yr amser, canys y dyddiau sydd ddrwg." Y mae yn naturiol i edrych yn ol, a galw i gôf yr amlygiadau hyny o ddaioni rhagluniaeth tuag ataf fi yn hytrach nag ereill. Paham y caniateir i mi weled y dydd hwn drachefn, pan y mae llawer oedd ieuangach na mi wedi eu galw i fyd yr ysbrydoedd! Bydded fy mywyd yn gysegredig i'w ogoniant Ef, yr hwn yn ei drugaredd a gadwodd un mor anhaeddianol.

"O! i'th ras y fath ddyledwr
Ydwyf, beunydd trwy fy oes;
Boed i'th ras fel cadwyn euraidd,
Fyth fy rhwymo wrth y groes."

Mewn diwrnod ystormus a thymhestlog yr ydym yn teimlo cysur a gwerth cysgod; felly, pan yn cael ein tafu ar fôr garw adfyd, y mae dyddanwch yr efengyl yn dyfod gyda mwy o felysder. Ein doethineb penaf fyddai ystôrio yn y côf y cyfarwyddiadau nefol a gadwai ein meddyliau yn amser profedig-aeth, ac a'u cyfarwyddent at ffynon yr hapusrwydd hwnw na leiheir hyd yn nod gan donau olaf marwolaeth, ond a'n cluda yn ddyogel i'r wlad lle y cawn fod yn dragywydd, fel y dywed y prydydd,—

"Basking in the Deity—
Bathing for ever in the source of bliss."

Anwadal a chyfnewidiol, fel y ffurfafen ar ddiwrnod yn y gwanwyn, wyf yn cael fy nheimladau gyda golwg ar bethau ysbrydol; un foment bydd llygeidyn

o ddiolchgarwch i Dduw yn fy llenwi â llawenydd
a hyfrydwch, ond y foment nesaf y mae yn diflanu,
ac fe ddaw ofnau ac ambeuon megys cymylau
tywyll a du, i dafu eu cysgod trymaidd o'm ham-
gylch, nes wyf yn teimlo fy mod

“Yn nyfnder mawr anobaith du;”

ac yn barod i ofyn,—

“A oes dyn ar wyneb daear,
Mor annedwydd a myfi?
Pwy y'mhlith holl deulu galar,
Gydymdeimla â fy nghri?
Cwyno 'r ydwyf,
Gan drueni calon ddrwg.”

Po fwyaf graddol y mae ein hadfeiliad crefyddol,
mwyaf peryglus ydyw; oblegyd nad ydyw mor
amlwg i ni. Nid ydym yn canfod y perygl yr
ydym ynddo, hyd nes y byddom ar y dibyn megys,
ac oddieithr i ras Duw ein rhagflaenu, ni a syrth-
iwn yn bendramwnwgl drosto. Mor angenrheidiol,
gan hyny, ydyw y cyfarwyddyd, “Gwyliwch a
gweddiwch, fel nad eloch i brofedigaeth.”

Nid oes dim yn anfarwol yma ar y ddaear ond
yr enaid, am hyny, nid oes dim mewn gwerth i'w
gydmaru iddo, ac eto, y peth diweddaf ydyw ag y
cymerwn ofal am dano. O lygredigaeth ein natur!
sydd mor ofalus a diwyd yn nghylch yr adeilad,
ond sydd yn ddiofal am ddyogelwch y preswlydd
—sydd yn cymeryd gofal mawr yn nghylch y
corff, ond yn ddisylw o achos yr enaid anfarwol a
thragwyddol.

“*Ni ddaethoch eto i'r wlad am yr hon y dywedodd
yr Arglwydd.*” Y mae y geiriau hyn yn ddëongl-
iad ar brofiad y Cristion, yn wyneb cael ei guro
gan ddonau geirwon gofid. Y mae plentyn Duw yn

barod i ymofyn a'i Dad, "Paham y mae fel hyn arnaf," ac yn fynych yn amheus pa un a yw yn blentyn; ond y mae hwn yn ateb digonol, "Ni ddaethoch eto i'r orphwysfa"—yr ydych eto ar faes y gwaed, yn brwydro â gelynion, ond "y mae gor-phwysfa eto yn ol;" "dros brydnawn yr erys wyl-ofain, ac erbyn y boreu y daw gorfoledd." O! ddedwydd foreu, pan welir y Cristion heb gorff y farwolaeth, yn rhydd o afael pob gelyn fu yn ei flino yma ar y llawr.

"Ni threfnwyd oesoedd maith,
I neb i gario'r groes."

Byddwn ffyddlawn hyd angeu, ac ni gawn dragy-
wyddoldeb i orphwys gyda Duw a'r Oen.

Mor fynych y bydd y pethau sydd yn hollol gyfreithlawn ynddynt eu hunain yn tynu ein serchiau oddiar wrthddrychau nefol. Yr ydym yn cyfarfod a chyfaill ag y mae ein meddyliau oll yn ymglymedig wrtho. Fel hyn, y mae yn anhawdd iawn gosod ein serch ar y pethau sydd uchod; ac y mae cystuddiau yn llwyr angenrheidiol er mwyn diddyfnu ein calonau oddiwrth y pethau sydd yn dwyn ymaith y meddwl oddiwrth Dduw, a'r pethau a berthyn i'n heddwch tragwyddol.

O mor farwol, ac eto mor anweledig, ydyw y clefyd dirgelaid hwnw, y darfodedigaeth—mor dwyllodrus ydyw, hyd yn nod yn ei nerth mwyaf. Y mae y rhai sydd tano yn gweniëithio iddynt eu hunain eu bod yn gwella, ac y bydd i ychydig o wythnosau eu hadferyd i iechyd eilwaith. Felly y mae hefyd yn ymadawiad yr enaid â Duw; yn ofer y rhybuddir ni gan ein cyfeillion o'n perygl, mewn hunan-hyder yr ydym yn diolch iddynt am eu gofal, ac ar yr un pryd yn sicrhau iddynt eu bod

yn methu. Megys Ephraim, y mae dyeithriaid wedi bwyta ein cryfder, ac ni wybuom. O! gamgymeriad peryglus; y mae penwyni wedi ymdaenu drosom mor llwyr fel y mae yn amlwg i bawb ereill, ond yr ydym ni heb ei ganfod ein hunain. Arglwydd, gwared fi yn raslawn rhag y fath gyflwr ofnadwy!

Fe welir yn y sylwadau blaenorol mor bwysig yr oedd achos ei henaid yn gwasgu ar ei meddwl, ac er y dichon ei bod yn rhy dueddol i edrych i mewn iddi ei hun am ddefnydd cysur, ac o ganlyniad yn cael ei siomi;—eto yr oedd hyn yn rhyw arweiniad iddi o'i gwlad ei hunan at y cyflawnder sydd i'w gael ynddo Ef, yr hwn a "aeth yn ddiwedd i'r ddeddf er cyflawnder i bob un a'r sydd yn credu." Y mae diofalwch ac anystyriaeth yn nghylch crefydd yn llawer mwy peryglus na "rhodio yn alarus trwy orthrymder y gelyn;" ond byddai cydnabyddiaeth agosach â gwirioneddau crefydd yn symud y naill a'r llall, a pherffaith gariad yn bwrw allan ofn.

YR AIL RAN.

SYLWADAU ARWEINIOL

Gan y Parch. JOHN PHILLIPS, a'r Parch.
HUGH ROBERTS, Bangor.

Mr. PHILLIPS a ysgrifena fel y canlyn :

“Yr oedd hynodrwydd yn Mrs. Edmunds, gwrthddrych y cofiant hwn, a'r hynodrwydd hwnw yn un rhinweddol; ac nid uniawn a fuasai ei gladdu ef yn yr un fynwent a'i gweddillion marwol hi. Na; yn hytrach, teilwng yw ei gadw mewn coffadwriaeth, a'i gyflwyno hefyd i'r cyhoedd. Cefais gyfleusdra i fod yn gydnabyddus â hi am tua phedair blynedd ar hugain; yn gyntaf oll, pan yn eneth ieuanc yn•nhÿ ei thad yn nhref Caerfyrddin; ac wedi hyny, pan yn gwasanaethu ei chenedlaeth fel athrawes; a gallaf yn rhwydd dystiolaethu am dani ei bod yn llawn gweithgarwch—awyddus i weithredoedd da—ac yn dalentog i gyflawni ei dyledswyddau. Yr oedd ganddi yn wastadol amcan am fod yn ddefnyddiol yn y byd hwn, ac ymbarotoi erbyn y byd a ddaw. Fel athrawes, priod, a mam, hi a gafodd y fraint o ymddwyn yn y fath fodd, fel y gellir heb betrusder ei chyflwyno i sylw, fel un deilwng o efelychiad yn y cyfryw sefyllfaoedd; ac y mae ei phriod a'i brawd wedi llwyddo i osod ei hanes ger bron mewn modd syml a dirodres, fel nad oes modd i neb ystyriol ddarllen y cofiant heb dderbyn llesiant oddiwrtho. Dymunaf iddo gylchrediad helaeth—i law y lluaws yr elo, ac ar ei ddarlleniad y byddo bendith yr Arglwydd.”

A ganlyn ydyw nodiadau Mr. ROBERTS :

“Mae yn ddiâu y bydd yn hyfrydwch gan y rhai oedd yn adnabyddus o Mrs. Edmunds, i weled ei chofiant yn ymddangos, a'i fod wedi ei ysgrifenu gan bersonau oeddent yn ddigon adnabyddus o honi i wneyd cyflawnder ág ef, sef gan ei brawd a'i phriod, cymeriad moesol a chrefyddol y rhai sydd yn sicrwydd digonol am ei gywirdeb. Y mae yn hawdd, hefyd, i'r

darllenydd ddeall wrth ei ddarllen, mai nid oddiar deimladau perthynasol y cymerwyd y gorchwyl o'i ysgrifenu mewn llaw; ond o herwydd fod gwir hynodrwydd a theilyngdod yn perthyn iddi, nad ydynt i'w cael ond yn anfynych, fe allai, yn mysg gwir Gristionogion. Y mae yn anhawdd i neb ddarllen y bywgraffiad hwn yn ystyriol, heb deimlo argyhoeddiad o werth a phwysigrwydd gwir grefydd. Yn wir, y mae tuedd uniongyrchol yn yr hanes i fod yn adeiladol a bendithiol, ac i ddwyn dylanwad iachusol ar feddyliau y rhai a'i darllo; a gellir edrych ar gofiant o'r natur yma yn brawf ychwanegol o wirionedd Cristionogaeth.

"Nid unrhyw swyddog gwladol nac eglwysig yw gwrth-ddrych y cofnodau hyn, ond gwraig rinweddol a mam dyner— un oedd wedi hynodi ei hunan trwy ei llafur a'i diwydrwydd mewn gwybodaeth, dysg, duwioldeb, a defnyddioldeb— un oedd wedi bod yn addurn i'w rhyw, ac yn enwogrwydd i'w gwlad a'i chenedl. Nid yw o un dyben i mi olrhain hanes Mrs. Edmunds, na phortreïadu ei nodweddiad ger bron y darllenydd, er fy mod yn teimlo parodrwydd i hyny oddiar fy adnabyddiaeth o honi er ys rhai blynyddau bellach; ond fe'm tuedd i grybwyll mai anhawdd fyddai cael un yn meddu ar y fath gymwysder fel athrawes mewn ysgolion dyddiol a Sabbothol. Yr oedd ei gwybodaeth gyffredinol ac ysgrythyrol yn eang iawn, yr oedd yn gyflawn o synwyr ac ysbryd barn, yn llawn teimlad a bywiogrwydd, fel yr oedd yn gallu dysgu mewn addfwynder a llywodraethu mewn doethineb. Yr oedd yn caru y plant, ac yn bryderus yn eu cylch, ac, yn ddiamheu, yn gweddïo llawer drostynt; a byddai y plant yn ei charu hithau yn fawr, ac yn teimlo yn dra dedwydd tan ei llywodraeth a'i haddysg. Bu ei dyfodiad i'r ddinas hon yn fendith ac yn lles nas gwyddis pa faint. Cafodd yr eglwys a'r Ysgol Sabbothol golled fawr ar ei hol. Yr oedd yn aelod hardd, ffyddlon, a defnyddiol. Nid talu teyrnged yn unig a wnai hi i grefydd, ac ar amserau bod yn rhydd oddiwrth ei hawdurdod, ond yr oedd wedi derbyn o'i hysbryd; yr oedd tan ei dylanwad, ac yn ei chanmol ei hun wrth bob cydwybod ar a'i hadwaenai, trwy ei diwydrwydd a'i ffyddlondeb gyda phob moddion o ras, ac yn y cyflawniad o holl ddyledswyddau y fuchedd Gristionogol. Pe byddai i athrawesau yr Ysgol Sabbothol, yn gyffredin, gyfranogi o'i hysbryd, er i'w cymwysderau fod yn llai na'r eiddo Mrs. Edmunds, byddai adfywiad buan ar y rhan yma o waith yr Arglwydd.

"Yr oedd hi hefyd yn haelionus tuag at achosion crefydd, ac yn serchog tuag at weision yr Iesu, yn gwneuthur cyfrif o honynt mewn cariad er mwyn eu gwaith. Nid oedd, ychwaith, yn anghofio y tlodion, ond teimlai barodrwydd a phleser mawr i estyn cymorth i'r rhai hyn mewn cyfyngder. Ond er

meddu y rhagoriaethau hyny, a llawer o'u cyffelyb, cymerwyd hi ymaith yn nghanol ei dyddiau a'i defnyddioldeb. Os gofynir, i ba beth y bu y golled hon? rhaid ateb, nas gwyddom ni yr awr hon—nid amlygwyd i ni eto—rhaid myned yn fud a chydabod mai ewyllys Duw oedd hyn. Er ei bod wedi ymadael â'r byd, nid ydyw wedi ymadael â'r eglwys—un yw hi yn y nef ac ar y ddaear.

“Yr wyf yn dra hyderus y bydd i'r cofiant hwn gael ei werthfawrogi gan laweroedd, ac y cynyrchir daioni mawr trwyddo.”

PEN. I.

GWRTHDDRYCH Y COFIANT.

Y MAE cwlwm agos rhwng y meddwl a'r corff, a chryn lawer o ddylanwad gan y naill ar y llall; eto yn aml, fel yn ngwrthddrych y cofiant hwn, ceir yr annhebygrwydd mwyaf rhyngddynt. Yr oedd ei *hedrychiad* hi braidd yn neillduedig ac oeraidd, ond yr oedd ei *meddwl* yn llawn o serch a chymwynasgarwch; y *corff* yn naturiol o wneuthuriad gwan ac eiddil, ond y *meddwl* yn gryf a gwrol. Bu llawer person yn ymddangos yn harddach o ran y dyn oddiallan, ond yr oedd y dyn oddifewn yn brydferth a threfnus iawn, ac wedi ei ddiwyllio i radd uchel. Y mae lluaws fel hithau wedi ysgrifenu llawer o ffrwyth eu myfyrdodau, a dyfynu yn helaeth o brydferthion myfyrdodau ereill, ond ychydig mewn cydmariaeth sydd wedi bod yn berchen digon o drefnusrwydd meddyliol i gadw y cynyrchion hyny trwy ystod ugain mlynedd o drafferthion bywyd; ond wele hwynt yma yn llu mawr, wedi eu dethol yn drefnus a'u cylymu yn nghyd; ac ar ol iddi wneyd detholiad manwl o honynt, a llosgi canoedd o'r rhai na ddymunai i ereill eu gweled ar ei hol—gadawodd sypynau

mawrion o ysgrifau gwahanedig, yn nghyda deuddeg o gyfrolau lled fawr, chwech wedi eu hysgrifenu yn fanwl a'i llaw ei hun, a'r gweddill wedi eu gwneyd i fyny o ddarnau wedi eu tori allan o baprau newyddion a *magazines*: y cwbl yn nghyd a wnaent lyfr, nid llawer, os dim, yn llai na'r Beibl. Gellir nodi fod llawer o'r detholion o'r ysgrifau hyn yn wir werthfawr, ac nid oes dim o honynt yn sarhad ar farn a chwaeth y detholydd.

Esiampl arall o drefnusrwydd ei meddwl, a welir yn ei gwaith yn cadw cofnodau dyddiol am bob peth hynod a gymerai le yn ystod cynifer o flynyddoedd. Rhoddwn yma fel enghraifft ychydig o'i sylwadau yn nechreu ei dyddlyfr am 1847, lle y dechreuwn gofnodi ei hanes.

"Blwyddyn newydd! Gynifer o feddyliau a theimladau sydd yn cael eu cyffroi wrth yr ystyriaeth—I ba le yr aeth yr hen flwyddyn: a pha gyfrif a fedrwn roddi o honi? Llawer yw y cyfnewidiadau a ddygodd: a ydym ni yn well o honynt? Aml y bendithion a estynodd: a ydym ni wedi bod yn ddiolchgar am danynt? Ah! y mae erbyn hyn yn hwyr i ddim ond edifeirwch. Gadewch i ni benderfynu treulio yr un bresenol yn well. 'Gwnawn dda i bawb.' 'Gan brynu yr amser.' Mor fanteisiol ac angenrheidiol yw i ni feddu cymaint a hyny o fywyd yn ein crefydd, ag i fedru cymeryd addysg oddiwrth y cyfnewidiadau a'r profedigaethau a'n cyferfydd, ag a fyddo yn tueddu i fywchau a chryfhau y dyn newydd."

Enghraifft arall o drefnusrwydd ei meddwl ag sydd yn werth hefyd i'w choffhau, ydyw ei manylrwydd yn cadw cyfrif o dderbyniadau a thraul y teulu. Ni byddai diffyg côf, nac unrhyw ddamwain arall, yn achosi yr esgeulusdod lleiaf yn ei chyfrifon, am yr wyth mlynedd y bu yn cadw tŷ; ac ni bu ei hafiechyd trwm, na'i hanallu i ddyfod o'i hystafell wely am fisoedd yn achos i fod un bwlech yn y cyfrif teuluaid; ac er ei bod yn wybyddus am rai wythnosau ei bod i roddi y tabernacl hwn heibio yn dra buan, eto, ni ddyrysodd yn y gor-

chwyl hwn, ond cyfrifai hyn yn ddyledswydd arni, ac nid esgeulusodd hi hyd ddydd ei hymadawiad; ac er i'w gwendid a'i phoen fod yn fawr am gryn amser cyn iddi ymadael, y mae y llyfr yn cynwys, yn ei llawysgrifen ei hun, y gwahanol bethau oedd i'w prynu erbyn yr wythnos oedd yn dechreu y boreu dydd Llun y cauodd ei llygaid ar y fuchedd hon.

Y Cristion mwyaf cywir, o bosibl, sydd yn ddarostyngedig i fwyaf o amrywiaeth hîn gyda chrefydd, ac yn fwyaf agored i deimlo oddiwrthynt. Ond y mae cyfansoddiad meddwl rhai, hefyd, yn eu gwneyd yn dra agored i dderbyn argraffiadau *dwfn* oddiwrth bob peth sydd yn eu cyfarfod, y da yn gystal a'r drwg. Un felly oedd gwrthddrych y cofiant hwn. Mynych y dywedai na wyddem ni oedd o'i chwmpas, ond ychydig am y plaser angerddol a fyddai hi yn gael oddiwrth bethau bychain. Mawr y llawenydd a fyddai yn deimlo wrth gyfarfod â hen gyfaill; mor anwyl ganddi fyddai cael cymdeithas ambell i bregethwr; mor gynnes y byddai yn coffhau am ryw gymwynas fechan a fyddai wedi dderbyn, ac mor barod i'w thalu yn ei hol ar y bedwaredd. Y fath flas a fyddai ganddi i syllu ar dlysnï natur yn y coedydd a'r blodeu, a gwrando ar gân yr adar, neu weled plant yn mwynhau eu hunain wrth chwareu. Byddai bob amser yn gweled ol llaw Duw ar bob peth natur, ac felly, ni fynai un amser ysgaru natur a chrefydd. Mynych y dywedai,—“y mae'r byd yn dda ac yn hardd ryfeddol, ond nyddi sydd wedi myned yn ddrwg; 'rwy'n anfoddlon i glywed neb yn rhedeg ar y byd.” Dengys y gân ddiodl a ganlyn, yr hon a gafwyd yn mhlith ei chyfansoddiadau, mai pethau tlws yn ei golwg oedd pethau bychain natur:—

TWILIGHT.

THE crows fly swiftly to their secret home,
And the swift dove unto her loving mate;

The ploughman quits with joy his daily task ;
 The shepherd leaves his flock, and with light heart
 Welcomes the respite kind which twilight gives.
 The cattle in the sweet green pastures lie,
 Chewing the cud in solemn silence, now ;
 And blushing, sinks the sun behind yon hill.
 Approach, O ! twilight now, thou time of peace ;
 What strains of melody upon mine ear
 Pour softly ? Lo ! the bird of high renown,
 The lark, a sweet musician, in the air
 Tuning his notes to welcome thy calm reign ;
 Sweet singer of the wood, the blackbird, too,
 The thrush and linnet join the evening song,
 The goldfinch and the modest redbreast true.

Y mae y ffaith iddi beri i un ferch ieuanc sicrhau y rhoddai hi flodeu ar ei bedd hi, yn dangos iddi barhau yn y teimlad hwn hyd y diwedd; ac mewn atebiad i sylw o eiddo yr ysgrifenydd, na fyddai cael, neu beidio cael, blodeu ar ei fedd, ond peth o ychydig bwys ganddo ef wrth fyned i farw, dywedai—"Ië, un fel hyny ydych chwi; fyddwch chwi ddim yn medru teimlo fel fi; ydyw, y mae yn bleser mawr i mi feddwl y caf orwedd yn mhlith y blodeu." Ond o'r ochr arall, eto, byddai y peth lleiaf o duedd anghysurus yn cymylu ei hawyr-gylch yn union. Clywid hi yn aml yn dyweyd,—*"I see every thing dark, I cannot help it ;"* ac nid hawdd oedd ei chael o'r agwedd meddwl hõno wedi unwaith fyned iddi. Fel desgrifiad pellach o'r hyn y cyfeiriwn ato, ychwanegwn y llinellau canlynol, wedi eu cyfansoddi ganddi pan yn ngafael teimlad o'r fath:

SORROW.

NATURE is full of smiles, but I am sad !
 Yon sun invigorates and warms the earth ;
 Yon moon is fair, as calm she wends her way,
 Smiling and silvering o'er each wood and wave.
 Ah ! once I loved to see the glorious sight.
 How lovely are the blushing clouds, which seem

As golden fringes on the pall of night ;
 The stars faint twinkle through the darkened sky,
 Erratic in their circle-order all :
 But now, alas ! I cannot look on high,
 For sorrow on my eyelids presseth hard.
 The fields may blush with roses—not for me ;
 For other eyes the flow'rets deck the scene ;
 The hills may echo with the feathered throng,
 And I in secret weep my hapless lot :
 The birds may carol, or their songs may cease—
 Nature in smiles be decked, or else in gloom—
 The stars may twinkle or withhold their light—
 The sun may shine, or be in darkness veiled—
 I still remain the same.

No ray can dissipate my cloud of woe !
 Oh ! who can cure my deep, my secret wound ?
 What friend can hear the tale I dare not tell ?
 No mortal can, for vain is mortal aid.
 But there is One who sees and knows my grief,
 Yes, He can heal, and freely heal my smart :
 To Him I flee, and prostrate at his feet,
 Importune Him for pardon through his blood.

Wedi dianc o un o'r pangfeydd hyn, y mae yn
 ysgrifenu y llinellau a ganlyn :

I am free ! I am free ! once more, I am free,
 The chain has been broken that fettered me ;
 My spirit resumes its wonted tone,
 The spell it is over, the vision gone,—
 Perchance again, I may feel the same, &c.

Ond nid isel oedd agwedd naturiol ei meddwl hi,
 eithr bywiog, siriol, llawn o egni, a pharod i ym-
 ddyddan am bob peth buddiol ; ond teimlai wrth-
 wynebiad mawr i chwedlau gwneuthur, a phob
 math o ymyraeth â materion rhai ereill. Yn hyn
 yn sicr yr oedd yn deilwng o efelychiad.

Y mae yn amlwg na chymerodd ond ychydig o
 hyfrydwch mewn cyfansoddi yn y Gymraeg, a llai
 fyth mewn mesurau caethion ; ond medrai ddyn-
 wared unrhyw beth, a hyny gydag ychydig o
 drafferth. Cawn enghraifft o hyn yn y cyfarchiad

canlynol o'i heiddo i ddau o'i chyfeillion ar ddydd eu priodas, mewn ffurf o englyn, wedi ei ysgrifenu yn ei dyddlyfr, (Ion. 29, 1847):

Gwened y nef ar y ddeuddyn,—a'u hundeb
Fo'n hyfryd a diffin;
Hir oes heb gur na chroes hin,
A'r nefoedd yn rhan gwedi'n.

Pe esgêlusem grybwyll am gywirdeb ei meddwl, byddem wedi gadael allan un o brif linellau ei chymeriad. Gallwn fentro dyweyd nad oedd ynddi dwyll na dichell—teimlai tuag at bawb yn ol y farŵ a fyddai wedi ffurfio am danynt, ac ymddygai tuag at bawb yn ol ei theimlad tuag atynt—ni fedrai ragrithio, ac nis amcanai wneyd hyny; ond i'r ochr gyferbyniol, byddai yn ffyddlon i bawb, ac yn fwy felly yn eu habsenoldeb nag yn eu presenoldeb.

Yr oedd, hefyd, yn un o deimladau tyner iawn, ac o gyd-ymdeimlad cryf â phawb mewn unrhyw gyfyngder. Byddai, yn ol ei gallu, yn rhoddi yn helaeth i'r tlodion; a chlywais hi yn crybwyll lawer gwaith, nad oedd hyny yn glod yn y byd iddi hi, ei bod yn ei wneuthur yn benaf o hunan-ymddiffyniad, "Canys yr unig ffordd," meddai, "y medraf esmwythau fy nheimladau ar ol gwranddo eu cwynion, a gweled eu trueni, ydyw trwy estyn ryw gymaint, fel na chaiff fy rhan I fod yn ol tuag at weinyddu ymwared iddynt"—"Gwell genyf roddi i ddeg o'r rhai sydd heb fod mewn gwir angen, na throi un i ffordd yn waglaw, sydd mewn eisieu; pe bawn yn gwrthod rhoddi i'r rhai y tybiwn eu bod mewn eisieu, byddai fy meddwl I mor druenus a'r eiddynt hwythau."

Fel enghraifft arall, eto, o dynerwch ei meddwl, a'i chydymdeimlad, rhoddwn yma lythyr a ysgrifenodd at ferch ieuanc, ar yr achlysur o farwolaeth ei thad; yr hwn hefyd a ddengys mor llawn ac

mor gryno y medrai ddangos ei meddwl, a hyny mewn ieithwedd dda, ar ychydig eiriau:

“Fy nghyfeilles hoff:

“Er fy mod yn ufuddhau i gynhelliad cyntaf fy nheimlad pau glywais am eich colled annysgwyliadwy, ond beth i ysgrifenu nis gwn; eithr fel un wedi myned trwy amgylchiad cyffelyb fy hun, chwi a'm credwch pan y dywedaf, fy mod yn cydymdeimlo yn wirioneddol â phob un o honoch. Eich tad, y mae yn wir, a'ch gadawodd, ac nid ydych heb deimlo prudd-der a thristwch tan ddyllanwad y cwmwl tywyll sydd wedi myned tros eich pen; ond hyderaf hefyd, eich bod wedi clywed y llef ddystaw o'r nefoedd yn tawelu pob tuedd i rwgnach, ac yn eich galluogi i ddyweyd, “Y cwpan a roddes fy Nhad i mi i'w yfed, onid yfaf ef?” Rhaid i ni gael galaru, y mae yn wir, ac ni omeddir i ni wylo. Yn hyn, ni a gawn esiampyl yr Iesu; ond ni ddylem alaru fel rhai heb obaith, am y rhai a hunasant yn yr Iesu. Yr ydym wedi colli y *gair tyner*, y *wen siriol*, a'r *meddwl penderfynol* a'n cyfarwyddai; eto, nid galar a ddylai fod y teimlad uchaf. Pan y daw gobaith y Cristion, yr hwn sydd yn llawn o anfarwoldeb, i'r golwg, nid ydym yn teimlo ein bod yn cael ein gwahanu oddiwrth y rhai oedd yn anwyl genym, hyd yn nod yn angeu. Y mae y nefoedd fel yn cael ei dwyn yn nes atom, ac yr ydym yn mwynhau y dynesiad i'w chymundeb gyda mwy o hyfrydwch, wrth deimlo fod perthynasau i ni yn mhlith ei thrigolion, ac nis gallwn lai na *llawenhau*, weithiau, wrth feddwl fod ein hanwyliaid wedi diano o stormydd a thymhestloedd y fuchedd hon, i'r trigfanau tawel sydd fry wedi eu parotoi iddynt, lle nad ydyw ofn na gobaith yn medru ymwithio.

“Hyderaf fod y naill a'r llall o honoch yn mwynhau cysuron yr Efyngyl, ac yn derbyn nerth yn ol y dydd, a bod y gwirioneddau mawr a fu eich tad yn bregethu i ereill am gynifer o flynyddoedd, wedi bod yn ddyddanwch iddo ei hun yn ei fynyddau olaf,—ac i chwi gael eich galluogi o ystafell gwely angeu, i roddi eich hun i'r Arglwydd yn fwy llwyr nag erioed o'r blaen.

“Y mae arnoch, yn awr, rwymedigaethau newyddion, y rhai erbyn hyn, mi wn, eich bod yn eu teimlo, sef gofal ychwanegol am eich mam a'ch chwaer, y rhai a fyddant, o hyn allan, yn glynu wrthyhych yn fwy nag erioed; ni feddant ar y ddaear un, bellach, y gallant edrych i fyny ato ond chwi.

“Ffarwel, fy anwyl gyfeilles. Y mae fy nghalon yn llawn, a'm teimladau yn rhedeg yn ol at yr amser y collais inau dad. Bydded i'r Duw a'n cynaliodd ni tan yr unrhyw brofedigaeth,

fod gyda chwithau. Y mae efe yn ffyddlon i'w addewid, i fod yn "Dad i'r amddifad, ac yn farnwr i'r gweddwon.

"Ydwyf, gyfeilles anwyl,

"Yr eiddoch, mewn cydymdeimlad,

"M. A. JONES."

Y mae ger ein bron amryw o'i llythyrau wedi eu derbyn oddiwrth gyfeillion caredig, ond y mae yn rhaid i hwn wneyd y tro fel enghraifft o'r lleill, rhag chwyddo y llyfr yn ormodol. Gellir dyweyd hyn am dani, fod cyfansoddi llythyr cynwysfawr, mewn byr eiriau, ac ieithwedd dda, mor naturiol iddi ac anadlu, a hyny yn gyffredin heb nemawr ragfyfyrdod, mewn ychydig fynyddau. Y rheswm, hwyrach, fod y rhyw fenywaidd yn gyffredin yn rhagori yn y ddysgeidiaeth hon yw, eu bod yn ysgrifenu eu teimladau yn hytrach na'u barn; tra y mae y naill yn barod i'w ysgrifenu yn ddigwmpas, y mae y llall yn gofyn amser i'w ffurfio a'i benderfynu, ac yn aml wedi'r cwbl yn llawn mor debyg o fod yn anghywir.

PEN. II.

EI NODWEDDIAD FEL ATHRAWES.

Yr oedd un nodwedd werthfawr iawn yn nghyfansoddiad ei meddwl, sef amcan penodol yn mhob peth a gymerai mewn llaw, a phenderfyniad diysgog i gyrhaedd yr amcan hwnw. Crybwyllwyd eisoes, mewn rhan arall o'r bywgraffiad, ei bod, er yn ieuanc, yn awyddus i fod yn athrawes; penderfynodd fod, ac ni lwfrhaodd er methu fwy nag unwaith. Ar yr 22ain o fis Mawrth, 1847, cychwynodd i Lundain, i Goleg Ysgolion Brytanaidd a Thramor, a derbyniwyd hi yn groesawus fel ereill i'r dosbarth isaf; ond yn fuan

iawn, symudwyd hi i'r dosbarth uchaf, yn yr hwn am gryn amser cyn ymadael, y llanwodd le y *Senior Student*, sef i gymeryd gofal dysgu y dosbarth pan y dygwyddai y brif athrawes fod yn absenol. Canfyddir oddiwrth y llythyr canlynol, ei bod yn sefyll yn uchel yn y sefydliad hwnw :

“British & Foreign School Society,
Female Department; Oct. 11, 1847.”

“Madam :

“In answer to your enquiries respecting Miss Jones, I beg leave to state that your application for a teacher was laid before the Ladies' Committee, and they appointed Miss Jones, considering her the most efficient and suitable person to undertake the duties of your school. They have seen no cause for altering their opinion ; but on the contrary, have continued evidence that she will prove a very satisfactory teacher. She understands * * * and is well acquainted with all kinds of needle-work ; and is, in every respect, fully qualified for training girls for useful stations in life. She is fond of children, and has a pleasing method of communicating knowledge ; she is much esteemed here by both children and teachers, and they will all regret parting with her.

“I am, Madam,

“Yours very respectfully,

“ANNE ELIZA MACRAE,

“Superintendent, Female Department.”

Mewn llythyr a gafodd yr ysgrifenydd, ar dderbyniad y newydd o'i marwolaeth yn y Coleg Normalaidd yn Llundain, y mae Mrs. MacRae yn crybwyll iddi adael y sefydliad gyda thystebau uchel fel Athrawes ac fel Cristion.

Yn ei dyddlyfr, cawn ddesgrifiad manwl o'r dull y treuliodd bob diwrnod yn ystod ei harosiad yn y brif ddinas, ac yn eu plith, teimlai yr ysgrifenydd y cofnodiad canlynol, ac aml un o'r un natur yn darawiadol iawn :

“August 15th. Introduced to a Mr. Edmunds, from Ruthin, who keeps the boys' school,” &c., &c.

Yr oedd ei hamcan hi hefyd nid yn unig i fod yn

Athrawes, ond i fod yn Athrawes yn Nghymru. Nid oedd dim a allai ysgogi ei meddwl oddiwrth Gymru. Pan gafwyd allan ei galluoedd meddyliol, a'i chymwysder i'r swydd o Athrawes, dywedwyd wrthi gan Athrawon y Coleg Normalaidd, y gallai gael Ysgol dda yn rhai o brif drefydd Lloegr. Atebodd yn union, mai i fod yn Athrawes yn Nghymru y daeth hi yno, ac nad â'i hi i un lle arall. Byddai yr Athrawon, yn enwedig Mr. S., yn ymgomio â hi yn aml yn nghylch ei *local inspiration* i Gymru, ac yn ei chyfarch wrth yr enw, "*Welsh girl of the right stamp.*" Pan ddaeth ei hamser i fyny, cynygiwyd iddi le gwych yn Lloegr, ond parhaodd yn ddiysgog yn ei phenderfyniad yr â'i hi i unrhyw ran o Gymru, ond nid i unman arall. Yn y penillion canlynol, y mae yn datgan ei theimladau cenedlaethol yn dra grymus:

THE LAND OF MY BIRTH.

DEAR Cambria! I love thee, thy vales and thy mountains,
 For beauty and grandeur proclaim thee their home;
 Whilst thy dark flowing streams, and thy crystalized fountains,
 O'er thy fertilized bosom rush, sparkling with foam :
 But lovelier than all are thy beautiful daughters,
 Whose smiles are like sunbeams that gladden the earth,—
 Those forms are more fair than the nymphs of the waters,
 They bless and adorn thee, loved land of my birth.

Dear Cambria! I love thee, the home of my fathers,
 Whom liberty honored as chiefs in her cause,
 Though hoary destruction now silently gathers
 Around the grey relics that speak their applause ;
 And sympathy raises, with tears of affection,
 A lasting memorial of infinite worth,
 To those who to shelter from sword and subjection,
 E'en dying defended thee, land of my birth.

Dear Cambria! I love thee, long famed in thy glory,
 And forthcoming ages shall cherish thy fame;
 The deeds of thy heroes, unrivalled in story,
 With trophies immortal now blazon thy name:

No more may the blast of war's trumpet sound o'er thee—
 Be thy battle-hymns changed for the accents of mirth;
 May the song of the bard ne'er have cause to deplore thee—
 But peace ever smile on thee, land of my birth!

Yn mis Hydref, fel y cyfeiria y llythyr uchod, penodwyd hi i fyned yn Athrawes i Ruthyn, Sir Ddinbych. Dechreuodd ei gwaith gydag egni a medrusrwydd mawr. Yr oedd ei phrydlondeb a'i threfn, yn gystal a'i deheurwydd i gyfranu addysg, yn dra rhagorol, ac yn wir deilwng o efelychiad. Ond o'r cychwyn cyntaf, dangosodd amcan uwch na chyfranu addysg fydol—gwelai ddyledsdydd fawr tu draw i hyny; mewn cyfeiriad at ba un y dywedai wrth un o'i chyfeillion wrth ymadael a'r lle, fod ei chydwybod yn dawel, fod pob plentyn fu tan ei gofal wedi clywed digon ganddi am drefn yr efengyl i fod yn gadwedig, pe buasai heb glywed gair gan neb arall. Da pe byddai teimlad o'r un natur yn dylanwadu yn ddwfn ar feddwl pob athraw, mewn Ysgolion dyddiol a Sabbothol.

Ionawr 30ain, 1849, symudodd o Ruthyn i gychwyn yr Ysgol Frytanaidd yn Mangor. Am chwe' blynedd, llafuriodd yn ddiwyd yno, a chyrrhaeddodd fesur helaeth o lwyddiant, a mawr oedd y cwyno ar ei hol pan luddiwyd iddi gan afiechyd i barhau.

Yn Rhagfyr, 1849, llwyddodd i enill *certificate* oddiwrth y Llywodraeth fel Ysgolfeistres, er ei bod ar y pryd tan anfantais fawr, wedi bod yn gorwedd am rai wythnosau tan afiechyd trwm.

Yn ei dyddlyfr, am yr 8fed o Awst, 1850, cawn y cofnodiad canlynol:—"Diwrnod pwysig, fe'm priodwyd heddyw; bydded i ni gael bod mewn gwirionedd o nifer dysgyblion yr Arglwydd," &c. Cymerodd hyn le yn Aberayron, Sir Aberteifi, yn nhy ei hen fam dduwiol a serchog. Gweinyddwyd y rhan grefyddol o'r gwasanaeth, gan y Parch. Robert Owen, Rhyl, pan ar ei gyhoeddiad trwy y Deheudir. Yr oedd yn hoff dros ben o'r gwaith o

gadw Ysgol, ac un o'r arteithiau fu'n poeni fwyaf ar ei meddwl yn nechreuad ei hafiechyd, oedd ofn fod ei hoes fel Athrawes wedi dyfod i ben; a bu am hir amser yn gobeithio y cryfhai i'r fath raddau fel ag i fedru cadw Ysgol fechan yn ei thŷ ei hun, os na fyddai yn ddigon cryf i gadw yr Ysgol Frytanaidd. Rhoddaf yma lythyr a ysgrifenyddwyd gan un o'i hen ysgolheigion, yr hon a fu am lawer o flynyddoedd tan ei gofal, yn gyntaf fel dysgybles, ac wedi hyny fel Is-athrawes (*pupil teacher*):

"Mai Iaf, 1858."

"Anwyl Syr:

"Yr wyf yn cydymdeimlo â chwi yn fawr yn y golled a gawsoch trwy farwolaeth anwyl Mrs. Edmunds. Rhaid fod y brofedigaeth yn chwerw i chwi, pan y mae ei chyfeillion, a'i hen ysgolheigion yn teimlo cymaint oddiwrthi. Gallaf sicrhau i chwi y bydd i mi feddwl am dani byth, gyda'r adgofion mwyaf serchog, yn nghyda galar, wrth feddwl fod un oedd wedi ymroddi mor llwyr i wneuthur daioni, wedi ei symud mor fuan o dir y rhai byw. Fel Athrawes, ni wybum I am neb o'i chyffelyb. Y fath ddifrifwch a phryder a ddangosai bob amser wrth ofalu am nodweddiad moesol, ac ymddygiadau y plant yn yr Ysgol. Pan ddeallai fod un o honynt wedi dweyd anwiredd, y fath boen a gymerai i ddangos i'r cyfryw, ganlyniadau yr ymddygiad, yn y byd hwn, a'r byd a ddaw. Yr oedd yn arferiad ganddi ddarllen penod o'r Beibl bob boreu yn nghlyw yr holl Ysgol, ac wedi eglurhau yr hyn a ddarllenid, holai ni am ei chynwysiad. Detholai ei thestynau o hanes Cain ac Abel, y Mab Afradlon, Ananias a Saphira, &c., &c.; ac ymdrechai yn galed i wasgu y wers ar ein meddyliau ieuainc. Yr oedd serch y plant tuag ati yn annesgrifadwy. Yr wyf yn cofio yn dda pan unwaith y bu am wythnos yn glaf iawn, yn methu dyfod atom, fod yr holl ysgol yn cydymdeimlo a hi i'r fath raddau, fel nad oedd un gradd o anhawsdra i'n cadw yn berffaith lonydd. Yr oedd ei phryder a'i hawyddfryd am lwyddiant yr is-athrawon (*pupil teachers*), tra yr oeddent tan ei gofal, ac wedi hyny, yn anarferol. Yr oedd yn gyfeilles gywir iddynt, ac yn mhob amgylchiad yn barod i'w cynghori. Nid annghofiaf byth y fath dawelwch a ddygodd ei hymddyddanion cysurlawn, a'i chydymdeimlad caruaid, i fy ysbyrd tralodedig I, pan mewn gofid mawr yn nghylch perthynas agos oedd mewn gwlad estronol yn glaf. Mor ddifrifol y dymunai arnaf i ymddiried y cwbl yn llaw yr Arglwydd, gan

sicrhau y byddai i bob peth droi allan yn dda yn y diwedd,— ychwanegai hefyd—“y mae yn rhyw beth tuag at eich cysuro, i chwi wybod fod genych gyfeillion sydd yn gweddio drosoch eich dau.” Yr oedd bob amser yn siriol, pa faint bynag fyddai ei phoenau. Nid amheuoedd neb o honom erioed nad oedd ei chrefydd yn dda a dysglaer. Yr wyf fi yn credu na bydd i neb, oddieithr chwi a'r teulu, deimlo y golled ar ei hol yn fwy na myfi. Mewn gwirionedd, ni chyfarfyddais â hi un amser, na chefais ryw addysg oddiwrth ei hagwedd a'i hymddyddanion; ac yn gyffredin, ar ol y cyfarchiad arferol, gofynai, ‘*Well, what good have you been doing.*’ ‘Wel, pa ddaiioni ydych wedi bod yn ei wneuthur?’ * * *

“Yr eiddoch, &c.,

“M. ELLIS.”

PEN. III.

EI SYNIAD AM ADDYSG Y RHYW FENYWAIDD.

OND dechreu, canol, a diwedd, ei huchelgais hi, oedd bod yn offerynol i ddysgu a llesâu y rhyw fenywaidd, y rhai a farnai oedd yn cael cam mawr oddiar law y wlad. Byddai yn haws ei hargyhoeddi fod goleuni y lleuad yn rhagori ar eiddo yr haul, na pheri iddi gredu fod cyneddfau y rhyw fenywaidd yn wanach mewn un gradd na'r eiddo y rhyw arall. Priodolai y gwahaniaeth sydd mewn rhai amgylchiadau i'w ganfod rhyngddynt i'r dull maswaidd y bydd y rhyw fenywaidd yn cael eu haddysgu. Credai bob amser, pe caent eu harfer o'r dechreu i ymdrechu amgyffred pethau dyrys a dyfnion, y cryfhai eu meddyliau yn gyfatebol, ac y byddent yn ogyfawch a'r rhyw arall yn mhob peth, ac mewn rhai pethau yn rhagori. Dywedai ei bod yn rhy hysbys o'r dull arwynebol y bydd merched yn gyffredin yn cael eu dysgu mewn *Boarding Schools*; iddi hi gael ei hyfforddi yn un o'r rhai goreu o honynt, ac mai trwy iddi benderfynu esgeuluso amryw o'r *accomplishments* sydd yn

gyffredin yn cymeryd i fyny fwy na haner eu hamser, a mwy na naw rhan o bob deg o'u chwaeth, ac ymwroli i ddarllen ac astudio ar ei phen ei hun, y cyrhaeddodd hi y rhan fwyaf o lawer o'r ychydig wybodaeth oedd ganddi. Ac er mwyn profi ei phwnc am alluoedd ei chydryw, cynygiodd y cái y dosbarth uchaf o'r merched tan ei gofal, ymgystadlu â'r dosbarth uchaf o'r bechgyn yn yr ysgol arall, unwaith bob chwech wythnos, yn yr holl wersi y byddent wedi bod yn efrydu yn ystod yr amser hwnw; ac y mae yn deg addef, ar ol yr ymdrechfeydd mwyaf egniol o bob tu am amryw flynyddoedd i gyraedd y fuddugoliaeth, fod y merched yn sefyll eu tir yn hynod o lwyddianus, yn aml yn rhagori mewn llawer o bethau, ac nid un amser yn mhell islaw y nod. Ond, hwyrach, mai y gwirionedd yw hyn, er nad yw eu meddyliau yn wanach na'r eiddo y rhyw arall, ond gan eu bod yn gyffredin yn wanach eu gewynau (*nerves*), eu bod yn dueddol i laesu mewn egni a dyfalbarhad. Credai hi yn ddiysgog mai y diffyg mwyaf sydd i'w ganfod yn y gymdeithas ddynol, yw diffyg dylanwad priodol y fam—y fam wedi ei haddysgu yn briodol—y fam wedi diwyllio ei meddwl, a'i ystôrio â gwybodaeth, ac wedi ei gwreiddio mewn moesoldeb crefyddol. Ysgrifennodd lawer ar wahanol amserau ar y pwnc dyddorol hwn; y mae ger ein bron gopi o ddau bapyr wedi eu hysgrifenu yn y flwyddyn 1839, a ddanfonwyd ganddi, tebygir, i ryw gyhoeddiad misol, tan y ffug-enw "Mara," ar ddylanwad y rhyw fenywaidd, ond sydd yn rhy faith i derfynau y cofiant hwn. Nid oedd yn blino dadleu y pwnc hwn, canys ni a'i cawn yn mis Tachwedd diweddfaf yn ymosod gydag egni i ysgrifenu ar y testyn, "Mam Rinweddol," yn nghystadlueaeth Ysgolion Sabbothol Bangor. A chan y tybiwn y gall y traethawd fod o ddefnydd, rhoddwn ef ger bron y darllenydd.

PEN. IV.

Y TRAETHODAU.

AR ddymuniad ei chyfeillion, cydsyniodd i ddanfon y Traethodau at wasanaeth Golygydd y *Drysorfa*; ond ar ol ei hymadawiad, tueddwyd ni yn hytrach i'w hargraffu yn y bywgraffiad; ac fel rhagdraeth i'r cyfryw, rhoddwn yma y llythyr canlynol o eiddo y Golygydd:

"Mold, Mehefin 17, 1858."

"Anwyl gyfaill:

"Drwg genyf fod mor hir fel hyn heb anfon yn ol i chwi draethodau eich diweddar anwyl gymhares. Yr oeddwn yn llwyr feddwl eu cyhoeddi yn y *Drysorfa*, ond gan eich bod am gyhoeddi Cofiant, mewn un llyfryn, o'ch diweddar deilwng wraig, gwell fydd eu cyhoeddi yno.

"Yr oedd Mrs. Edmunds yn wir yn haeddol o'r cofnodiaid mwyaf parchus a chyhoeddus yn mysg ei chenedl. Yr oedd ei chrefydd yn un amlwg a diffuant, ei meddwl yn ddysglaer, ei chwaeth yn goethedig, a'i defnyddioldeb yn ei chylech yn fawr ac eang. Cyrhaeddodd radd dda "mam yn Israel;" ac yr oedd yn ei rhinweddau a'i hymarferiadau daionus, yn gynllun i'w hystlen yn gyffredinol. Y nos Sabboth y cefais y fraint o sefyll wrth ei gwely angeu, sydd adeg nas gallaf yn hawdd ei hannghofio. Datganai ei gobaith diysgog yn Nuw mewn Cyfryngwr, ac edrychai yn ngwyneb angeu gyda "thangnefedd gan gredu;" nes yr oeddwn yn edrych ar ei hystafell fel daear sanctaidd.

"Gan ddymuno nawdd a bendith y Duw Holddigonol arnoch chwi a'ch rhai bach,

"Ydwyf, anwyl gyfaill,

"Yr eiddoch yn ddiffuant,

"ROGER EDWARDS."

"Mr. Edmunds."

MAM RINWEDDOL.

(*Traethawd buddugol.*)

Os ydwyf yn deall fy nhestyn yn iawn, yr ydwyf i ddesgrifio

“mam rinweddol”—i dynu ardeb o houi—fel y gallo pawb a edrycho arni, ei hoffi, ac ymdrechu ei hefelychu. Ond pwy a gaf i eistedd am y llun? Pa le y caf un ddigon rhinweddol? Clywsom lawer am Nonna, mam yr enwog Gregory Nazianzen—Anthusa, mam Chrysostom—ac yn enwedig am Monica, mam Awstin; pa rai oedd enwog am eu duwioldeb, eu ffydd, a’u gweddïau dros eu plant. Ond awn yn hytrach “at y gair ac at y dystiolaeth,” canys yno y ceir prydfferthion nad ydynt i’w cael mewn un man arall; ac oddiyno y cymerodd y rhai a soniasom o’r blaen eu cynllun.

Wrth sylwi ar y Gyfrol Sanctaidd, gwelwn bod yn rhaid i “fam rinweddol” fod fel Hannah, mam Samuel, yn gweddïo dros ei phlentyn cyn ei ddyfod i’r byd. “Am y bachgen hwn y gweddïais;” ac hefyd yn ei gyflwyno ef i’r Arglwydd, (trwy fedydd)—“Minau hefyd a’i rhoddais ef i’r Arglwydd; yr holl ddyddïau y byddo efe byw, y rhoddwyd ef i’r Arglwydd.” Nid oes neb ond mam dduwiol a wna hyn yn iawn. Y mae Duw yn dywedyd wrth bob mam, “Mâg ef i mi, a minau a roddaf i ti dy gyflog;” ac, yn wir, nid cyflog bychan yw cael y peth bach tîws i’w ymgeleddu, a chael yr anrhydedd o feithrin ei enaid anfarwol.

Fel Jochebed, mam Moses, dylai wneyd y cwbl a all i’w ddyogelu yn ei febyd rhag peryglon babandod,—

“Pob corsen o’i gawell a gweddi gydbethodd;”

felly y “fam rinweddol,” dylai ofalu am fwydydd maethlon, dillad clydion, ond yn benaf, ar fod yr enaid bychan sydd wedi ei *lapio* yn y dillad yn cael ei ymgeleddu; ac ar y gorhwyl hwn, nis gall ddechreu yn rhy gynar. Y mae y plentyn yn dysgu ei wers gyntaf yn hir cyn y meddylia y fam ei rhoddi iddo; ffurfia feddyl-ddrychau yn mhell cyn y medr ffurfio geiriau. Sylwa ar w̄g a gwên y fam, ac edrycha yn ddirifol ar y cyntaf, ac yn ddirifwr pan wel yr olaf.

Pan ddechreua y plentyn dori geiriau, y mae pryder y “fam rinweddol” yn dwysau rhag iddo glywed iaith anweddaidd, canys gŵyr mor dueddol ydyw plentyn i fabwysiadu pob gair a glywo—nid oes modd i gau ei glustiau a’i lygaid rhag clywed a gweled drwg; ond ymdrecha ddysgu iddo “eiriau gwirionedd a sobrwydd,” llanw ei gof ag adnodau o’r Beibl, a gosoda o’i flaengymeriadau “plant da y Beibl,” fel y dysgo eu hoffi. Y mae y Gair Dwyfol wedi ei fritho â’r cyfryw; ac nid oes un plentyn a glyw yn ddigyffro hanes Abel, Moses, Joseph, Dafydd, Daniel, y tri llanc, &c., yn yr Hen Destament, a hanes Iesu Grist, Ioan, Timotheus, &c., yn y Newydd. Hefyd, os clywch hwynt yn son pan o dair i chwech oed, am fyned yn “genadon,” yn debyg i Williams, Moffat, neu Livingstone; ac yn eu chwaraeuyddiaethau yn efelychu cyfarfodydd gweddïo,

areithio dirwest, &c., na ddirmygwch y teimladau sydd yn eu hyagogi at hyn, ond "diolchwch i Dduw, a chymerwch gysur."

Pan dyfo y plentyn yn llanc, dylai y "fam rinweddol" fod fel mam Lemuel, yn gweled pa brofedigaethau fydd yn fwyaf parod i'w amgylchu, a chyngori llawer arno yn eu oylch. Dylai ddywedyd wrtho mai "gwagedd yw mebyd ac ieuencyd,"—nad yw plerau cnawdol i fod yn amcan iddo—nad oes neb i fyw iddo ei hun—dengys iddo fod byd cyfan yn gorwedd mewn drygioni, ac mai ei ddyledswydd a'i fraint oruchel, ydyw bod yn "halen y ddaear," yn "ddinas ar fryn," yn "cynal gair y bywyd" fel yr unig feddyginiaeth i fyd colledig—canmola wrtho bob cymdeithas ddyngarol, megys y Gymdeithas Feiblaidd, Genadol, a Dirwestol—cefnoga ef i roddi at bob achos da, a hyny o'i *eiddo ei hun*, fel y dysgo yn foreu wneyd *aberth* dros grefydd.

Ond yn benaf, bydd y "fam rinweddol" fel y gwagedd duwiol hyny, Eunice a Lois, yn addysgu eu plant, ac yn eu meithrin yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Gwyddom y fath gymeriad anrhydeddus y buont yn offerynau i'w fuffio yn Timotheus, a pha fam na hiraetha am i'w phlentyn ymdebygu iddo? Ond cael mamau o'r fath hyn, nid oes perygl i ni fod yn ymddifad o "weinidogion cymwys y Testament Newydd;" canys y mae yr Arglwydd yn addaw gwobrwyo llafur â llwyddiant, ac yn cyhoeddi "Gwyn fyd" ar "y rhai a hauant gerllaw pob dyfroedd." Os rhaid "hau mewn dagrau," ceir "medi mewu gorfoledd." Llauer mam yn Nghymru sydd fel Monica, yn gweddio yn hir heb arwydd o lwyddiant, ond gallant fod yn sicr "na chollir plentyn cynifer o weddiau." "Canys yn ei iawn bryd y medwn, oni ddiffygiwn."

Os, o'r tu arall, y gelwir arnom roddi y benthg yn ol, gallwn wylo, ac eto ddywedyd, "Och fi, fy meist, canys benthg oedd." Fel y Sunamees hōno, os geilw yr Arglwydd a'n ein hanwylion cyn cyrhaedd braidd oedran llanc, dywedwn, "Y mae pob peth yn dda," ac awn at y Prophwyd mawr; os na lwyddwn i gael y bychan yn fyw, cawn ddyysg ymostwng o'i flaen, a diolch iddo am gael y fraint o'i dywys i'r nefoedd, i'e, diolch am fod ein hoffus un wedi dianc am byth oddiwrth beryglon yr anialwch, a chael bod yn etifedd o deyrnas anlygredig.

"Oh! when a mother meets on high
The babe she lost in infancy,
Hath she not then for pains and fears,
The day of woe, the watchful night,
For all her sorrow, all her tears,
An over-payment of delight?"

Famau Cymru, a ydych yn hoffi llun y "fam rinweddol?"
Er mor arwynebol y tynwyd y llinellau, bydded i chwi eu

llenwi i fyny, ac efelychu yn eich uchelgais fam meibion Zebedeus; ewch at yr Iesu ar ran eich plant, i ofyn "cael o honynt eistedd gydag ef yn ei freniniaeth." Ni ddirmyga efe eich cais, ond caniatâ eich deisyfiad, gan ddywedyd, "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi, ac na waherddwch hwynt; canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

MAM BRYDERUS.

Ysgrifenodd hefyd, yn yr un gystadleuaeth, ar y testyn "Gwyleidd-dra." Barnwyd y traethawd hwn hefyd y goreu. Tueddir ni i feddwl y gall fod sylwadau yn y traethawd hwn eto o wir werth, ac ynddynt duedd i lesâu y rhai y maent wedi eu bwriadu iddynt; gan hyny, ychwanegwn hwn eto.

G W Y L E I D D - D R A .

(*Traethawd buddugol.*)

Y DARNODIAD goreu a fedrwn roddi ar y testyn yw yr un canlynol—"Gwyleidd-dra ydyw y dymher ostyngedig hono sydd yn dilyn, ac yn tarddu oddiar, iawn syniad am ein galluoedd a'n pwysigrwydd ein hunain. Mewn ieuentyd, y mae y rhinwedd hwn yn ymylu ar yswildod ac ofnusrwydd; mewn personau wedi dyfod i gydnabyddiaeth â'r byd, tardda yn llawn cymaint oddiar egwyddor ag oddiar deimlad—yn rhoddi i ereill bob paroh ac anrhydedd dyledus iddynt. Yn y rhyw fenywaidd, y mae gwyleidd-dra yn gyfystyr a diweirdeb (*chastity*), neu burdeb ymddygiad. Gwyleidd-dra diragrith yw yr harddwch mwyaf prydferth yn mhliith holl ragoriaethau y rhyw fenywaidd, a'r perl gwerthfawrocaf yn nghoron eu hanrhydedd." At hyn ychwanegwn, mai rhyw harddwch ydyw, ag y mae Awdwr natur wedi ei roddi ar ferch, er dyogelwch yn gystal a phrydferthwch iddi. Yr arwyddlun goreu o ferch wylaidd ydyw y blodeuyn hwnw a elwir *moss rose*—y mae natur wedi tynu gorchudd megys, dros ei wyneb. Y mae pawb yn synu at ei harddwch; ond os eir i wneyd yn rhy eofn arno, teimlir fod yno ddraen i'w ddyogeluh rhag y cyffyrddiad trwsgl. Nid oes un rinwedd a ganmolir yn fwy gan brydyddion, hen a diweddar, na gwyleidd-dra; ac y mae aml un o honynt wedi llwyddo i'w ddesgrifio yn dra chywir, yn enwedig Milton, yn ei *Goll Gwynfa*, dan y cymeriad o Efa; ac os bydd neb o'm cyfeillesau yn teimlo awydd i'w hefelychu, dylent gofio mai gwir wyleidd-dra, ac nid ei rith, a ddesgrifir yno—(canys nid oes dim hardd mewn natur na theimlir awydd i'w

ffugio). Ond er mwyn dangos tlyzni y rhinwedd hwn, ymdrechwn ei osod allan fel yr ymddengys mewn gwisgiad, mewn ymddygiad, ac mewn ymddyddanion a chyfeillaohau.

1. *Gwisgiad gwylaidd.* Gwyddom yn dda am y gwahanol farnau sydd gan lawer am y dull o wisgo yn y dyddiau presenol. Y mae yn sicr fod llawer o bethau nad ellir eu hamddiffyn yn y ffurfiau a ddylunir, ond, a'u cymeryd ar y cyfan, nis gallwn farnu eu bod yn croesi cymaint ar reolau gwyleidd-dra ag ydoedd dulliau yr oesoedd a aethant heibio; canys yr ydym yn cael fod eithafion hynod yn mhob oes. Ond os gwyleidd-dra fydd rheol ein gwisgiad, bydd pob hynodrwydd a phob peth a duedda i dynu sylw yn cael ei ochel. Bydd y penguwch (*bonnet*) yn sefyll ar y pen (ei le priodol), ac nid ar yr ysgwydd; y gŵn yn gymedrol o ran laesder ac amgylchedd; ac yn ol yr un rheol, gwrthodir y lliwiau mwyaf anlwg, a dewisir rhai llai eu hynodrwydd. Ni theimlir awydd am fod yn gyr taf i ddilyn y *ffashiwn*, neu yn olaf chwaith, wedi yr elo yn gyffredin.

2. *Ymddygiad gwylaidd.* Nid oes rhaid i ni fod fel y *sensitive plant* yn crebychu ei ddail wrth y cyffyrddiad lleiaf. Peth poenus iawn ydyw gweled merch ieuanc mewn cwmpeini yn gostwng pen, a gwrido hyd y ddwy glust, wrth geisio ateb y gofyniad mwyaf dibwys; nid gwyleidd-dra yw hyny, ond hurtrwydd, a dylai ymdrechu ymysgwyd o hŏno. Ond y mae hyn yn fwy goddefol na'r ymddygiad hŷf a haerllug a welir mewn llawer o ferched y dyddiau hyn. Ymddangosant fel pe baent yn gwneyd pob peth er mwyn cael eu gweled gan ddynion. Os ânt i'r eglwys, i'r capel, neu i'r ddarlith, gofalent fod yr holl gynulleidfa yno o'u blaen, gwnant eu ffordd yn mlaen i'r man mwyaf cyhoeddus, ac, ond odid, ânt allan ryw fynyddau cyn diwedd y cyfarfod, a hyn oll er mwyn tynu sylw pawb atynt. Nid rhaid dyweyd fod ymddygiad o'r fath yn anwedd-aidd hollol, ac yn gwbl groes i wyleidd-dra. Bydd ereill o'r un tylwyth yn rhy wylaidd, meddant, i adrodd adnod neu ddwy o'r Beibl, ac ateb gofyniadau yn yr Ysgol Sabbothol, neu yn y cyfarfod eglwysig; ond yn gyffredin, eu lleisiau hwy a glywir yn uchaf mewn cwmpeini ac yn y tŷ gartref. Rhydd y prophwyd ddesgrifiad cywir o honynt yn eu dull o rodio. "Rhodiant â gwddf estynedig, ac â llygaid gwamal, gan rodio a rhygyngu wrth gerdded, a thrustio â'u traed." Cyfeiriaf y cyfryw at y rheol o weddeidd-dra, fel ei gosodir allan gan Paul a Phedr. "Yr un modd hefyd, bod i'r gwragedd eu trefnu eu hunain mewn dillad gweddus, gyda gwlyder a sobrwydd; nid â gwallt plethedig, neu aur, neu emau, neu ddillad gwerthfawr, ond yr hyn sydd yn gweddu i wragedd a fo yn proffesu duwioldeb a gweithredoedd da." "Trwsiad y rhai bydded nid yr un oddi allan, o blethiad gwallt, ac

amgylch-osodiad aur, neu wisgiad dillad; eithr bydded cuddiedig ddyw y galon, mewn anllygredigaeth ysbryd addfwyn a llonydd, yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr." Er mor hardd ydyw y rhinwedd hwn, nid peth hardd ydyw ei ffugio. Pan ofynir i ambell un ddyweyd neu wneyd unrhyw beth, megys canu, neu chwareu cerddoriaeth, &c., i foddio ei chymdeithion, ateba yn y modd mwyaf pendant na wna, ac nas gall feddwl am wneyd y fath beth; ond siomir hi yn fawr os cymerir hi ar ei gair. Mursendod yw hyn, a ffug-wyleidd-dra.

3. *Ymddyddanion gwylaidd.* Tan y pen hwn eto, hawddach yw dangos y troseddau yn erbyn gwyleidd-dra, na'r rhinwedd ei hun. Nid gwyleidd-dra ydyw cymeryd y blaen mewn siarad, os bydd yno rai yn hŷn, neu yn fwy profiadol—na fyddwn y cynaf yn siarad, na'r hwyaf ein haraeth. Os gofynir ein barn ar ryw bwnc, atebwn mewn ychydig eiriau, ac at y pwrpas. Ond os bydd cyfaill yn cael cam yn ei absenoldeb, amddiffynwn ef, er i hyny dynu pob llygaid yn y fan arnom. Os bydd rhyw un yn ddigon hyf i wneyd gwawd o grefydd neu grefyddwyr yn ein clyw, cofiwn mai ein dyledswydd y pryd hyny yw ei argyhoeddi a'i geryddu yn llym. Pe clywem, hyd yn nod un o ddylanwad uchel yn esgusodi beiau y boneddigion, neu yn rhoddi enwau tyner ar bechodau, na fyddwn yn rhy wylaidd i siarad yn hyf o blaid y gwirionedd. Y tafod, medd un awdwr, ydyw cleddyf merch; ac yn mha achos y gellir ei arferyd yn fwy aurhydeddus nag mewn amddiffyn y gwirionedd, ac agor ein genau dros y mud? Ceir clywed bechgyn ieuainc, weithiau, yn ymfrostio o'u hymddygiadau gwael ac anfoneddigaidd tuag at un o'r rhyw arall. Y mae gwyleidd-dra yn peri i ni edrych arno gydag anfoddlonrwydd, a gwgu arno, nes gwneyd iddo deimlo ei iselder ei hun a'n purdeb mbesol ninau; tybiwyrf mai dyma y ddraen sydd i'n dyogelu, a phe arferid y cyfryw yn amlach, byddai ein cymeriad yn llawer uwch yn ngolwg y rhyw arall. Mor briodol oedd penderfyniad yr enwog Hannah More, yr hon a ddywed wrthym, iddi unwaith gael derbynriad croesawus mewn teulu o urddas, ond iddi benderfynu nad â'i yno byth rhagllaw, pan welodd y derbynriad a'r sirioldeb a ddaugosai merched ieuainc y teulu hwnw tuag at wr ieuanc oedd wedi troseddu yn erbyn rhinwedd a phurdeb moesol—pechodau, y rhai a fuasent yn cael eu hystyried y mwyaf gwarthus yn y rhyw arall, ac yn ddigon o reswm i'w hwtio o blith cymdeithas. Gwyleidd-dra ynom ni ydyw dangos na ddylai y pethau hyn fod felly. Nis gallwn roddi ein dylanwad o blaid dim sydd yn well nag o blaid rhinwedd, ac yn erbyn pob peth o duedd wahanol.

Hefyd, yn eich cymdeithas a'ch gilydd, meithrinwch deimlad o wyleidd-dra trwy beidio arfer geiriau a dueddant at ymadrodd ffol, gwag, a masw; gan ymwrthod hefyd a'r pynciau sydd

yn arwain i'r cyfryw; gallwch fod yn rhydd ac yn siriol, heb fod yn ffuantus a rhodresgar; gallwch arfer eich arabedd, ond nid ar draul eich gwyleidd-dra, na chwaith ar draul cymeriadau eich cymydogion. "Fel dyn gwallgofus a daflo bentewynion tân, saethau, ac arfau marwolaeth," yw yr hwn, neu yr hon, a enllibio ei gymydog, ac a ddywed, "Onid cellwair ydwyf?" Famau, a ydych chwi yn ddiuog yn hyn? Edrychwch pa beth, a pha fodd, y siaradwch o flaen eich plant; gwrandawyr astud iawn ydynt hwy, ie, pan na byddoch chwi yn meddwl eu bod yn eich clywed; a gwelir argraff eich siarad arnynt yn bur fuan.

Yn eich cyfeillachau rhagbarotöawl, na oddefwch na gair nag ystum a fyddo yn tueddu at anfoesgarwch. Gofelwch fod eich cyfeillachau mewn lleoedd, a chyda phersonau, priodol; gadawaf i'ch cydwybodau farnu, yn ol rheol Gair Duw, pa rai ydynt. Os bernwch yn addas wrthod cynygiad dyn ieuanc, na ddywedwch hyny wrth eich cyfeillesau; y mae hyn yn ymddygiad a gondemnrir gan bob merch o iawn deimlad, ac er ei fod yn beth tra chyffredin, y mae yn ddiffyg mawr o wyleidd-dra;—dylech, yn hytrach, feddwl yn barchus am y cyfryw, gan iddo ddangos y parch mwyaf i chwi trwy eich gwneyd yn wrthddrych ei ddewisiad. Diffyg gwyleidd-dra eto, ydyw cyfeillachu â mwy nag un ar yr un amser. Ystryw rhai merched yw cadw mwy nag un llinyn ar y bwa, fel y dywedant. Dangosant wrth hyn, nad oes ganddynt fawr o fri arnynt eu hunain, na nemawr o ymddiried yn yr ymgeiswyr am eu ffafr. Y cymeriad atgasaf mewn bodolaeth ydyw y peth a eilw y Sais yn *stirt*. Bum yn edrych y Geiriaduron am y gair Cymraeg, a chefais y geiriau gwrthun a ganlyn,— "Ffiloges, gwillf, mursogen, coegen dwyllodrus, penhoeden," &c. Gobeithio y gwna yr enwau annghynes hyn i'r cyfryw ffieiddio a newid eu hymddygiadau.

Yn ddiweddaf, pan y bydd i ddyn ieuanc o ymddiried a rhinwedd ofyn am eich serch, cofiwch nad gwyleidd-dra gwirionedd ydyw ei ateb yn hollol wahanol i'r hyn fyddwch yn deimlo; bydded eich ie chwi yn ie, a'ch nage yn nage, yn y mater hwn. Ac mewn atebiad i bersonau fyddont yn awyddus i wybod eich cyfrinach, gwyddoch yn hawdd pa fodd i ysgoi gofyniadau o'r fath; ond cofiwch nad oes ar wyleidd-dra eisieu cymorth anwiredd, nag oes, na thwyll ychwaith, trwy ddiffrio gwrthddrych eu serch, fel y gwna rhai. Gellid helaethu yn hawdd ar hyn, ond gweddus ydyw i minau gofio nad gwyleidd-dra ydyw myned yn rhy faith, a throeddau y rheolau a wnaed gan fy noethach I; gan hyny, terfynaf hyn o ysgrif yn "ngeiriau gwirionedd a sobrwydd." Yn ddiweddaf, fy chwior-ydd, "pa bethau bynag sydd wir, pa bethau bynag sydd onest, pa bethau bynag sydd gyfiawn, pa bethau bynag sydd bur,

pa bethau bynag sydd hawddgar, pa bethau bynag sydd ganmoladwy, od oes un rhinwedd, ac od oes dim clod, meddylwch am y pethau hyn."

BUGEILES GLAN MENAI.

Cyn terfynu ein nodiadau am dani a'i hysgrifau, tybiwn nad anfuiddiol fyddai coffhau fod un peth ynddi yn annhebyg i lawer o'i chwirydd crefyddol; sef na wnaeth y cyfnewidiad i'r sefyllfa briodasol, lareiddio dim ar ei hawydd i fod yn ddefnyddiol yn yr Ysgol Sabbothol nac yn y cylchoedd ereill y medrai fod yn ddefnyddiol ynddynt. Yr oedd "*I should be glad to be useful*" fel wedi ei gerfio ar ei chalon. Dywedai ein parchus ddiakon ymadawedig (y Capt. H. Owen) am dani, nad oedd efe yn gwybod pa faint o ddaioni a wnai pe bai ganddi gorff digon cryf. Nid gormodiaeth mewn un gradd fyddai dyweyd ei bod yn fyw i bob peth da,—Cymdeithas Ddirwestol, Cymdeithas Dorcas, Cyfarfodydd Canu, *Band of Hope*, Cystadleuaeth Ysgolion Sabbothol, &c., a gaent oll ynddi hi gyfeilles ffyddlon. Gwnai yr oll a allai er cynorthwyo y naill a'r llall, a theimlai ddyddordeb mawr yn eu llwyddiant. Bu am y rhan fwyaf o'i hoes yn ysgrifenydd i'r naill a'r llall o honynt, yn y gyfran a berthynai i'r merched; ac hyd yn nod yn ei chystudd a'i gwendid olaf, yr oedd yn llawn mor awyddus ag erioed am eu llwyddiant.

Oddiwrth y traethawd a ganlyn, canfyddir y medrai hebgor tipyn o amser wrth *fagu*, i gefnogi amcan da a osodwyd ar droed yn Ysgol Sabbothol Bangor, yn y flwyddyn 1853, i'r dyben o godi meibion a merched yr Ysgol, i ddechreu ysgrifenu eu meddyliau. O herwydd rhyw amgylehiadau, nis danfonodd ef i'r gystadleuaeth. Nid ydyw ond byr, ond y mae yn dra ysgrhythrol:

Y BERTHYNAS SYDD RHWNG LLAFUR A LLWYDDIANT.

“Yn mhob llafur y mae elw,” medd Solomon:—“Enaid y diwyd a wneir yn fras.” “Llaw y diesgeulus a deyrnasa. “Y neb a lafurio ei dir a gaiff ddigon o fara.” Iawn y gwyddai y gŵr doeth y gwirionedd hwn,—“nas gellir disgwyl am lwyddiant heb lafur.” Cydnabyddir yr egwyddor hon yn mhob oes, a gweithredir arni gan bawb gyda golwg ar bethau tymorol. Y mae yr arddwr yn aredig, y marchnatwr yn marchnata, y milwr yn ymladd, a'r bardd yn canu; hwyntwy yn wir am bethau daearol; ond gan fod llwyddiant crefyddol o uwch natur, dylai ein llafur gyda phethau crefyddol fod yn gyfatebol, yn fwy.

Y chwareuyddion ar fynydd Olympus-gynt, O! fel yr oeddent yn ymorchestu am goron o ddail; y milwr Rhufeinig, fel yr oedd yn ymladd er mwyn enill teyrnas i'w dywysog. Y mae teyrnas a choron yn nod i'ninau, a'r rhai hyny yn anniflanadwy. Y mae cwmwl o dystion yn britho'r Ysgrythyrau, ac yn dangos yn eglur nas gallwn ddisgwyl am lwyddiant heb lafur.

Trwy ymdrechu y cafodd Jacob y fendith—Josua a'r Israeliaid a ennillasant wlad Canaan. Sicrhawyd Dafydd yn y freniniaeth wedi iddo ddarostwng tŵr y Jebusiaid. Trwy weithio a brwydro ar unwaith, y gorphenodd yr Iuddewon yr ail Deml, er gwaethaf Tobiah a Sanbalat. Dan y Testament Newydd eto, trwy lafur a lludded, nos a dydd, y llanwodd yr Apostolion holl Asia â gair Duw. Dylynodd y Cristionogion cyntaf ol eu traed yn wyneb holl erledigaethau yr Ymerawdwyr Rhufeinig, dyoddefasant hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod, a choronwyd eu llafur â llwyddiant mawr, “hyd nes oedd gwaed y saint fel had i'r eglwys.”

Os deawn yn nes at ein cyfnod ni, edrychwn ar y diwygwyr Protestanaidd,—Luther, Calvin, Zuinglius, Knox, &c., pa faint o lafur yr oeddent yn myned trwyddo.—Y mae effaith eu llafur yn parhau hyd y dydd hwn. Os gwnawn son eto am Gymru a'i Diwygwyr, cawn Howell Harris, Rowlands Llan-geitho, Jones Llangan, a Charles o'r Bala. Iawn y gwelwn eu llafur wrth edrych ar agwedd ein gwlad y dyddiau yma, a'i chydmaru â'r hanes sydd genym am dani gan' mlynedd yn ol. Nid trwy gysgu y gwnaed y cyfnewidiad dedwydd, ond trwy hir ymdrech a llafur diflino. Ond y mae genym uwch esiampl i'w gosod o'n blaen na'r rhai a enwyd, sef Iesu, yr hwn a ddyoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid, fel y gwelai o lafur ei enaid, ac y cai ei ddiwallu.

Er ein calonogi i fyned yn mlaen mewn llafur, ystyriwn y sicrwydd sydd genym o lwyddiant.

“Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd, canys ti a’i cei ar ol llawer o ddyddiau.” “Canys yn ei iawn bryd y medwn, oni ddiffygiwn.”

“Am hyny, fy mrodyr anwyl, byddwch sier a diymmod, a helaethion yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, a chwi yn gwybod nad yw eich llafur yn ofer yn yr Arglwydd.”

PUM’ MUNUD WRTH FAGU.

PEN. V.

EI CHYSTUDD.

“Llwybr cwbl groes i natur, yw fy llafur yn y byd, Etto gwnaf ei deithio’n dawl, ond im’ gael dy wyneb-pryd; Codi’r groes a’i chyfri’n goron, mewn gorthrymder llawen fyw, Ffordd unionaf, er mor arw, i ddinas gyfaneddol yw.”—A. G.

YR oedd llawer o bethau hynod a rhagorol yn mywyd fy anwyl wraig ymadawedig cyn i mi erioed ddyfod yn adnabyddus o honi, ac ni bu yr hynodion hyny ddim yn llai mewn un modd, yn ystod y deng mlynedd y cefais I y fraint o fod yn ei chymdeithas; ond credaf mai y pedair blynedd olaf o’i hoes oedd y rhai mwyaf dyddorol, ac yn enwedig felly pan olrheiniwn oruchwyliaethau yr Arglwydd tuag ati, er mwyn gorphen y gwaith da, a’i pharotoi i ogoniant. Hynod mor ddesgrifiadol o honi, ar yr adeg hon o’i bywyd, y canodd Anne Griffiths y penill uchod. Nid ydyw yr Arglwydd yn cyrchu neb o’i blant adref, heb yn gyntaf ryddhau eu serchiadau oddiwrth y pethau a welir. Amrywiol iawn yw y moddion a arfera tuag at ddwyn y gwaith hwn i ben—weithiau profedigaethau llymion, pryd arall hir gystudd, ac yn aml peri maldod a gwywdod ar eu teganau mwyaf anwyl, neu groesi yn hollol eu tueddiadau cryfaf; ond “y mae ganddo ef lawer o’r fath bethau,” y rhai bob amser sydd yn cyraedd

yr amcan mawr. Fel y soniwyd eisoes nid oedd neb yn mwynhau bywyd yn fwy na hi—yr oedd yn hynod o ddedwydd yn ei theulu; yn mwynhau natur i berffeithrwydd. Yr oedd rhoddi tro allan i blith rhyfeddodau y greadigaeth yn hyfrydwch dros ben iddi. Yr oedd hefyd yn naturiol yn un hynod o *annibynol* ei meddwl; ni fynai roddi y drafferth leiaf i neb; yr oedd yn llawn o gynlluniau, ac yn frwdfrydig iawn am eu gweithio allan, a hyny yn ddiwed; ond yr oedd yn y bwriadau mawr ei harwain ar hyd ffordd arall, “ffordd unionaf er mor arw;” ffordd a fyddai yn sicr o groesi yr holl dueddiadau hyn er mor gryf oeddynt, a hyny yn y pen draw i’w dysgu yn yr hen wers, “Rhoddwch eich serch ar y pethau sydd uchod, nid ar y pethau sydd ar y ddaear.” Y llwybr rhyfedd a gymerodd yr Arglwydd i’r pwrpas hwnw oedd, ei gadael i oedi yn nychlyd am bedair blynedd, tan afiechyd a elwir clefyd y galon (*disease of the heart*). Nid yw y clefyd hwn yn lladd dim ar fywiogrwydd y cyfansoddiad, nac yn tueddu i farweiddio un gradd ar egni y gewynau, ond yn gosod y corff mewn cyffion fel nad all, ac na faidd y cyfryw braidd ysgogi i osod amcanion brwdfrydig y meddwl mewn gweithrediad; ac y mae hyd yn nod pryder y meddwl yn wrtaith cryf i’r afiechyd; felly y mae yr afiechyd yn creu pryder, a’r pryder yn cynyddu yr afiechyd. Rhaid i’r llwybr o hyn allan fod yn “llwybr cwbl groes i natur.” Er nad oes ond ychydig o boen i’w deimlo, rhaid eistedd, neu yn hytrach orwedd, yn berffaith lonydd. Mynych y clywid hi yn dywedyd, ei bod yn teimlo ei meddwl mor fywiog ag erioed, ac yn llawn awydd i gyflawni gwahanol ddyledswyddau mewn cysylltiad â’r bywyd hwn, yn gystal a chrefydd; ac er yn aml ormesu ar y rhyddid a ganiateid iddi gan y meddyg, a dyoddef llawer o’r herwydd, o’r diwedd dechreuodd *ildio* a boddloni i’r drefn,

gan ddywedyd—"Pe bawn ond cael myned i'r capel byddwn yn hollol dawel i beidio myned i un man arall." Yn mhen amser wedi hyny, nis gallasai fyned hyd yn nod i dŷ Dduw heb gymhorth ereill, ac er fod hyn eto iddi hi oedd o deimlad mŵr anni-bynol, yn "llwybr cwbl groes i natur," buan y dysgodd ymostwng i'r naill beth a'r llall, a hyny gyda sirioldeb mawr. Yn mhlith ei hamrywiol gynlluniau ar ei chlaf-wely penderfynodd, wedi iddi wella (canys hi a gredai yn gryf ei bod i wella) gasglu nifer o wragedd na byddent yn arfer dyfod i'r Ysgol Sabbothol, y rhai y gwyddai eu bod yn sefyll mewn angen am wybodaeth ysgrythyrol, i ffurfio dosparth o honynt allan o swm yr ysgol, yn yr ysgoldy.

Yn ei dyddlyfr am Ionawr 1leg, 1857, cawn y cofnodiad a ganlyn:—"Penderfynwyf ffurfio dosparth yn yr Ysgol Sabbothol ar gynllun gwahanol, gan obeithio y bydd yn foddion i wneyd ychwaneg o ddaioni." Cafodd y fraint o ddechreu, a chasglodd amryw o'r cyfryw bersonau yn nghyd, a mawr y pleser a deimlai yn y gwaith; ond cafodd allan yn mhen ychydig o Sabbothau ei bod eto heb ddysgu y wers—"os yr Arglwydd a'i mŵn." Gorfu arni adael y dosparth a myned yn ei hol i'r hen ystafell am fisoedd i orwedd ar ei chlaf-wely; ond eto teimlai yn dra awyddus am fyw ac am wellhau. Llwyddodd y meddyg medrus ar ei rhan y tro hwn eto, a bu am rai misoedd, trwy gymhorth ereill, yn rhodio oddiamgylch. Cymerodd bleser mawr yn ystod y seibiant hwn i hyfforddi dosparth o ferched ieuainc tra gobeithiol. Mawr y serch a deimlai tuag atynt, ac a deimlent hwy tuag ati hithau; byddai yn ddiwyd iawn yn eu hyfforddi ac yn eu cynghori, a phan y byddai, o herwydd afiechyd, yn methu myned atynt, mawr fyddai ei helynt am sicrhau athraw cymwys iddynt yn ei habsenoldeb, ac wedi iddi lwyddo, dywedai na wyddai neb o

honom y fath esmwythdra oedd hyny i'w meddwl. Byddai yn iechyd i galon llawer athraw diofal a diymdrech i weled y gofal a'r pryder fyddai yn ddangos yn nghylch ei dosparth. Yn yr yspaid hwn cymerodd ddosparth o ferched ieuainc i'w hyfforddi mewn Daearyddiaeth Ysgrythyrol, am awr o flaen y cyfarfod gweddi bob nos Lun. Y tro diweddaf y bu gydag ef aeth allan mewn gwendid mawr, braidd yn groes i ddymuniad ei pherthynasau. Hwn oedd y tro diweddaf y bu allan o'r tŷ, ond ni cholodd ei dyddordeb yn y dosparth am amser wedi hyn; dymunodd ar yr ysgrifenydd eu cyfarfod am ychydig droion hyd oni chaniateid iddi hi fyned ei hunan. Yr oedd yr archwaeth a ddangosai at waith yr Arglwydd, a'r awydd cryf am fod yn ddefnyddiol, yn rhwym o ddisgyn fel marwor tanlyd am ben y meddwl swrth a ddygwyddai fod yn ei chymdeithas. Pan yn agos iawn i ben ei thaith danfonodd genadwri gydag un o'r diaconiaid at bobl ieuainc y gymdeithas eglwysig, i ddymuno arnynt ymdrechu bod yn weithwyr yn nhŷ Dduw; ei bod yn ofni fod llawer o honynt ddim yn amgen na segurwyr yn y winllan. Dywedwch wrthynt, meddai, "na bydd iddynt edifarhau ar wely angau am fod yn llafurus gydag achos Iesu Grist."

PEN. VI.

EI PHROFIAD CREFYDDOL.

"Llawn euogrwydd, llawn o ddychryn,
 Llawn o boen yw'm henaid gwan;
 Anghrediniaeth sydd yn haeru,
 Byth na ddof oddiyma i'r lan;
 Balm o Gilead, 'n unig all wellhau fy nghlwyf."—W. W.

YR ydym yn credu fod y goleuni mawr a gododd ar ei meddwl yn niwedd ei hoes, yn ddigon i'n cyfiawnhau am olrhain yn lled fanwl sefyllfa ei phrofiad crefyddol pan yn hau mewn dagrau, yn rhagarweiniol i'r cynhauaf mawr o orfoledd a gafodd gasglu yn niwedd goruchwyliaethau yr Arglwydd tuag ati. Cawn ynddi yn llythyrenol Daith y Pererin wedi ei sylweddoli—cors anobaith, dyffryn gostyngeddwrwydd—tŷ y dehonglydd—y mynyddoedd hyfrydlawn—colli y baich yn ngolwg y groes—myned i lawr i dir Beulah, ac o'r diwedd gyraedd yn ddyogel trwy yr afon i'r Jerusalem uchod, wedi dyfod yn ffeithiau gwirioneddol nas gellir eu hameu. Tra yr oedd yn mawr werthfawrogi gwirionedd a chywirdeb yn mhawb a phob peth, yr oedd yn dra gwrthwynebol i bob ffug a rhagrith, a phob peth yn ymylu arnynt. Dywedai ei bod ar un adeg o'i hoes, wrth weled profes o brofiad uchel a theimladau cynhyrfus yn gysylltiedig â buchedd anghyson a bywyd diffrwyth, wedi myned i amheu, os nid i ddiystyru, *teimladau* o gwbl, a'i bod yn credu fod yr Arglwydd o'r herwydd, wedi ei gadael yn ngafael caledwch teimlad, yr hyn a barodd iddi am hir amser fod yn amheus iawn am wirionedd ei chrefydd. Credai ei bod yn hynny yn euog o ryfyg mawr, ond ei bod erbyn hyn wedi ei llwyr argyhoeddi mai peth yn y *teimlad* yw crefydd—yr hyn y mae y galon yn brofi, ac nid yr hyn y mae y pen yn ei ddeall. Ar ryw ystyr y mae yn ofidus adgofio pa faint o ing a blinder a ddyoddefodd yn ei meddwl, yn ngafael amheuaeth ac anghrediniaeth cryf, am yspaid maith. Yr oedd wedi myned y drws nesaf i anobaith. Dywedai ei bod wedi cael allan i sicrwydd nad oedd ei chrefydd o'r iawn ryw. Gwnai gydwybod o fod yn fanwl yn yr arferiad o bob moddion o drefniad Duw i oleuo y meddwl, ond nid oedd "gweledigaeth eglur yn y dyddiau hyny." Darllenai lawer yn ngair yr Arglwydd,

ond nid oedd yn cael na blas nac ymgeledd trwyddo; wylai, gweddïai, a siaradai lawer â'i chyfeillion am ansawdd dorcalonus ei meddwl, ond tywyllwch nosawl oedd yn parhau o hyd. Pan ofynid iddi, paham na byddai hi oedd yn berchen gwybodaeth a chymwysder, yn dyweyd ei phrofiad yn amlach yn y gymdeithas eglwysig—atebai ei bod yn hollol barod i wneyd, ond ei bod yn credu na byddai clywed ei phrofiad hi yn gymhorth i neb; “canys,” meddai, “os dywedaf fi ddim, mi ddywedaf yn hollol fel yr wyf yn teimlo; mi ddywedaf fy mod yn gwbl sicr nad oes genyf grefydd dda.” “Y mae yn debyg iawn hefyd,” meddai, “y byddai y cyfeillion yn garedig yn ceisio fy nghysuro, yr hyn ni fyddai o un llesâd i mi. Nid yw barn neb *arall* am danaf ond o ychydig bwys i mi; rhaid cael tystiolaeth fy mynwes fy hun o'm plaid, cyn y bydd o un cysur.” Dywedai wrth yr ysgrifenydd ei bod ymron wedi penderfynu dyfod i'r cyfarfod eglwysig i ddyweyd wrth yr eglwys nad oedd yn gymwys i fod yn eu plith yn hwy. Yr oedd teimlad o'r fath yma mewn un oedd yn berchen meddwl mor fywiog, a theimladau mor gryfion a'r eiddo hi, a hyny pan yn ngafael afiechyd oedd yn debyg o ddiweddu yn yr angeu, yn deimlad torcalonus iawn. Byddai yn dywedyd weithiau ei bod yn credu fod ei diwedd yn nesau, ond nad oedd hyny ynddo ei hun yn ei gwneyd yn fwy deffrous, nac yn fwy difrifol wrth orsedd gras i ymofyn am y gwir. Rhaid i Dduw fendithio yr amgylchiad, meddai, cyn yr etyb y dyben hwn. Onid yw tystiolaeth fel hon, yn rhybudd dwys i'r rhai hyny sydd yn gobeithio llawer oddiwrth ddeffroad gwely angeu. Yn debyg i hyn y gwelwn rai hen bobl, sydd yn berffaith wybyddus nad allant fyw ond ychydig iawn o amser yn hwy, yn teimlo dim mwy, os cymaint, wrth nesu at frenin y dychryniadau na phan oeddent yn ieuainc ac yn iach. “Ni chred-

ent chwaith pe codai un oëdiwrth y meirw." Gwelwyd hi yn wylo yn chwerw wrth ganfod ereill yn teimlo, am na fedrai deimlo ei hun. Yr oedd ei meddwl o'r fath gyfansoddiad, fel ag i wrthod pob cysur, ië, pob gradd o hono, oddieithr ei fod wedi ei seilio ar dir cadarn a goleu. Priodol yw dyweyd hefyd, nad effaith unrhyw bruddglwyf (*melancholy*) yn ei chyfansoddiad oedd yr amheuaeth hwn—nid oedd yn brudd yn ei chysylltiad â neb na dim ond yn unig ei chyflwr ysprydol, yr oedd yn siriol a llawen yn mhob cysylltiad arall. Syrthiodd i afael y teimlad hwn bedair blynedd yn ol, pan mewn afiechyd trwm—rhy drwm i hysbysu ansawdd dy-mhestlog ei meddwl wrth neb ar y pryd. Mynych y dywedai ar ol hyny wrth gofio yr adeg, gan gyfeirio at gyhuddwr y brodyr—" *O the great coward! I shall never forgive him, to strike so hard in such an extreme weakness.*" Gwellhaodd ei hiechyd i raddau mawr ar ol hyn, ond parhaodd yr argraff anhyfryd ar ei meddwl am yn agos i dair blynedd Yn ein golwg ni, byddai goruchwyliaeth mor lem o eiddo yr Arglwydd tuag at wrthddrychau ei gariad yn anhawdd i'w hesbonio, oni bai fod gorphwysfa eto yn ol i bobl Dduw. Gorphenir y bennod hon trwy gyflwyno i sylw y darllenydd, y llinellau canlynol o'i heiddo, yn yr iaith arall, ar orphwysfa y Cristion :—

THE CHRISTIAN'S HOPE.

"There remaineth therefore a rest for the people of God."

Ah! tiresome is the weary way,
 We have to travel through;
 The paths alas! are long and rough
 To hearts brimful of woe:
 This thought sustains me ever more—
 The weary journey 'll soon be o'er.

The sorrowing Pilgrim here below,
Lives on a foreign strand;
He travels hard from day to day
To reach that better land:
A heavy burden loads his breast,
But there remaineth yet a rest.

Sweet to the wayworn traveller
Afar in deserts drear,
The sound of rippling rivulets,
And streams which murmur near;
Yes sweet, how sweet to his parched lip,
The life-reviving draught to sip.

And when beneath some friendly shade,
He steals from mid the throng;
How sweet to feel the breezes play,
The rustling leaves among,
Or 'neath a scorching sky to feel
The Zephyrs o'er his forehead steal.

'Tis sweet at noon to rest from toil,
Neath trees whose ripened fruit
Invites the weary passenger
His spirits to recruit;
While overhead from many a tree,
He hears a pleasing melody.

But better than the streams which flow
In the parched wilderness,
And sweeter than to feel the breeze
Play on his burning face;
Better than all the fruits, to taste,
That there remaineth yet a rest.

Ah! many a gay and flowery bed
Would tempt our wandering feet,
Where pleasure spreads her choicest flowers,
And sheds each dangerous sweet—
Garlands of roses here she weaves,
But serpents lurk amid the leaves.

There's not on this deceitful earth
One solid resting place;
Oh! who can make my burthen light,
Or help my hopeless case?
This world at break of day was fair,
'Tis now the dwelling of despair.

'Twere not more vain to make my rest
 Upon the billow's foam,
 Than to expect a lasting rest,
 And make this world my home;
 The troubled sea, by tempests hurled,
 Is less unsteady than the world.

'Tis true, at first, the world may give
 Some splendid promises,
 But soon we find from many a pang
 They were but fallacies;
 Though, it may promise length of days,
 How false are all its promises !

Of those that once set out with me,
 Companions of my way,
 Who always strove my soul to cheer
 Through many a weary day;
 Some have proved false, and some in peace,
 Lie in that land, where troubles cease.

PEN. VII.

EI LLAFUR CREFYDDOL.

“Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt. A gasgl rhai rawnwin oddiar ddrain, neu ffigys oddiar ysgall?”

ER fod ei meddwl wedi syrthio i amheuaeth a chulni mawr mewn perthynas i wirionedd ei chrefydd, eto, wrth graffu ar ei hyspryd a'i hymarweddiad, buasai pawb ond hi ei hun yn cael allan yn ddi-betrus, fod yno ofn Duw o dan y cwbl. Yr oedd ei chydwybod yn dyner, a'i hymarweddiad yn fanwl dros ben, a hyny mewn pethau bychain. Galleid dyweyd am dani nad allasai fyned, “nac yma nac acw, yn groes i air yr Arglwydd:” yn nghyda hyn eto, yr oedd yn mhell o fod yn ngafael syrthni a diogi yspryd, fel y mae yn ofidus canfod llawer crefyddwr digon esmwyth arno. Yr oedd yn fywiog gyda phob peth a gredai oedd yn lles i grefydd. Nid

oedd ynnddi un duedd i esgeuluso moddion gras, ond ymdrechai yn aml dros ben ei gallu i fod yn bresenol, a hyny nid yn unig ar y Sabboth, ac yn y cyfarfod eglwysig pan y byddai gweinidog enwog yno, ond hefyd yn y cyfarfod gweddi, a'r *society*, ar noswaith arw; a phan na fedrai fyned ei hun, gofalai am i gynifer o'r teulu ag oedd yn bosibl i fod yn bresenol. Mewn gair, teimlai zêl dros bob ymgynulliad crefyddol, pa un bynag ai mawr ai bychan—yr unig gynulliad oedd yn ei anghymeradwyo, oedd *committees* hwyrol a fyddai yn dyrysu yr addoliad teuluaid. Mae yn wir nad ydyw y pethau hyn ond pethau bychain, ond mor wir a hyny, pethau bychain crefydd ydynt, a rhai o'r pethau fydd, hwyrach, yn cael eu harddangos yn y dydd hwnw, fel ffwrwythau crefydd dda; a'r diffyg o honynt fel diffyg o'r cyfryw. Gellir nodi hefyd y byddai yn aml yn dyweyd, hyd yn nod pan yn "Basan a dyfnder y môr," ei bod yn teimlo parch mawr i Dduw fel Duw sanctaidd; fod purdeb y ddeddf yn hollol wrth ei bodd, a phe buasai y Duw mawr yn dyfod un gradd yn llai pur, y collai hi y parch oedd yn ei meddwl iddo—na ddymunai fod y ddeddf yn llai pur er ei bod yn ei chondemnio hi; "a phe cawswn awdurdod," meddai, "i ostwng y ddeddf i gyfarfod & fy anmherffeithrwydd I nes fy esgusodi, dewiswn yn ddibetrus i ddeddf bur Duw fod fel y mae, er ei bod yn fy nghondemnio I, ac ymddiried y canlyniadau i Dduw." Er nad oedd ei dau fachgen ond ieuanc iawn, eto dangosai y pryder mwyaf am eu magu i'r Arglwydd. Llafuriai yn ddibaid i oleuo eu meddyliau a thynaru eu cydwbybodau. Nid peth anghyffredin mewn un modd oedd ei gweled hi a'r bychan hynaf, pedair oed, y ddau yn foddfa o ddagrau wrth fyned dros hanesion y Beibl. Yn ei thraethawd ar "Y Fam Rinweddol" (tu dal. 57) y ceir ei theimladau yn gywir ar ddyledswyddau mam—yr oedd y pwnc wedi gwreiddio mor ddwfn

yn ei chalon, fel y dywedai wrthym yn nyfnder poenau angeu, ei bod yn teimlo hiraeth am gael rhoddi un wers iddynt eto. Fel hyn, rhaid addef, er fod ei meddwl wedi ei selio tan gloion anghrediniaeth, nad oedd penwyni wedi difwyno ei hyspyd.

PEN. VIII.

CYDWYBODOLRWYDD CREFYDDOL.

“Chwychwi yw halen y ddaear, o diflasodd yr halen & pha beth yr helltir ef?”

“Addurna'm henaid â dy ddelw,
Gwna fi'n ddychryn yn dy law,
I uffern, llygredd, a chnawdolerwydd;
Wrth fy ngweled yma a thraw.
O am gymdeithasu â'r enw,
Enaint tywalltedig yw,
'N halltu'r byd gan berarogli,
O hawddgar ddoniau Crist fy Nuw.”—A. G.

NID anfuddiol, o bosibl, fyddai coffau ei bod yn ystod y tymor caled hwn, yn tueddu i fod yn gyfyng ei barn am y profeswyr hyny oedd yn tueddu i fod yn anwastad yn eu ffyrdd, ac yn enwedig teimlai yn flin wrth y rhai oedd yn segur a diffrywth gydâg achos yr Arglwydd. Wrth glywed am bersonau yn cael eu goddef yn aelodau eglwysig, a hwythau wedi syrthio, neu yn byw mewn pechodau; teimlai i'r fath raddau nes effeithio yn drwm ar ei hiechyd. Nid hawdd desgrifio y siomedigaeth a gafodd wrth glywed brawd crefyddol yn “dymuno llawenydd” i un oedd wedi tynu gwarth ar ei grefydd yn ei briodas. Credai fod y terfyn rhwng byd ac eglwys wedi agos ei dynu i lawr. Yr oedd yn gryf o'r farn y dylem ymddwyn tuag at un wedi syrthio i bechod gwarth-

us fel at yr ethnig a'r publican, er mwyn codi y teimlad cyffredin i ddylanwadu o blaid moesoldeb. Ond nid anmhriodol yw coffhau iddi golli y culni hwn tuag at ereill, i fesur helaeth, pan ireiddiwyd ei hyspryd ei hun. Ni fynai wedi hyny eistedd i farnu *dybenion* neb, ac ni chai neb arall wneyd hyny yn ei chlyw, heb gael clywed nad oedd ganddo hawl i farnu dybenion ereill. Coleddai yn awr y meddyliau tyneraf am bob dyn; ac mewn atebiad i Mr. W. H., yr hwn a ofynodd iddi, "Beth oedd hi yn ei dybied a ddeuai o honom ni a'r grefydd lwydaidd yma, a oedd hi yn tybied y cyrhaeddai rhai o honom y nefoedd?" dywedai, "O gwnaiff, lawer mwy nag ydych erioed wedi ei feddwl." Gallwn gymeryd hyny o addysg beth bynag, nad y dyn sydd a'i yspryd yn agosaf i'w le sydd fwyaf parod i feio a chondemnio, ond y byddai hwnw yn fwy parod i dosturio a chynghori—"Cariad a guddia luaws o bechodau." Ond eto, yr oedd yn mhell oddiwrth feddwl na ddylai fod llinell derfyn rhwng byd ac eglwys. Nis gallai ddirnad pa fodd y medrai Cristion cywir wneyd cyfeillion o, na chael pleser yn nghyfeillach, dynion o'r byd. Gadawodd bapur yn dangos ei syniad ar y mater hwn, yn nghyda'r seiliau Ysgrythyrol ar ba rai y sylfaenai ei barn. Rhag chwyddo y llyfr yn ormodol ni roddwn yma ond y rhagymadrodd:—"Wrth ddarllen gair yr Arglwydd cefais fy nharo yn aml gan ei orchymynion pendant ac annghymmodol (*uncompromising*), am yr angenrheidrwydd am linell wahaniaethol rhwng y Cristion a'r rhai a adnabyddir wrth yr enw "y byd." Os mynwn fyned yn fanwl yn ol gorchymynion y Beibl, gan nad pa faint all fod ein rhagdueddiadau i'r gwrthwyneb, rhaid i ni *gredu* oddiwrth rybuddion mor bendant fod yn hollol anmhosibl i ddefnyddiau mor wahanol byth gydgymysgu," &c. Amcana ddangos hyny yn neddfau penodol eglwys yr Hen Destament,

Epistolau Paul, ac yn neillduol oddiwrth eiriau a gweddiau yr Arglwydd Iesu, am i'w ddysgyblion gael eu cadw oddiwrth ddylanwad ac yspryd y byd. Yr oedd hi mewn gwirionedd yn dra gwahanol i lawer o grefyddwyr da yr oes hon yn ei theimlad tuag at y byd a'i bethau. Casâi yr amcan o gasglu cyfoeth â chasineb perffaith; ac i raddau helaeth iawn, diystyrai y rhai oedd yn teimlo fod meddu ychydig o dda y byd hwn yn gosod mawredd ar ddyn, gan gredu bob amser mai gwybodaeth a chrefydd yw yr unig bethau sydd yn alluog i wneyd dyn yn fawr. Yr oedd wedi credu er's llawer blwyddyn, y câi hi gymaint ag a fyddai yn angen arni i fyned trwy y byd, ac ni theimlai unrhyw flys am gael ychwaneg; ac fe ellir dyweyd am dani yn y pwnc hwn—iddi "ymddiried yn yr Arglwydd, ac ni bu arni eisieu dim daioni."

P E N . I X .

HUNAN-YMHOLIAD.

YN ei dyddlyfr ar y dydd olaf o'r flwyddyn 1855, cawn y nodiadau canlynol:—

"The last! the last! the last!
Oh! at that little word
How many thoughts are stirred,
That whisper of the past."

- | | |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>I. Past benefits received—</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Restored health. 2. Continued health. 3. Competence in worldly affairs. 4. Restraining grace. 5. Domestic comforts. | <p>I. Doniau a aethant heibio wedi eu derbyn:—</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Adferiad iechyd. 2. Parhad iechyd. 3. Cymesuredd mewn achosion bydol. 4. Gras ataliol. 5. Cysuron teuluaidd. |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

- | | |
|--------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------|
| 6. A desire to benefit others.
All perfect gifts from
above. | 6. Dymuniad i wneyd lles
i ereill. Oil yn rhoddion
perffaith oddi uchod. |
| II. Past sins unrepented for. | II. Pechodau a aethant heibio
heb edifarhau o'u her-
wydd. |
| 1. Resolutions broken. | 1. Penderfyniadau wedi eu
tori. |
| 2. * Evil passions unres-
trained. | 2. * Tymherau drwg heb
eu hatal. |
| 3. Opportunities to do good
not availed of. | 3. Cyfleusderau i wneyd
daioni heb eu defnyddio. |
| 4. Mercies received not
acknowledged. | 4. Trugareddau wedi eu
derbyn heb eu cydnabod. |

YN mis Chwefror, 1856, yr ydym yn cael ei bod eto heb gael diangfa o dan draed ei gelynyon. Ar y 25ain o'r mis a nodwyd y mae yn datgan ei phrofiad mewn tri o benillion o eiddo W. Williams, ac uwch eu pen y mae yn ysgrifenu fel hyn :—

**“LLINELLAU A YSGRIFENWYD AR ADEG O
YMDRECH CALED A CHALON DDIDEIMLAD.”**

“R wyt ti'n drech na'm calon galed,
'R wyt ti'n drech na'm pechod cas;
Ti wnai'm hanwyl chwant a minau,
Pryd y mynoch gwympo i ma's.
Croesa 'mhechod,
Croesa'r peth wyf am fwynhau.

* Yr oedd ei hafiechyd mewn modd arbenig yn effeithio ar ei gewynau, a thrwy hynny yn achosi teimladau isel ac anghy-
surus iddi ei hun ar amserau, y rhai a elwir ganddi mewn amryw fanau yn dymherau drwg. Ond pe cymerid tystiolaeth y teulu am dani fel prawf, cawn eu bod yn unfryd yn cyduno na buont yn gweini ar neb erioed yn berchen rhinweddau meistres i'r fath raddau, ac yn eu plith dymherau da. Ni fynai er dim eu trin fel caethion, ond byddai bob amser yn gymedrol yn ei disgwyliadau oddiworthynt, ac yn barod i ganiatau iddynt bob peth oedd yn rhesymol, ond yn enwedig gofalai am iddynt gael eu cyfran o foddion gras. Y canlyniad o'r fath ymddygiad oedd serch a thynerwch mawr tuag ati, a pharodrwydd bob amser i weini arni, yn glaf neu yn iach.

Tôr fy nghalon galed, gyndyn,
 Tôr hi 'nawr yn ddrylliau man,
 Tyn bob rhwystr sydd yn atal
 Iti, Arglwydd, ddod ymla'n;
 Eistedd yma,
 A'th deyrnwialen yn dy law.

Rho oleuni, rho ddoethineb,
 Rho dangnefedd fo'n parhau,
 Rho lawenydd heb ddim diwedd,
 Rho faddeuant am bob bai;
 Rho dy yspryd,
 Gwnaed ei babel tan fy mron."

Byddai ei theimladau yn nghylch ei chyflwr, ar amserau, yn ddwys iawn. Yr oedd yn dyoddef yn drwm dan gystudd caled tua diwedd ei hoed, ond, ychydig cyn ei marwolaeth, mewn atebiad i grybwylliad un o'i chyfeillion "ei bod wedi dyoddef llawer o gystudd," dywedai wrthym, mai y boen fwyaf a ddyoddefodd, oedd poen meddwl mewn ymdrech caled â'i gelynyon ysbrydol, a hynny tan wendid mawr yn ei chorff, ac mai yr ymdrech *olaf*, yr hon a ddylynwyd gan doriad y wawr, oedd yr un galetaf o'r cwbl.

Yn mis Medi, 1856, y cawn ffrwyth ei myfyrdodau a'i dymuniadau mewn cysylltiad â'r Gymanfa oedd ar gael ei chynnal yn Mangor, fel y canlyn:—

"BETH DEBYGWCH CHWI, GAN NA DDAETH EFE I'R WYL?"—Ioan, xi. 56.

Nid oedd amcan uwch gan yr Iuddewon wrth roddi y gofyniad yma, na chael golwg ar yr un enwog oedd wedi gwneyd cynifer o wyrthiau yn eu plith. Ond gall gofyniad o'r fath godi oddiar ddyben uwch. Gall y bydd llawer Cristion pryderus heb weled arwyddion digon amlwg o bresenoldeb yr Iesu yn yr ŵyl yr ydym ni yn ddisgwyl, yn barod i ofyn mewn amheuaeth, "Beth debygwch chwi, am na ddaeth efe i'r Sasiwn?" Buom yn gweddio llawer am ei bresenoldeb, esgynodd llawer o ocheneidiau dwys am iddo rwygo y nefoedd, a disgyn fel y toddai y mynyddoedd o'i flaen; ac am iddo fod fel cawodydd o wllith i Israel, &c. Ond ni "ddaeth yr Iesu i'r ŵyl." Ond tybed a ddaeth efe i'r ŵyl hono yn Jerusalem?

Do, fe a ddaeth, yr oedd yr Iuddewon wedi barnu cyn yr amser; felly y byddwn ninau yn fynych, oni fydd pob peth yn ymddangos fel y byddwn ni wedi cynllunio. Oni chawn weled yr hen arddeliad mawr, pechaduriaid yn gwaeddi allan beth i wneyd am fod yn gadwedig, dychryn yn dal yr annuw- iol, &c., yr ydym yn barod i ddyweyd na ddaeth efe i'r ŵyl. Ond hwyrach mai yn y llais distaw main, neu fel y manna rhwng y ddwy gaenen wiith, y daw efe. Am na ddaeth gyda'r cynwrf arferol, tybiodd yr Iuddewon nad oedd efe yno; ond yr oedd yr Iesu yno, yr oedd effeithiau ei bresenoldeb i'w gwyled ar lawer o ddeillion wedi cael eu golwg, cloffion ac anafusion wedi cael ischâd. Na farnwn ninau wrth yr olwg, ond "dysgwyliwn yn ddistaw wrth yr Arglwydd." Efe a addawodd, ac ni bu erioed yn llai na'i addewid. "Yn mhob man lle y rhoddaf goffadwriaeth o'm henw, y deuaif atat ac y'th fendithiaf." Felly,

"Ar ei addewid Ef, sydd fwy na geiriau dyn,
Er holl gymylau'r nef, gorphwysaf fi fy hun;
Fe'm deil i'r lan, a doed a ddel; a ddaeth o'i enau sydd dan sel."

"Gad ini ddod i'r mynydd fry, i'r cwmwl goleu atat ti,
Fel y dysgleirio'n gwyneb-pryd, nes synu Israel oll i gyd."

PEN. X.

EI HYMRODDIAD I FYW YN GREFYDDOL.

"Gwnes addunedau fi,
I gadw'r llwybr cul,
Ond methu 'rwy';
Preswlydd mawr y berth,
Chwanega eto 'm nerth,
I ddringo'r creigydd serth,
Heb ffino mwy.

DYMA, bellach, ddechreu blwyddyn olaf ei pherer- indod; cawn hi yn dechreu ei dyddlyfr mewn cyfamod dwys rhyngddi â'r Arglwydd, yn ysgrifenedig yn ei dyddlyfr mewn pedwar o benderfyniadau, am y dull yr oedd yn bwriadu ei threulio:—

1. Penderfynwyf os caf fyw, i wylio yn fanylach ar fy holl

ymddygiadau, a thrwy gymhorth yr Arglwydd i gadw fy nheimpladau a'm tymherau annghysurus dan reolaeth.

2. I feddwl yn well am bawb nag am danaf fy hun, a rhoddi yr eglurhadaeth, neu yr esboniad goreu ar ymddygiadau ereill.

3. Mewn trefn i gael ereill i wneuthur daioni, i gymysgu mwy gyda hwynt, ac i neillduo ychwaneg o fy amser i ymweled â'r cleifion a'r oedranus yn mhlith aelodau ein Cymdeithas Eglwysig.

4. I ddarllen y Bibl yn fwy rheolaidd.

Dyma ddechreu da beth bynag, tybed a glywir son am hyn eto, neu ynte a lyncir y penderfyniadau hyn i ebargofiant, fel y bu tynged llawer o'u cyffelyb; na, dylwn hi hyd y dydd olaf o'r flwyddyn 1857, dacw'r hen benderfyniadau yn cael eu galw i'r bwrdd:—

“Rhagfyr 31ain, 1857,—

PA BETH A DDAETH O'M PENDERFYNIADAU?

Y laf wedi ei gadw yn anmherffaith, heb wyllo a gweddio digon. Y mae natur fy afiechyd yn fy ngosod yn dra agored ar y mater hwn.

Yr 2il. Yr wyf yn teimlo yn fwy cysurus ar y pen yma. Yr wyf yn meddwl fy mod wedi gwneyd rhyw gymaint o gynydd.

Y 3ydd. Wedi cael cymaint o gystudd, ac hyd yn nod angeu yn y teulu, yr hyn sydd wedi rhwystro i mi weithio allan y penderfyniad hwn; ond mor belled ag y bum yn alluog, y mae wedi ei wneyd.

Y 4ydd. Wedi cychwyn, ac wedi myned mor belled a'r Ged o Numeri—Job hyd Esaiah—Matthew hyd ddiwedd Luc. Yn penderfynu myned yn mlaen. Nis gallaf lai na gweled tebygolrwydd rhwng yr ymdrech meddwl hwn am gael buddugoliaeth ar lygredigaeth calon, i ymdrech byddinoedd i gymeryd trefydd mewn rhyfel. Fel y bydd y fyddin ymosodol yn nesau at y caerau, y mae yr ymladd yn myned yn fwy poeth, a'r gelynyion o bob tu yn myned yn fwy o ddirif, ac yn fwy penderfynol; felly yma, *dal y cleddyf* gan ddyweyd, “*rwy'n penderfynu myn'd yn mlaen.*”

Rhoddwn yma gyfieithiad o'i heiddo ar ddau benill gan Mr. Edward Jones, Maes y plwm, y rhai,

yn nghyda dangos cynyrch ei myfyrdodau, a
wasanaethant yn ddiwedd-glo priodol iawn i'r
bennod hon.

Be hushed my soul, thou hast a Friend
Who sees thy weak intent,
A Brother intercedes above
Ere yet thy cry was sent;
Know that, thy Father loves to hear
Thy plaintive moan, thy secret sigh,
Although, thy words unuttered were
Before the Lord most high.

When in some secret place I sigh
Beneath my load of care,
And onwards still I fain would try,
But often meet despair;
The thought will strike me of that one,
Still sees me though I'm left forlorn,
I shall not always thus bemoan,
A better day will dawn.

PEN. XI.

ANGEU YN Y TEULU.

“Melusach tŷ fy Nhad, ar ol y storom gref,
Pa fwyaf groesau gaed, mae'n hawsach gado tref;
O hyfryd wel'd fydd yn y man,
Pob bryn a ddringais I i'r lan.”—W. W.

AR y tu dalen cyntaf o'i dyddlyfr am y flwyddyn
1857, y cawn y llinellau tlyision a ganlyn yn
ysgrifenedig, debygem, o'i chyfansoddiad ei hun:—

“Oh! who can say, as months roll on,
What changes here may be recorded,
Friends from our homes for ever gone,
And others by the wide wave parted;

And Oh! perhaps this very hand,
That pens these thoughts may be arrested,
May moulder in that silent tomb,
Where'er the busy brain is rested."

Ac felly y bu. Y mae y "Pwy a wŷyr," fyddwn yn ddyweyd, yn aml yn troi allan yn "felly y bu." Yn mis Mai, ar un o du dalenau ei dyddlyfr, pan ei hun mewn afiechyd trwm, yn gorwedd er's misoedd yn ei hystafell, a'i chwaer, Miss Margaret Jones yn yr un agwedd mewn ystafell arall, mewn llawn cymaint o wendid, ac yn analluog i gymdeithasu â'u gilydd er's tair wythnos, cawn y cofnodau pruddaidd canlynol:—

Mai 29, 1857. Y mae fy anwyl chwaer, Margaret, ar ol hir nychdod, wedi syrthio i fath o gwsge angeuol, &c.

Mai 30. Y mae fy anwyl chwaer, Margaret, yn ymddangos megys yn hofran rhwng dau fyd, &c.

Mai 31. Boreu Sabboth! Daeth fy mrawd o Lundain am haner awr wedi deuddeg, ac ysbryd fy anwyl chwaer a ollyngwyd am chwarter i un, i fwynhau ei Sabboth tragwyddol.

Mehefin 1. *A gloomy day here*—"diwrnod tywyll yma," ond yr Arglwydd a roddodd i mi lawer o nerth; bum yn alluog i gymeryd fy ngolygfa ddiweddf ar fy anwyl chwaer, trwy gael fy nwyn mewn cadair i'w hystafell. Y mae yn awr yn ei harch.

Mehefin 4. Diwrnod trymaidd a niwliog. Y mae y tywydd yn cyd-weddu â fy nheimladau—fy chwaer, druan, a'm gadawodd am byth. Rhoddwyd hi yn naear oer y Cathedral i orphwys.

Y mae yn haws dychymygu, na desgrifio tŷ galar, yn y fath amser, a than y fath amgylchiadau. Un chwaer wedi myned; a'r chwaer arall yn gorwedd tan afiechyd, ac mewn adeg ar yr afiechyd hwnw, ag y byddai cyffroad o'r fath yma i'w theimladau yn dra thebyg o droi y fantol i'r ochr waethaf. Ond er hyn oll, nid oedd dim yn chwerw yn y galar hwn ar ol Miss Jones. Yr oedd hi yn ferch ieuanc grefyddol iawn;—ei rhodiad manwl, a'i chymdeithas brofiadol, yn tystio yn nghydwytbod

pawb a'i hadwaenai, ei bod yn berchen crefydd gywir. Dywedai wrthym yn ddifloesg, ar ol adferu o bangfa galed, pan oedd hi ei hun, yn gystal a ninau, yn credu fod y babel yn dattod, nad oedd yn teimlo dim dychryn, ond fod tystiolaethau y Beibl yn gweinyddu mwy o ddyddanwch i'w meddwl nag a allai iaith byth ddesgrifio. A phan yr aeth drwy y glyn, er na fedrai adrodd ei theimladau, eto, dangosai mewn gwên siriol ei bod yn teimlo *pob peth yn dda*. Fel hyn, ni a welwn mai rhyw fwgan yw angeu y Cristion, tebyg i fwganod ereill; pa nesaf yr eir ato, lleiaf yr ofnir ef. Maddeued y darllenydd i mi am droi ychydig o'r ffordd i olrhain diwedd dedwydd un arall o blant y cystudd mawr. "Gwerthfawr yn ngolwg yr Arglwydd yw marwolaeth ei saint ef."

Ond i ddychwelyd at wrthddrych ein cofiant. Yn hollol groes i'n hofnau, bendithiodd yr Arglwydd y feddyginiaeth a weinyddwyd iddi, ar ryw olwg mewn modd gwyrthiol i adferu ei hiechyd am dymhor yn ychwaneg.

Yn ei dyddlyfr am Gorphenaf Iaf, ysgrifena fel hyn:—

"Cefais fyned i'r *Society* am y tro cyntaf er's haner blwyddyn."

Ac ar y 23ain o Fedi, eto,—

"Diwrnod teg a hyfryd; aethym mor belled a'r gladdfa newydd, i weled bedd fy anwyl chwaer. Y mae ganddi le hyfryd i orphwys."

Y mae y llinellau canlynol o'i heiddo yn ddatgan-
iad bywiog o'i theimladau yn y fath amgylchiad:—

Upon thy tomb I'll scatter
The sweetest choicest flowers,
These with my tears I'll water
In soft and gentle showers.

I'll watch above thy cold bed,
That no unhallowed foot,
May e'er disturb thy dwelling,
Low at yon yewtree root.

And where thou keep'st thy Sabbath
Of long continued rest,
I'll count that spot the fairest,
The sweetest, and the best.

I too shall quickly follow,
And lay this aching head;
Free from all pain and sorrow,
Within my narrow bed.

Ond nid rhaid myned yn nes yn mlaen na'r 23ain
o Tachwedd, cyn cael y cofnodiad a ganlyn:—

“Yr wyf wedi cymeryd anwyd trwm, ond er hyny aethum
i'r oedfa gyhoeddus am ddeg, ac i'r ysgol am ddau. Y mae
Mr. E. wedi cymeryd fy nosbarth mewn Daearyddiaeth
Ysgrhythrol.”

Cafodd adferiad i ryw fesur ar ol bod yn isel
lawer tro, ond yn awr, dyma hi yn myned i lawr i
beidio codi mwy—i lawr i hen rosydd yr Iorddonen,
i ddyffryn cysgod angeu, ac i angeu ei hunan.

Yn ystod y flwyddyn hon, trwy ryw foddion
hysbys i'r Arglwydd, llareiddiodd ei theimladau
crefyddol i fesur mawr. Collodd lawer o'r culni
meddwl a'r amheuaeth am ei chrefydd, er na ddaeth
i unrhyw benderfyniad sicr am ei hawl yn Nghrist,
hyd o fewn tua mis i'r terfyn olaf. Ond byddai ar
amserau eto yn dra phryderus. Nid hawdd i'r
ysgrifenydd anghofio edrychiad treiddgar o'i hei-
ddo, un diwrnod, ar ei fynediad i'r ystafell. Gyda
golwg gynhyrfus iawn, a'i llygaid yn llawn o
ddagrau, cyfeiriai ei golygon cynwysfawr tuag ato,
a dywedai, “Nid ydwyf un tipyn nes yn mlaen
nag oeddwn fis yn ol, ond yn llawn gwanach. Ac
nid wyf yn barod i ymadael; y mae cylmau fy
nghalon a'r ddaear yn gryfach nag arferol, yr wyf
yn teimlo mwy o anwylddeb tuag atoch chwi a'r

plant nag a deimlais erioed; ac os marw sydd raid, nid wyf yn sicr i ba le yr wyf yn myned. Cawn I ond gwella y waith hon, y waith hon yn unig." "Paid â mi, fel y cryfhawyf cyn yr elwyf, ac na byddwyf mwy." Ond yn fuan ar ol hyn, cryfhaodd fel ag i allu dywedyd ei bod yn credu nad âi byth i uffern, ei bod wedi ei *spwylio* i fyned yno; nad oedd yno neb na dim oedd hi yn garu; ond eto, credai ei bod yn anghymwys i fyned i'r nefoedd. Fel yr oedd ei meddwl yn cael ei nesu yn raddol at wrthddrychau y wlad hono, daeth i feddwl llawer am ei thad a'i mham, y rhai a gredai yn ddiarnheul oeddynt yn preswyllo tu fewn i gaerau y Jerusalem uchod. Adroddai gyda blas, amgylchiadau marwolaeth ei thad, i ba rai yr oedd hi yn dyst; ac yn yr adeg hon y mae yn debyg yr ysgrifennodd y disgrifiad bywiog â ganlyn o'i wely angeu:—

ADGOFION BYWYD.

GWELY ANGEU FY NHAD.

GWELAF ef yn awr. Y mae yr holl ystafell o flaen llygaid fy meddwl, wedi ei hargraffu mewn lliwiau mor eglur nas gall amser, nac amgylchiadau, byth ei dileu; ie, y mae teimladau yr amser hwnw yn ail gyfodi wrth yr adgofion, nes peri i mi fyw yr amser a aeth heibio megys yr ail waith. Mor agos yw yr undeb rhwng gweithrediadau y corff â gweithrediadau yr enaid! Ac mor effeithiol y bydd gwrthddrychau allanol yn dwyn yn mlaen yr undeb hwn! Ond i ddychwelyd at fy mhwn, —Mewn ystafell cefn, allan o sŵn pethau y ddaear, "y byd a'i boen," y gorweddai yr un anwyl. Yr oedd hir nychdod wedi gwelwi ei wedd, eto, gwên dawel oedd ar ei wyneb, yn arddangos y tawelwch a'r heddwch a fwynhai oddifewn. Yr oedd rhuad masnach i'w glywed yn awr ac yn y man oddi allan, eithr ni wnai hyn ond ychwanegu, trwy gyferbyniad, y dystawrwydd oddifewn. Cadair esmwyth wrth ochr y gwely—bwrdd bychan—cist, ar ba un y safai potelau, gwydrau, a phethau ereill a welir yn gyffredin yn ystafell y claf, oeddynt y pethau cyntaf a welaf'r llygad. Mynych y

meddyliais mor addas oedd y geiriau canlynol i'w amgylchiad—

“The chamber where the good man meets his fate,
Is privileged beyond the common walk,
Of virtuous life—it is the verge of heaven.”

Felly y teimlais wrth wrandaw ar y geiriau grasol a charuaidd a ddiferasant o enau fy nhad, yr oeddynt yn dyfod oddiwrth un a wyddai ei fod ar fin tragwyddoldeb. Yr oeddynt yn cael eu llefaru gyda dwysder a difrifwch; eto, yr oedd efe braidd bob amser yn gwenu wrth eu llefaru, fel pe bae yn dyweyd wrthym gydag Addison, “Gwelwch gyda pha fath sirioldeb y gall Cristion farw.” Nid oedd dim o drymder, tywyllwch ac iasau oeraidd y bedd yno, ond pob peth i'r gwrthwyneb. Mynych y byddwn yn darllen pennodau o'r Beibl iddo, yn enwedig y 43ain o Esaiah, yr hon oedd yn hoff bennod ganddo. Nid oedd braidd un amser yn darllen hono heb wylo, yn enwedig y 25ain adnod, gan mai trwyddi hi y cafodd wawr ar ei gyflwr yn nechreuad ei grefydd. Canai emynau hoff yr hen Williams, a phan na fedrwn i ei ddylyn gan deimladau drylliog, ai yn mlaen ei hun, a chlywn ei lais, yr hwn oedd wedi ei wanhau gan gystudd, fel yn myned wanach, wanach, ac fel yn esgyn o'm clyw i'r nefoedd. Emyn a fyddai yn hoff iawn o'i gwrando oedd, “*The Pilgrim's Song,*” allan o *Sabbath Meditation* y Parch. J. EAST, o Bristol, yn enwedig y ddau benill olaf, y rhai, y mae yn debyg oedd yn ddesgrifiad cywir o ansawdd ei feddwl.

THE PILGRIM'S SONG.

“Chill the evening breezes blow,
Cautious are his steps and slow;
Yet his voice is full and strong:
Mark! he treads the vale of death
Soft! he yields his final breath,
Yields it in the Pilgrim's Song.

Now his feet no longer roam,
He has reached his blood-bought home;
Hark! yon shining hosts among:
Louder than Archangels sing,
While the pillared heavens ring
Rolls the ransomed Pilgrim's Song.”

Ar ol yr adroddiad, dywedai yn fynych, “Byddaf yno cyn hir—gartref, ac yna ni chrwydraf mwy oddiwrth fy Mugail cu.” Ymwelai aml un o'i gyfeillion crefyddol ág ef, yntau a'u derbynai a gwên ar ei wyneb. Un o honynt ag oedd yn myned o'r dref i briodi—y dyfodol yn ymagor o'i flaen, ac yn addaw iddo bob mwyniant; ond pan yn ffarwelio am byth, dywedai wrth gyfaill—“mi roddwn y cwbl yr ydwyf yn ddiagwyl o'r

ddaear, a newidiwn le yn ewyllysgar â'm cyfaill, a chael marw fel efe." Ond ni fynai fy nhad newid. Yr oedd efe wedi derbyn y can' cymaint, ac yn disgwyl bob dydd am gael myned i etifeddu bywyd tragywyddol yn y byd a ddaw. Ond y diwrnod, yr awr, y fynydd ddiweddaf a ddaeth,—

“The last! the last! the last!
Oh! at that little word
How many thoughts are stirred,
That whisper of the past;
The last time spent with those
Who ere to morrow's close,
Will leave us and for aye!”

Dywedai y meddyg wrthym nad oedd yn dysgwyl y gwelai y boreu, “ond,” ychwanegai, “y mae yn barod i'w daith, ac yr wyf yn ei chyfrif yn frain i gael gweini iddo.” Yr oedd yn brydnawn y flwyddyn, naur megys yn paratoi i'w bedd; yn brydnawn y dydd, aethai yr haul i lawr, pan y galwyd ar fy nhad “i rodio glyn cysgod anghau.” Gwelwn ei wedd yn newid. Adroddais y geiriau—“Pan elych trwy'r dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi,” atebai—“*he is here,*” “*all is well;*” ac ar ol yr ail adroddiad, yr oedd enaid fy nhad wedi cyraedd gwlad yr hedd, ac yn syllu ar ryfeddodau y byd tragywyddol. Y mae ugain mlynedd wedi pasio er yr amgylchiad; ond nid annghofiais, ac nid annghofiaf byth olygfa “gwely anghau fy nhad.”

BEDDROD FY NHAD.

Yn eamwyth estron rhag i'th gamrau,
Dori tawel hun ei fedd.

Na! nid oes eistieu, ni thorir hi ond gan swm yr archangel ac udgorn Duw.

Friends, brothers and sisters, here lie side by side,
Yet none have saluted, and none have replied.

Onid yw yn fan hyfryd! tan fur y tŷ lle byddai efe yn hoff o fyned yn ei fywyd i addoli, ac yn mysg cyfeillion y bu yn dda ganddo gydrodio â hwy i dŷ Dduw. Llauer un a erys wrth fyned heibio i syllu ar ei orweddle, ac a rydd aml ochenaid am farw marwolaeth y cyfiawn, ac am fod ei ddiwedd fel yr eiddo yntau.

MARA.

PEN. XII.

CYMDEITHAS A'R BYD ANWELEDIG.

"Wrth gofio'r Jerusalem fry, y ddinas preswylfa fy Nuw,
Y saint a'r angelion y sy', yn canu caniadau o bob rhyw;
Ac yno mae nhrysor i gyd, 'nghyfeillion a'm brodyr o'r bron,
Fy nghalon sy'n brefu o hyd, am fyned yn fuan i hon."--w.w.

Mewn canlyniad i fod ei meddwl yn tremio llawer ar amgylchiadau marwolaeth ei thad, ehedodd ei dychmyg yn fywiog, tebygem mewn math o freuddwyd, a chafodd olygfa hyfryd i'w meddwl ar ryfeddodau y nef. Gwelai ei hun wedi cyraedd y lle dedwydd hwnw, ac yn ymddyddan yn felus efo ei thad a'i mam. Adwaenai bawb yno ar darawiad amrant; a synai at yr olwg hawddgar, lawn o dangnefedd, a welai ar bob wyneb. Ond yr hyn a effeithiodd fwyaf ar ei chalon oedd yr olwg annesgrifiadwy o hawddgar a gafodd ar Dywysog mawr y Bywyd. Dywedai ei thad wrthi nad oedd hi i aros yno yn awr, ond na fyddai hi ond ychydig amser cyn y deuai yno i drigo. Y mae yn bosibl mai cynyrch dychymyg bywiog, wedi ei gyffroi gan fyfyrnodan cryfion, mewn corff gwan, oedd yr olygfa: ond diameu iddi effeithio cryn lawer er sirioli ei meddwl.* Mewn cyfeiriad at yr amgylchiad yr

* Y mae i'r darlennydd roesaw i farnu drosto ei hun, ond fe'm hesgusoda inau am gofhau y sylwadau canlynol o eiddo y duwiol John Newton ar y pwnc:—"Y rhai a addefant yr ysgrythyrau, a addefant fod breuddwydion neu ddatguddiedigaethau goruwch-naturiol wedi eu derbyn lawer gwaith yn gyfarwyddiadau mewn perthynas i, neu i rag-fynegi, dygwyddiadau dyfodol; a'r rhai sydd yn adnabyddus â hanes a phrofiad pobl Dduw, a gaent eu sicrhau nad ydyw amlygiadau o'r fath wedi eu cwbl atal mewn unrhyw oes hyd y dydd hwn; ac yn

ysgrifenodd y llinellau canlynol mewn cân benrydd.

In visions of the night, methought I saw
 One for whose loss this aching heart still sighs,
 These eyes still weep the unavailing tear—
 My angel father's form arrayed in light.
 He stood, and to his Mary comfort spoke;
 His tones were sweet, Ah! how surpassing all
 The Music 'neath the sun—Calmly he smiled,
 And bade me rise above, and taste with him
 Those joys which everlastingly endure:
 But Ah! too soon I found 'twas but a dream.
 Yet still, my fancy pictures his loved form
 As on the couch of death, he lay and held
 Blissful communion with the glorified;
 Ah! these were hours such as I never more
 Hope to enjoy. It was the joy of grief.
 Though tears would flow, they were the tears of joy.
 And he, the sufferer, calmly spoke of death
 As of a friend, whose last kind office was
 To bear him to his kingdom and his crown.
 Oh! how he spoke of him, who conquered death,
 Whose presence in the valley was so sweet—
 Whose everlasting love had borne him through,
 More than a conqueror, and bade him sing,
 With his last dying accent, "all is well."
 No more! the happy spirit took its flight
 Into the regions of unclouded light.
 They laid him in yon sheltered nook to sleep—
 It is a lovely spot. The moon at night
 Bows down, and watches o'er him, and the sun
 Lingered at eve to light my footsteps there;
 Above his resting place, sweet flow'rets blow
 And throw delightful odours all around;
 Fit emblem of the righteous man who lives,
 E'en when his spirit's fled. Though few the words
 Upon his monument; yet, friends can tell
 How he was loved on earth. He needs no shrine;
 For on his grave will fond ones still repose,
 And point the spot to memory so sweet.

fy amgylchiad fy hun, gallaf ddywedyd heb betrusder,—'y breuddwyd sydd gywir, a'i ddeongliad sydd sicr,' ac nis gallaf amheu nad oedd yn dal perthynas neillduol â fy amgylchiad I ar y pryd." Y mae Baxter hefyd o farn gyfelyb.

PEN. XIII.

DARFOD A'R PETHAU A WELIR.

"Mewn tralod at bwy'r âf, ar ddiwrnod tywyll du,
Mewn dyfnder beth a wnaſ, a'r tonau o'm dau tu;
O fyd, yn awr beth elli di? nesau at Dduw sydd dda i mi."--D.J.

Y MAE yn orchwyl tra hyfryd i olrhain perffeithiad graddol y gwaith da ar enaid y Cristion. Cawsom weled yr orchwyliaeth yn dechreu yn foreu iawn—rhyw chwech oed neu cyn hyny;* yn ei chanlyn trwy febyd ac ieuengctyd, yn ei gwneyd yn effro ac yn ddefnyddiol yn yr adeg hon; yn ei dilyn i fynu ac i waered, trwy brofedigaethau, gofidiau, cyfnewidiadau a phleserau bywyd, am yspaid o ddeugain mlynedd: ond, dyma adeg y gorpheniad cyflawn wedi dyfod o'r diwedd. Diamheu y medr y Gweithiwr mawr ddechreu, cynyddu, a gorphen y gwaith da mewn byr amser, fel yn amgylchiad y lleidr ar y groes; ond yn gyffredin bydd y fynedfa i'r bywyd yn cael ei ragflaenu gan fath o addfediad graddol ar y meddwl cyn myned i'r glyn. Felly mewn modd arbenig y bu yn yr amgylchiad hwn. Yr oedd yn darfod yn raddol a'r pethau a welir. Bob amser pan y byddai y cludwr llythyrau yn curo wrth y drws, byddai am gael gafael dioed yn yr holl llythyrau. Ond y teimlad hwn a wanychodd, ac yn mhen ychydig amser a ddfianodd—clywid hi wedi hyny yn gofyn, pan y byddai y *postman* yn curo, "a

* Dywedai iddi dderbyn cymaint o argraffiadau oddiwrth ddarllen *Taith y Pererin* pan yn chwech oed, nes codi penderfyniad cryf ynddi i gychwyn ar bererindod; ond, yn hollol anwybodus am natur y daith, hi a gychwynodd ryw ddiwrnod tua phen rhyw fryn gerllaw, lle yr oedd wedi nodi allan ryw "borth cyfyng," mewn llawn fwriad i fyned trwyddo. Cafwyd hi gan gyfaill yn crwydro, a dygwyd hi yn ei hol.

oes yna lythyr oddiwrth fy mrawd neu'm chwaer? Nid ydyw llythyrau *business* ddim i mi mwyach—nid wyf am glywed dim sydd ynddynt." Ond, tra yn gollwng ei gafael ar bethau y fuchedd hon, yr oedd yn teimlo mwy o ddyddordeb a chryfach gafael yn mhob peth perthynol i'r Capel, a'r achos crefyddol. Dywedai wrth Mr. J. Parry,—* "y mae fy serch at eglwys fach Upper Bangor wedi cynyddu yn rhyfeddol er pan wyf wedi fy ngaethiwo y tro hwn; y mae pawb yn garedig iawn i mi. Y mae acw lawer o weddio wedi bod drosod, ac yr wyf yn gwybod fod y gweddiau wedi eu hateb. Perwch iddynt barhau i weddio, fel, pa un bynag a'i byw a'i marw a wnaf, y bydd i mi ogoneddu Duw." Ac wrth gyfaill arall y dywedai, "yr wyf yn teimlo mwy o *interest* yn llwyddiant yr achos yn y Tŵr Gwyn, nag erioed o'r blaen." Byddai yn ofalus iawn hyd yn nod yn ei gwendid mwyaf, am fod rhai o'r teulu yn myned i bob gwasanaeth crefyddol; a byddai yn awyddus ddysgwyl cael hanes y cyfarfod: ac os deallai fod Cyfarfod gweddi neu *Society* gysurus wedi ei chael, atebai bob amser,—"*I am so glad to hear;*"—"Y mae mor dda genyf glywed!"

Tua chwech wythnos cyn iddi ein gadael, hi a anfonodd y genadwri ganlynol at y gymdeithas eglwysig; gyda chofio atynt yn garedig, perai ddywedyd "ei bod yn ofni erbyn hyn fod ei chlefyd yn un i angeu; ac er nad oedd yn dywyll iawn ar ei meddwl, eto fod arni eisieu cael tystiolaeth fwy cryf ei bod yn un c'r plant." Dymunai ar iddynt weddio drosti am hyn: deallodd i'r peth gael ei gymeryd yn garedig yn yr eglwys, yr hyn a barodd lawer o gysur iddi; credai o hyny allan ei bod yn

* Gall y darlennydd hyderu fod yr hyn a nodir oddiyma hyd y diwedd, fel ei hymadroddion ar ei gwely angeu, yn gywir hollol fel y'u llefarwyd, gan i'r ysgrifenydd, yn lle ymddiried i'w gof, eu hysgrifenu i lawr ar y pryd.

derbyn llawer fel ffirwyth gweddiau ei chyfeillion drosti. Credai bob amser mai goruchwyliaeth angenrheidiol yn llaw y Gweithiwr mawr oedd yr hir afiechyd yr oedd hi yn ei gael. Ni chlywid yr un gair o'i genau tebyg i anfoddlonrwydd. Dywedai wrth y Parch. Roger Edwards, "pe buasai hi yn myned i drefnu afiechyd iddi ei hun, na fuasai yn medru ei drefnu yn well." Un nos Sabboth, coffaodd yr ysgrifenydd wrthi, "ei bod wedi treulio llawer Sabboth unig yma, pan y byddem ni yn y capel." "Do," meddai, "ond ni chefais un yn ormod, naddo un; 'ti a gai gystudd ddeng niwrnod.'" Gan mor ofnus ydoedd rhag dangos unrhyw duedd i rwgnach, arferai grybwyll yn fynych pan y byddai yn dyoddef cystudd a phoen, "ei bod yn meddwl nad oedd yn bechod ceisio esmwythau y boen, ond nad oedd yn dymuno grwgnach."

Yr oedd ei meddwl wedi ei ystôrio yn dda o ddewisolion Hymnau Cymraeg a Saesoneg, a byddai yn profi llawer o gysur wrth eu hadrodd a'u canu. Yr oedd yn agos mor hyddysg yn Nghasgliad y Deheudir o Hymnau, ag ydoedd yn y Beibl ei hun. Byddai yn anhawdd coffhau unrhyw hymn o hynodrwydd, nad oedd hi yn ei medru ar ei hyd, ac yn alluog i droi iddi yn y fan. Dymunol iawn fyddai gweled merched ieuainge, yn lle gadael i'w meddyliau redeg ar wagedd, yn ymgynefino â gweithiau mor syml ac ardderchog ag ydyw yr hymnau sydd genym yn yr iaith Gymraeg.

Ceir gweled wrth ddarllen y Bywgraffiad hwn, yn nghyda hanes diwedd llawer Cristion, fod hyn yn talu yn dda am y drafferth, ar wely angen, ac mewn llawer cyfyngder cyn hyny. Mynych y clywyd y drangcedig, yn ystod ei chystudd diweddf, yn rhybuddio merched ieuainge a fyddai yn dyfod i'w gweled:—"Cofiwch," meddai, "er pob peth, wneyd crefydd yn brif orchwyl eich bywyd; gwyliwch syrthio yn fyr o'r nefoedd."

PEN. XIV.

TORIAD Y WAWR.

“Gad, llu a'i gorfydd, ac yntau a orfydd o'r diwedd.”

“Byth cofiaf mwy y lle a'r man,
 Dylifodd gwin i'm henaid gwan,
 Yn ffrwd ddidrai o'r nefoedd draw,
 Nes gwella'm briw a dofi'm braw;
 Ce's wel'd yn rhodd fod Duw o'm rhan,
 Yn briod gwiw i'm henaid gwan;
 'N arfaethu'm dwyn i beu fy nhaith,
 O eithaf trag'wyddoldeb maith.”—W. W.

Yr ydym erbyn hyn yn tynu i lawr yn mhell i'r dyffryn, lle mae awelon braf o'r tu arall i'r Iorddonen yn cyraedd drosodd i loni a chryfhau y pererinion. Un diwrnod, tua mis cyn iddi orphen ei gyrfa, wedi bod mewn ymdrech galed am ychwaneg o oleuni cyn myned drwodd—pan ddaeth yr ysgrifenydd adref, wedi dygwydd bod yn absenol trwy y dydd, edrychodd i'w wyneb gyda sirioldeb anarferol, a'i llygaid yn llawn o ddagrau, a dywedai:—“De'wch i mewn, eisteddwech yn y fan yma, fy anwylyd, y mae yn dda iawn genyf eich gweled; y mae genyf *secret* i'w ddyweyd wrthych heddyw. Yr wyf wedi cael diwrnod hyfryd; y mae y Dyddanydd wedi bod yma trwy y dydd: nis gallasai neb arall wneyd yr hyn a wnaeth efe i mi heddyw. Yr wyf wedi cael goleuni rhyfedd ar addewidion Duw. Gallaf heddyw eu mabwysiadu oll yn eiddo i mi fy hun. Gallaf yn awr yn ddibetrus ddyweyd, 'Abba, Dad'.” Gofynais iddi, beth oedd hi yn ei dybio o'r hen grefydd? “O” meddai hithau, “yr oedd yn gywir trwy bob peth: ond yr wyf wedi boŋ yn Armin trwy fy holl fywyd. 'Roedd arnaf eisieu gweithio, a gweithio, a gweithio; yn condemnio fy

hun ac ameu fy nybenion, ac yn fynych yn cael y cwbl allan o le; yn chwilio llawer yn fy nghalon i edrych a gawswn afael ar rasusau y Cristion, ond yn methu eu cael: yr wyf yn awr wedi darfod â mi fy hun, ac yn cael y cwbl '*yn yr Annwlyd*'. Athrawiaeth y *cyfrifiad* sydd yn fy *suitio* I—Crist oll yn oll. Yr wyf yn credu nad oes un athrawiaeth yn ddigon cref i orwedd arni wrth farw ond athrawiaeth y *cyfrifiad*—'*the doctrine of substitution*'—Crist yn fy lle. Nid wyf yn teimlo yn gul mewn un modd at ein brodyr o wahanol farn; ond yr wyf yn credu eu bod oll yn rhwym o ddyfod yn Galffiniaid trwyadl cyn marw. Yma y mae nerth i farw: '*complete in him*'—'wedi eich cyflawni ynddo ef.' Dywedwch wrth Mr.——— oddiwrthyf fi, am beidio byth fyned i ddadleu ychwaneg yn erbyn athrawiaeth y *cyfrifiad*. Y mae yn destun rhy sanctaidd i gael ei drin a'i drafod dan deimladau cynhyrfus. Fe gaiff ef ei synu yn fawr pan yr ä i farw, pan gaiff na fydd yr un athrawiaeth arall yn ddigon cref i'w ddal." Y mae tystiolaeth o'r natur hon yn cynwys mwy o ddyddordeb pan yr ystyriom ei bod hi hyd yn hyn yn coleddu y golygiadau cyferbyniol. Yr oedd wedi darllen yn fanwl weithiau Jenkyn ac ereill, y rhai sydd wedi ymorchestu i gael allan gyfundrefn trwy yr hon y gellid dangos gras yr efengyl yn fwy cyson â rheswm, ac yr oedd i raddau mawr wedi mabwysiadu eu golygiadau; ond dyma amgylchiad yn ei chyfarfod, yn yr hwn y mae yr hyn oedd o'r blaen yn bwngc barn yn dyfod yn bwnc profiad; y llong, yn lle cario y *cable* ar ei bwrdd, yn crogi wrtho yn yr ysturm. Cawn y Dr. Gordon yn dwyn tystiolaeth gyffelyb ar ei wely angeu. "Bob amser," meddai y Doctor, "byddwn yn ceisio amgyffred trefn yr Efengyl trwy reswm, ac yn cael llawer darn o honi yn ddigon anhawdd i'w chysoni: ond gadewch i'r hwn sydd yn mynu ei hamgyffred a'i chysoni yn drwyadl

cyn ei chredu, gael ei phrofi trwy ffydd drosto ei hun, ac fe gaiff ar unwaith dystiolaeth dumewnol o'i dwyfoldeb, mor sicr nad all unrhyw gywrain-ddadleu (*sophistry*) byth ei siglo." Felly hithau, parhaodd yn gryf yn ei barn hyd y diwedd;—"Crist yn fy lle:" yr hyn a wnaeth Crist yn dyfod yn eiddo iddi hi, oedd yn ei dal yn gryf yn y cyfyngder olaf. Hen athrawiaeth y Cyfrifiad! a hwyrach na chyfeiliornid llawer pe dywedid, mai dyma athrawiaeth yr hen ddiwygiadau crefyddol yn Nghymru, Lloegr, Scotland, ac America. Y mae yn wir y cymylwyd ychydig arni mewn rhan o'r diwygiad yn Lloegr, yn amser Whitfield a Wesley; ond y mae yn amheus hefyd na chymylwyd y diwygiad i fesur mawr ar yr un pryd, pan y dygwyd i fewn y pyngciau newyddion hyn. Galwodd Mrs. J. H. arni un boreu Sabboth, wedi bod yn gwrando y Parch. J. P. yn y Tabernacle, a dywedai—"Wel, yn wir, y mae pregeth Mr. P. wedi fy ngwneyd heb ddim heddyw." "Heb ddim!" meddai hithau, mewn atebiad, "'does dim *busnes* i chwi gael dim; cael y cwbl o fan arall—dyna sydd yn braf. 'Myfi yn llwm, a'r Iesu yn llawn'; dyna fel yr wyf fi yn ei cheisio hi."

PEN. XV.

AWYDD BOD YN DDEFNYDDIOL.

"Blodeuant, tyfant tua'r nen
 Fel y winwydden ffrwythlon,
 A bydd eu harogl wrth eu trin,
 Mor bêr a gwin Lebanon."

UN o nodau arbenig y Cristion, yw ei fod yn teimlo ei hun yn fyw i wneyd yr hyn a allo gydag achos yr Arglwydd yn y cylch y mae yn troi ynddo. A

phan y caiff proffeswr ei hun bob amser yn ddi-awydd a diymdrech am wneyd rhywbeth gyda'r achos goreu, y mae iddo le i amheu mai nid y winllan yw y lle mwyaf cyfaddas iddo ef, am mai galw i weithio y mae Duw—"Dos, gweithia heddyw yn fy ngwinllan." Y mae y teimlad hwn o awydd gwneyd daioni fel y gwresfesurydd (*thermometer*); pan y bydd yr enaid yn myned yn fwy gwresog mewn cariad, y mae yn codi yn uwch—ie, pan y mae cnawd a chalon yn pallu tuag at bob peth arall, y mae yr ymlyniad wrth bethau tŷ Dduw yn cryfhau. Dywedai gwrthddrych y cofiant yma wrthym yn aml, mai "un yw y gwaith y tu yma a'r tu acw." "Y mae yr eglwys fawr trwy'r ddaear a'r nef yn un; yr unig wahaniaeth," meddai, "yw ei bod hi yma yn y *kitchen*, ac yno yn y parlwr." Parhai hyd y diwedd i anog ereill i weithio, yn nghyd ag i dori gwaith iddi ei hun, os oedd yr Arglwydd yn trefnu iddi gael adferiad. Pan ddywedodd un o'i chyfeillion ei bod yn go-beithio y câi wella eto, "Wel," meddai, "yr wyf fi wedi rhoddi hyny yn ei law ef—efe biau dewis; ond os caf, yr wyf yn benderfynol i dreulio llawer o fy amser i ymweled â'r cleifion, a'r tlodion. Yr wyf yn cofio yn awr llawer o ddywediadau yr hen Pal Harri ac ereill, pryd y cefais llawer o les wrth ymddiddan â hwynt yn eu cystudd. Yr wyf yn sicr fod eu gweddiau yn cael eu hateb arnaf fi yn awr." Fel esiampl arall o'i hysbryd gweithgar, gallwn nodi iddi ddanfôn cenadwri efo Mr. M. D. at ieuencyd yr eglwys: gyda son ei bod yn ofni fod llawer o bobl ieuainc grefyddol y dyddiau hyn yn tyfu i fyny yn segurwyr yn nhy yr Arglwydd, ac nid yn weithwyr,—“dywedwch wrthynt,” meddai, “oddi wrthyf fi, nad edifarheais I ddim am weithio, ond i mi edifarhau llawer na buaswn wedi gweithio ychwaneg.” Nid ymfoddlonai chwaith mewn galw ar ereill i fod yn effro ac yn weithgar,

ond amcanai hyd yn nod yn ei hystafell, pan yr oedd yn mron bod yn analluog i symud llaw na throed, i fod o ryw ddefnydd yn y fan hono. Danfonodd i gyrchu rhai pobl ieuainc i ymweled a hi, er mwyn iddi gael cyfle i'w rhybuddio; a dywedodd mwy nag un o'r cyfryw wrth yr ysgrifenydd ar ol hyny, nad anghofiant byth yr hyn a ddywedodd hi wrthynt. "O fy mhlant bach," meddai wrth nifer o ferched ieuainc oedd yn yr ystafell, "peidiwch ag anghofio byth yr hyn ydych yn weled heddyw, dyma fuddugoliaeth ar *angeu!* cofiwch, 'does yma ddim twyll, *realities* i gyd yw pob peth crefydd." Yr oedd rhyw zêl wedi ysu ei henaid am ddyweyd gair i ryw bwrpas wrth bob un a ddeuai i'w golwg. "Prin yr wyf yn tybied y caf eich gweled chwi eto," meddai wrth y meddyg, "yr wyf yn dra diolchgar i chwi am eich gofal tyner am danaf am gymaint o amser, ac am y lles mawr a wnaethoch i mi gynifer o weithiau; ond y mae gair ar fy meddwl i'w ddyweyd wrthyich chwithau,—cofiwch, Doctor anwyl, fod yn rhaid cael *crefydd* i fedru marw yn gysurus, nid oes dim arall a wna'r tro ar wely *angeu*—peidiwch a digio; ond yr oedd arnaf eisiau dyweyd wrthyich."

Teimlai awydd i wneyd y goreu o *ddydd ei chladdedig*, trwy amlygu ei dymuniad ar fod i'r Parch. J. Phillips, neu y Parch. H. Roberts, gymeryd mantais o amgylchiad mor bwysig, ar adeg mor ddifrifol, i ddarllen a gweddio, a rhoddi cyfarchiad byr i'r rhai fyddai wedi dôd yn nghyd,— "Pwy a wyr," meddai, "na ddeil rhyw air yn meddwl rhyw un." Fel hyn, gwelwn mai egwyddor gref yw egwyddor cariad: nid ofn oedd yma yn gyru at ddyledswydd; nid ofn syrthio oddiwrth ras, nac ofn gwg Duw yn y gydwybod, yw y cymhelliadau cryfaf i'r Cristion i wneyd ei ddyledswydd. Na, y mae prawf o gariad Duw yn gryfach na dim arall i symbylu y Cristion at ei waith. Yn ystod

ei hafiechyd diweddaf, gwnai sylwadau cyffelyb i'r rhai uchod, a choffai amgylchiad a gymerodd le fel esboniad ar yr egwyddor o gariad fel y cymhelliad cryfaf i weithio dros Dduw. "Boreu heddyw," meddai, "yr oedd y bychan yma, ac mi ofynais iddo wneyd cymwynas fechan i mi; 'Pa beth a gâf fi am hyny?' meddai yntau; O, meddwn inau, a ydych chiwi wedi anghofio yr holl bethau y mae *mamma* wedi eu gwneyd i chiwi? gan ddechreu eu hadrodd yn olynol; ond cyn i mi gael myned dros haner y llith, efe a waeddai allan, 'gwnaf, mi wnaf bob peth i chiwi *mamma* bach, byth, byth!'" Ni a gawn mai yr unig amcan oedd yn ei weled yn werth cael adferiad iechyd i'w gyraedd, oedd cael gweithio gydag achos y Gwardwr. "Yr hen gorph yma," meddai, un diwrnod, "y mae wedi myned mor ddi-lun, 'rwy' braidd yn methu ei adnabod ef." "Beth a ddywedech chiwi," meddai cyfaill wrthi, "pe caech chiwi gynyg dôd yn ol, a *llwyr wella?* yr ydych yn dywedyd nad ydyw yn werth dôd yn ol ar yr hen *derms*, a chorph afiach; a fyddech chiwi yn foddlon i wella pe caech chiwi gorph *cnabl iach*, i weithio am dymor eto gydag achos Duw?" "Y mae yn anhawdd dewis yn yr amgylchiad hwnw, ond mi roddwn I ei ddewis iddo ef."

Y mae yn ddigon amlwg nad difrifwch gwely angeu oedd wedi gweithio ynddi yr awyddfryd hwn i fod yn ddefnyddiol gydag achos Iesu Grist. Cawn yn mhlith ei phapurau yr ysgrifen ganlynol wedi ei ysgrifenu ganddi pan yn 23ain oed—adeg y byddwn braidd yn barod i esgusodi meibion a merched er dangos eu hunain yn o bell dan ddylanwad mebyd ac ieuentyd; ond y mae yn eglur mai bod yn lles i'w chyd-bechaduriaid oedd y pwngc mwyaf ar ei meddwl hi yn yr amser hwnw:—

Awst 7fed, 1835. Pan yr wyf yn gweled miloedd o fy nghyd-greaduriaid yn marw o eisieu gwybodaeth, a chlywed

am ganoedd o ganlynwyr ymroddgar yr Iesu yn galw arnom mewn iaith gwynfanus, "Deuwch drosodd a chynorthwywch ni;" ac uwchlaw y cwbl pan y darllenwyf orchymyn fy Ngwaredwr, "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur," yn nghyda'i addewid, "Mi a fyddaf gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd,"—a gaiff oed, neu ryw, a gaiff pleser. ac hyd yn nod cariad at berthynasau a chyfeillion, fy atal rhag ateb i'r holl alwadau hyn? Na! "Wele fi, anfon fi." Ydwyf, yr wyf yn teimlo fy nghalon gyda hwy, ac yn adsain i'w galwadau, a'm gweddi ddifrifol gaiff fod, am i Dduw benodi fy rhandir yn India neu China. Pa fodd, neu pa bryd, rhaid i mi adael hyny i'w ewyllys oruchel. Ond Ah! yr wyf yn ofni fod fy ngalluoedd yn fychain, ac yn annigonol tuag at waith mor fawr; ond byddwn yn berffaith foddlon i dori coed, neu dynu dwfr yn ngwasanaeth Duw; a phwy fedr ddyweyd na rydd Duw, yr hwn yr wyf yn ewyllysio ei wasanaethu, i mi ddoethineb, a gallu, ac na egr ef ffordd i mi, gan nad pa mor dywyll y mae yn dangos yn awr, i dystiolaethu fy zél dros ei achos, ac i gyflwyno fy ngwasanaeth i'r hwn yr wyf wedi ymddiried fy holl achosion tymorol a thragywyddol iddo.

Ni ddymunwn fyned heb ei bresenoldeb ef; ac os nad ydyw hyn yn ol ei ewyllys, ceisiaf gymhorth i ymdawelu. Dymunaf adael yr oll yn ei law ef, ac i roddi fy hun yn hollol wrth ei alwad.

PEN. XVI.

SICRWYDD GOBAITH.

"Ffydd, ffydd,
 Fy llef am dani fo bob dydd,
 A Duw yn rhad i mi a'i rhydd;
 A hon a dry bob gelyn draw,—
 Gorchfyga'r byd a'i bleser blin,
 Ac ofn angau, brenin braw."—E. JONES.

UN o brif elfenau ei nodweddiad hi, a phawb ereill o'r un cyfansoddiad meddwl a hi, oedd *penderfyniad amcan*; a hyny yn gyffredin mor bennodol, nes y byddai yn anhawdd iawn ei throi oddiwrtho. Ond y mae yn dra dyddorol edrych ar feddwl mor

gryf wedi ei lunio mor ystwyth. “Yr wyf fi yn credu, fy anwyl briod,” meddai wrth yr ysgrifenydd tua phythefnos cyn y diwedd, “na bydd i mi wella y tro hwn; ond nid wyf yn gofalu dim pa un a wnaf a’i peidio: yr wyf wedi dyweyd wrth yr Arg-lwydd, ac nid wyf yn dewis galw yn ol,—‘fel y myno, a phryd y myno’; yr wyf felly yn ei law ef, fel nad oes genyf fi ddim i’w wneyd ond dysgwyl.” Ni a’i cawn hi o hyn allan, yr hon oedd yn ddiweddar yn suddo mewn dyfroedd dyfnion, a’r tonau dros ei phen, wedi dyfod mor hyf nes medru siared am angeu mor ddiarswyd ag am fyned i’r capel. Digon anhawdd yn aml y medrai cnawd ei chanlyn, gan deimlo ei hun yn cael ei dynu yn rhy agos at ddorau byd yr ysbrydion. Wrth ei gweled wedi rhyw ymgynnefino ag edrych yn llawn i wyneb-pryd dyeithr angeu, heb deimlo yr iasau hyny fydd yn arfer rhedeg dros y teimladau wrth feddwl, a son, am ei ddwylaw oerion, er mai hi ei hun oedd i fyned tanynt, braidd na ddyfalem mai gwaith graddol, yn cael ei ddechreu a’i ddwyn yn mlaen i gryn raddau yr ochr yma i’r afon, yw “llyngcu yr hyn sydd farwol gan fywyd.”

Fel eglurhad o’r hyn y cyfeirir ato uchod, coffâwn amryw amgylchiadau sydd yn dangos mai peth bychan yn ei golwg oedd marw. Un diwrnod, wrth ein gweled oll yn wylo o’i chwmpas, dywedai, “y mae yn beth dyeithr iawn nad wyf fi yn teimlo dim cyffroad: os caf fyw bymthegnos eto, byddaf trwy gymhorth Miss E. wedi rhoddi y *wardrobes* oll mewn trefn; ni hoffwn fyned oddi wrthyh, a gadael dillad y plant yn anhrefnus.” Bryd arall, dywedai, “Beth a ddywed fy hen gyfaill, y Parch. T. P.? Tebygwn ei glywed yn dyweyd—‘*And Mary is gone!*’ Yn mhellach eto, cyfarwyddai ni pa fodd i ysgrifenu, os danfonid y newydd o’i marwolaeth i’r newyddiaduron—“Na ddywedwch air,” meddai, “am fy hir gystudd, na’r modd y

dyoddefais ef, nac un math o ganmoliaeth arall; ond yn unig fod M. A. Edmunds, anwyl wraig i John Edmunds, Bangor, wedi dôd o hyd i ben ei thaith, a'i bod wedi ei chyflawni ynddo ef." Wedi gorphen pob trefniadau yn nghylch y bedd, a'r blodau arno, chwanegai:—"nid ydyw blodau yn fwy cyfaddas mewn unman nag ar fedd y Cristion." Bryd arall dywedai, "ei bod weithiau yn ofni ei bod yn rhyfygu wrth edrych yn mlaen mor ddiarswyd; ond nas gallai helpio, na fedrai hi deimlo yn wahanol." "Yr wyf," meddai, "yn teimlo yn fwy pryderus yn nghylch y plant na dim arall; ond er hyny, nid oes rhaid i mi, gwnant hwy yn eithaf; gallaf eu gadael yn hyderus yn llaw yr Arglwydd, fe ofala ef am danynt." Ar adeg arall, dywedai wrth y Parch. J. P.,—"Yr wyf wedi treulio fy oes mewn caethiwed, dan ofn angeu. Mi weddiais lawer am sicrwydd fy mod yn blentyn. Mi gefais hyny, ac yn awr 'rwy'n barod." Yn gyffelyb atebai y meddyg: "Y mae eich calon, Mrs. E.," meddai, "yn llawer gwell; pe gallem ni lwyddo i gael y chwydd i lawr, chwi a wellhaech eto." "Yr wyf fi yn gwybod, fy anwyl Syr" (atebai hithau) "eich bod chwi wedi gwneyd eich goreu i mi, a'ch bod wedi llwyddo lawer gwaith; ond os methwch y tro hwn, 'does dim gwahaniaeth." "Y mae John a'r plant o angenrheidrwydd am fy nghadw, ond am danaf fi, y mae yn hollol ddibwys."

Un o'i chwirydd crefyddol a'i cyfarchodd wrth ymadael fel hyn: "Gobeithio y de'wch chwi yn well eto, Mrs. Edmunds bach;"—"Dôf M. Owen bach," meddai, "mi ddôf fi yn well; dyna wyf fi yn ei alw dôd yn well—"Cael pob gwahanglwyf ymaith, glân fuddugoliaeth mwy; 'rwy'n canu wrth gofio'r boreu, na welir arnaf glwy'."

PEN. XVII.

AWYDD MYNED TRWODD.

“ Mae'r pomgranadau pêr, mae'r peraroglau rhad,
 Yn magu hiraeth cryf am hyfryd dŷ fy Nhad;
 O! Salem bur, O! Seion wiw,
 Fy nghartref I a chartre'm Duw.”—W. W.

FEL yr oedd ei hymadawiad yn nesau, yr oedd ei ffydd hithau yn cryfhau; yr oedd Iesu Grist a'r nefoedd wedi myned a'i bryd yn llwyr. Llawer a ganodd hi, a ninau gyda hi, ar y llinellau hyfryd a ganlyn, am y Jerusalem sydd frŷ:—

“ O! Salem, fy anwyl gartrefle,
 Mae'th enw'r pereiddia erioed;
 Pryd derfydd fy llafur a'm lludded,
 O'th fewn mewn llawenydd a chlod?
 Pa bryd caiff fy llygaid I weled,
 Dy byrth sydd o berlau mor ddrud,
 A'th euraidd heolydd glan, dysglaer,
 A'th furiau sy'n sefyll o hyd?
 Caersalem, ti ddinas fy Arglwydd,
 Pa bryd i'th gynteddau caf ddod?
 Lle na fydd cyn'lleidfa yn ysgar,
 Na diwedd i'r Sabboth yn bod,” &c.

A'r penill tlws hwnw:—

“ Myrdd o fy mrodyr anwyl sy,
 Yn gorphwys yn y nefoedd fry:
 'Nghyfeillion goreu sydd mewn hedd,
 Yn canu'n iach tu draw i'r bedd.”

yn nghyda'r “Gân ar farwolaeth amryw o rai duw-
 iol” o hen Lyfr Hymnau Williams. Yr oeddynt yn
 gwefreiddio ei henaid yn y fath fodd, fel yr ofnodd
 yr ysgrifenydd amryw weithiau fod tywyniadau

mor gryfion mewn perygl i lethu ei natur wan. Ond o'r diwedd, aed hyd y terfyn, a gwaeddodd allan,—“O! y maent yn *beautiful, beautiful, beautiful!* Yr ydych wedi fy moedro I efo'r fath berlau heirdd, yr wyf fi yn awr yn rhy wan i edrych ar y fath ryfeddodau. Buasai un o honynt yn llawn cymaint ag a allaswn I ddal; ond pan ddôf fi yn ddigon cryf, mi a fynaf edrych i mewn iddynt oll.” Yna cododd ei llaw, a dywedodd,—“pwy all ddyweyd pa faint fydd tragywyddol bwys gogoniant! Pe dywedasai y Doctor wrthyf heno y cawswn wella, cawswn siomedigaeth fawr.” “Ond beth pe caech chwi gwbl wella?” meddai un oedd yno; “ie,” meddai hithau, “pe cawswn gwbl wella; ond serch hyny, mi fuaswn yn ymostwng i ewyllys fy Nhad.” “Yr ydych yn cofio,” meddai yr ysgrienydd, “eich bod mor dywyll a phryderus a minau;” “Ydwyf, a thywyllach o lawer; darllen a darllen y Beibl, a chael dim o hono, ond eto dal ati.” “Onid yw yr Arglwydd wedi bod yn dda iawn i ddanfôn goleu erbyn yr adeg?” “O ydyw,” meddai hithau,—“*it is like him*—(y mae yn debyg iddo.) Eisteddodd ei hunan wrth enau y ffwrn.”

Fel esiampl o wirionedd diffuant yr hyder a ddangosai, coffhawn eto un amgylchiad oedd yn dangos cryfder meddwl yn nghyda sicrwydd ffydd wrth weled camrau angeu yn nesau. Cafodd fod ei throed yn marw (*mortifying*); gwenodd yn siriol, a dymunodd gael ei weled. “Yn awr,” meddai, “nis gallaf fod yn faith; yr wyf yn ofni myned yn anymarhous, ond y mae arnaf hiraeth am fyned.” Pan y ceisiai y meddyg, (yn ol eu harfer hwy) ddangos y perygl yn llai, dywedai yn ddifloesgni nad oedd angen am iddo gelu oddiwrthi hi fod angeu yn dyfod; ei bod wedi parotoi, ac yn barod i'w gyfarfod. Dywedai un wrthi y dydd canlynol, “y mae eich troed yn ddrwg iawn.” “Goreu i gyd, bydd drosodd yn gynt,” meddai

hithau, "*So much the better, it will sooner be over.*" "Nid ydych chwi," meddai yr ysgrifenydd, "yn cyfrif marw yn ddim yn y byd!" "O! nid marw ydyw i mi, dim ond gwaredigaeth o boen; fe gymer fy Nhad ofal am danaf i farw, ac a ofala hefyd am y rhai sydd ar ol." Wedi hynny, gofynodd a wnai yr ysgrifenydd un gymwynas iddi, sef myned ar ei liniau yn y fan hono gyda hi i erfyn na chai yr ymrysonfa (*contest*) ddim bod yn faith eto. Atebwyd iddi ein bod yn credu fod ganddi hi ei hun fwy o *interest* yn y nefoedd na neb arall oedd yno, ond fod amser ei gollyngdod yn rhwym o fod yn agos bellach. "Pa mor agos?" meddai. "Cyn y boreu, hwyrach." "Y mae yn dda genyf glywed," meddai. Ond ni ollyngwyd hi am yn agos i ddau ddiwrnod wedi hyn.

PEN. XVIII.

Y FFARWEL OLAF.

"Nid yw y ddaear fawr i gyd
Yn deilwng o fy serch a'm bryd,
Nac unrhyw wrthddrych yn y byd—
'Rwy'n caru gwrthddrych mwy;
Nid llai y sawl 'wy'n garu yw,
Na pherffaith ddyn a pherffaith Dduw;
Dyoddefodd dros of farwol friw,
O! werthfawrocaf glwy!

'Dyw tad a mam, a brawd a chwaer,
Na gwraig a phlant, na phawb a'm car,
A'm holl gyfeillion ar y ddaer,
Ond diddim wrth dy glun;
Hebot nid ynt ond dim erioed—
O honot mae eu da yn dôd,
Ni raid chwaneigiad yno i fod,
Y lle baech ti dy hun."—W. W.

Y MAE cylymau calon dyn â'r byd hwn yn gryfion

iawn, ac y mae yn rhaid fod y cariad hwnw sydd yn medru sugno meddwl mam dyner oddiwrth ei phlant bychain, a gwraig serchog oddiwrth ei gwr, yn un grymus iawn. Y mae yn amlwg iawn nad ymadroddion gweigion yw y desgrifiad grymus a rydd yr Apostol o gariad y saint at Iesu Grist, pan yr ydym yn canfod o flaen ein llygaid filoedd o weithiau fel yr amgylchiad hwn, ei fod yn gryf fel y bedd, i.e., yn gryfach nag angeu ei hun. Y mae cariad mam a chariad gwraig—pethau cryfaf a fedd natur, yn diflanu yn ymyl hwn. Gan feddwl fod yr ymadawiad mawr yn agos, galwodd am ei theulu bychan oll, iddi gael ein gweled eto unwaith yn nghyd. Ac am yr ystyriem ninau mai hon oedd yr olwg olaf a gaem ar ein hanwylaf berthynas, aeth yn wylo yn mhob cwr o'r ystafell; yr oedd pawb oedd yn bresenol yn foddfa o ddagrau; ond daliai hi ei phryd yn ddigyffro. "Yr wyf yn sicr," meddai, "na charodd yr un fam erioed ei phlant yn fwy na mi, ond y mae yn beth dyeithr iawn, nes yr wyf yn syndod i mi fy hun ac i bawb o'm cwmpas; nid wyf yn teimlo mewn un gradd yn annghysurus wrth eu gadael yn ngofal yr Arglwydd." Dywedai hefyd wrth yr ysgrifenydd, "Nid wyf yn eich caru chwi yn llai, fy anwilyd, ond yn fwy nag erioed—mae fy nghariad yn fwy pur; nid wyf am i chwi fyned o'm golwg tra y byddwn gyda'n gilydd, ond ni bydd ein hymadawiad yn faith—ni byddwch yn hir cyn fy nylyn, a phan y cyfarfyddwn nesaf, byddwn yn caru ein gilydd yn llawer mwy nag erioed o'r blaen." Gofynnodd yntau iddi, "A ydych yn credu y cawn eto gwrdd?" "O ydwyf yn ddiysgog—'does dim dadl ar y pwngc. Yr wyf fi yn berffaith sicr o hyny. Am danaf fi, 'does genyf ddim yn ychwaneg ar y ddaear hon—mae fy nghyfeillion anwylaf naill ai yn y nefoedd, neu i ddod yno ar fy ol."

Yn y prydawn teimlai fath o wendid llesmeiriol

yn ymdaenu drosti, a chredai hi a ninau fod awr ei hymddatodiad wedi dyfod. Galwodd ar y *nurse*, a pharodd iddi ryddhau ei dillad, a dywedodd, "Rhoddwch chwareu teg i angeu yn awr— Dyma'r adeg am y xliii. o Esaiiah; a wnewch chwi," meddai wrth ei phriod, "ddarllen y rhan gyntaf?" ond pan welodd fod ei deimladau yn ei orchfygu nes methu, hi a'i hadroddodd ei hun mewn llais adnewyddol; "Pan elych trwy y dyfroedd myfi a fyddaf gyda thi, a thrwy yr afonydd, fel na lifant drosot. Pan rodiech trwy y tân, ni'th losgir, ac ni enyn y fflam arnat." "Y mae yn *insult* iddo beidio credu ei air." Teimlai ei hun mor gysurus nes bod arni awydd canu, a dymunodd arnaf ganu yr hen hymn:—

"Rwy'n gweled bob dydd, mai gwerthfawr yw fydd,
Pan elwy'i borth angeu fy angor a fydd;
Fe dreiodd rhai hon yn wyneb y dôn,
Maent heddyw yn canu yn iach ger ei fron."

Teimlai ei hun mor ddigynhwrf, fel yr oedd ganddi hamdden i feddwl a rhagbarotoi ar gyfer yr adeg dorcalonus a ddylynai ei hymadawiad. Parodd ddanfôn i gyrchu dau o'r cyfeillion, "Canys," meddai, "byddwch yn unig iawn yn y tŷ heb neb o'r brodyr crefyddol gerllaw." Yn mhen tua dwy awr adfywiodd gryn lawer, a chymerodd yr ymddyddan canlynol le:—"Mi dybiais, anwyl Mary, eich bod yn myned i'n gadael *just* yrwan." "Oeddech chwi yn foddlon?" meddai. "Oeddwn yn foddlon i ymostwng i ewyllys yr Arglwydd. Oeddech ehwi yn foddlon?" Atebai gyda gwên siriol, "O, ydwyf er's llawer dydd bellach; 'doedd arnaf fi ofn dim ond ofn i gymylau ddyfod dros fy ngobaith yn y glyn; y mae yn ddigon goleu yr ochr draw."

Ni feddylodd, hwyrach, pan yn cyfansoddi y llinellau canlynol, dan dywyniad pelydryn go gryf

ar ddial ei ffydd, pan yn 25 oed, ei fod yn ddysgrifiad mor gywir o'i theimlad pan y deuai yr amgylchiad ei hun i'w chyfarfod:—

Strike, death! but ere thou deal the mortal blow,
 And lay thy trembling fearful captive low;
 See at my side, thy Conqueror stands:
 He, who in our nature clothed, put thee in chains,
 Now King of glory crowned, for ever reigns,—
 I fear thee not, while in his hands;
 Clothed in his righteousness, I'll ever sing—
 "O! grave, where is thy vicory? O! death, where is thy
 sting?"

Y boreu olaf a ddaeth, "*The last! the last!*" Nos Sabboth (Mawrth 21ain) teimlai yn wan iawn drwy ystod y nos, ac ni chafodd gysgu gan beswch. Boreu dranoeth teimlai gryn dipyn yn well, nes peri i ni braidd ddal ein gafael ynddi drachefn. Gofynodd yr ysgrifenydd a oedd hi yn foddlon i ni weddio am gael ei hadferyd. "Gellwch chwi weddio," meddai; "'llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn;' *but I don't wish it*—nid wyf fi yn dymuno hyny." Ond cawsom yn fuan weled nad oedd ond "cam rhyngddi ag angeu." Aeth ei hanadl yn fyr ac yn boenus, a natur drwyddi a ddyrysodd. Cymerais afael yn ei llaw, a thrwy ddamwain, cyffyrddais âg arwydd y briodas; trodd ataf a dywedodd, "'Hyd angeu,' onite, oedd y cytundeb—dyma'r amser wedi dôd i ben." Ond mewn atebiad i grybwylliad ei brawd, ei bod hi yn gwybod am ryw gyfammod a ddaliai *trwy angeu*, ac er ei bod yn ngafael dirdyniadau olaf marwol-aeth, a'i gwedd eisioes "wedi newid," llonodd drwyddi, ac atebodd â gwên siriol, "O! ydwyf, O! ydwyf; 'Cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr.' 'Nid oes, gan hyny, yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu.' O! diolch am ryw beth digon sicr."

Un o'r pethau diweddaf a ddywedodd, oedd mewn atebiad i'r dywediad—"Y mae yn galed iawn arnoch, Mary bach"—"Ydyw," meddai hithau, "yn galed; ond byddai yn llawer caletach oni bae mai *entrance* i'r bywyd ydyw; bydd drosodd yn fuan, ac yna mor hyfryd fydd cael buddugoliaeth." Gwnaeth ymdrech i siarad amryw weithiau wedi hyn, ond yr oedd yn rhy floesg i ni fedru ei deall; ond buom yn alluog i wneyd un gair allan, "*Pray, Pray*—gweddiwch, gweddiwch." Bwlch cyfyng yw angeu, hyd yn nod i'r Cristion ei hun—tynu yr hen babell i lawr; ond cysur mawr wedi myned trwodd yw, na bydd raid marw eto. Felly hi a hunodd yn dawel yn yr Iesu tua 12 o'r gloch, yr 22ain o Fawrth, 1858.

Oddiwrth yr hyn a welsom ac a glywsom wrth wylled oriau olaf ein chwaer ymadawedig, teimlem gyda'r sicrwydd mwyaf—

1. Fod dwy ran mewn dyn. Tra yr oedd y corph yn gwanhau yn raddol, ac yn ymbarotoi am yr ymollyngiad mawr, yr oedd yr enaid yn adnewyddu ac yn cryfhau yn anhraethol; y *serch!* y *gyneddf* fawr!—meistres y tŷ!—yn lle bod fel llin yn mygu mewn dymuniadau gwanaidd, wedi myned yn ffamiau o gariad, yn

"Curo pob cariadau i lawr,
Yn llyngcu enwau gwael y llawr,
Oll yn ei enw ei hun."

Y *deall*, yr hwn am 30 o flynyddoedd a fu yn ymbalfalu i geisio adnabod y gwirionedd, erbyn hyn yn lle tywyllu a marw yr un modd a'r corph o dan ddwyllaw y dinystrydd, yn ymagor i eangder

mawr; yn "gweled yn eglur ac o bell,"—yn siared am y byd anweledig gyda'r fath eglurder a sicrwydd, a phe buasai eisoes wedi glanio iddo. Na! na! tra y canfyddem un ran yn marw yn raddol, gwelem y llall yn tanbeidio o fywyd.

2. Mai peth annhebyg iawn, os nid anmhosibl, y gall yr enaid hwnw sydd yn llawn ac yn ymlenwi o gariad at Dduw a gwrthddrychau y nefoedd, gael ei hun wedi myned drosodd mewn un man arall ond yn y lle dedwydd hwnw. Nid tebyg y gall yr enaid hwnw droi ar darawriad amrant yn elyn i Dduw, ac i gasâu y cwbl yr oedd y munud o'r blaen yn eu caru mor fawr.

3. Fod dylanwad crefydd yn gryfach ar galon dyn, na dylanwad dim arall a fedd y greadigaeth. Y mae gofidiau, cystuddiau, a thrallodau y natur ddynol yn cyd-gyfarfod yn eu ffurf waethaf a mwyaf arswydus yn ngofidiau angeu. Ond y mae crefydd yn galluogi ei pherchen, nid yn unig i wneyd y goreu o'r gwaethaf, ond i lawenhau a gorfoleddu yn nghanol y cwbl. Os yw perthynasau yn anwyl un amser, y maent yn hynod felly wrth eu gadael. Os bu angeu ar unrhyw adeg yn frenin braw, y mae yn arbenig felly pan ar syrthio i'w grafangau; ac os bu y byd tragwyddol erioed yn fawr, y mae yn arswydus felly pan ar gamu i fewn i'w ddorau. Ond er hyn oll, y mae perchen crefydd yn gallu llawenhau â llawenydd annhraethadwy! Pa ddylanwad arall a all gynyrchu hyn?

PART III.

POETRY.

ORIGINAL AND A FEW TRANSLATIONS.*

DEATH.

I long to lay this aching head,
 And weary heart beneath the soil;
 To slumber in that dreamless bed
 From all my toil.

For misery stole me at my birth,
 And cast me helpless on the wild;
 I perish, Oh! my mother earth
 Take back thy child.

On thy dear lap, these limbs reclined
 Shall gently moulder under thee;
 Nor leave one wretched trace behind,
 Resembling me.

Say what is death? a valley
 Betwixt the hill of time and vast eternity,—
 Dismal and dark to those who have no ray
 To light them through its gloom; but happy they,
 Who have in this world found a guide
 To lead them safely to the other side.

Oh! what is death? a mighty conqueror,
 The king of terrors and his empire vast:
 But Jesus, king of peace, upon the cross
 Hath led this mighty conqueror in chains,
 And now, no more he'll conquer.

* Y mae amryw o'r llinellau hyn yn awgrymu ei bod wedi eu bwriadu yn bennodol at ei hamgylchiad ei hun.

Oh! what is death? A serpent still we find,
 But now without a sting, for Christ his power hath ,
 broke.

* * * * *

FAREWELL.

Not as the worldling bids farewell,
 While earthly wishes bound his view,
 Whose but the Christian's tongue can tell
